# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 18 CHWEFROR 2026 am 2.00 y. p. | WEDNESDAY 18 FEBRUARY 2026 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR , SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM | COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, John Ifan Jones, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Alwen Watkin,
Sonia Williams ***(Is-Gadeirydd/Vice-Chair***), Arfon Wyn

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Dafydd Rhys Thomas

**LLAFUR CYMRU/ WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Jeff Evans ***(Cadeirydd/Chair)***, Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*,* R. Llewelyn Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

John Tierney (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Gwag/Vacant (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Kathryn Seeney (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Christina Williams (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2026.

**3** **GOSOD CYLLIDEB 2026/27: CYNIGION DRAFFT TERFYNOL AR GYFER Y GYLLIDEB REFENIW** (Tudalennau 11 - 28)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**4** **GOSOD CYLLIDEB 2026/27:CYNIGION DRAFFT TERFYNOL AR GYFER Y GYLLIDEB GYFALAF** (Tudalennau 29 - 84)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**5** **ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL SGRIWTINI ADNODDAU**

Cyflwyno adroddiad llafar gan Gadeirydd y Panel.

**6** **CYNLLUN STRATEGOL RHEOLAETH MÂNDDALIADAU 2026-2031** (Tudalennau 85 - 102)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

**7** **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 103 - 110)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Democratiaeth.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL
## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor ac yn rhithiol ar Zoom ar 21 Ionawr 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Jeff Evans (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Sonia Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Jackie Lewis, John Ifan Jones, R. Llewelyn Jones, Llio A. Owen, Keith Roberts, Dafydd Rhys Thomas.<br><br>Aelod Cyfetholedig Kathryn Seeney (Rhiant Lywodraethwr - Cynradd)<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer), Neville Evans (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol), Dyfed Wyn Jones (Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd), Alun Roberts (Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo), Dafydd Roberts (Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg), Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Ieuan Williams (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd).<br><br>**Aelodau'r Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio ac Aelodau eraill y Cyngor (drwy wahoddiad)**<br><br>Cynghorwyr Non Dafydd, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Dylan Rees, Margaret M. Roberts, Ken Taylor. |
| **WRTH LAW:** | Y Dirprwy Brif Weithredwr<br>Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Y Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Democratiaeth (DS)<br>Rheolwr Newid Hinsawdd (RAW)<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH)<br>Cynorthwyydd Cefnogi Democrataidd (Gweddarlledu) (CH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Alwen Watkin, Arfon Wyn, Gary Pritchard (Arweinydd y Cyngor), Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig), Christina Williams (Rhiant Lywodraethwr – Sector Uwchradd ac ADY), Dylan Williams (Prif Weithredwr), Huw Percy (Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Elin Allsopp (Swyddog Sgriwtini) |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Nodwyd yr ymddiheuriadau a gyflwynwyd.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

3 **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2025 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**4 GOSOD Y GYLLIDEB 2026/27 - CYNIGION CYCHWYNNOL AR GYFER Y GYLLIDEB REFENIW DRAFFT**

Cyflwynwyd Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, oedd yn cynnwys y cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb refeniw drafft 2026/27 ac a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Ionawr 2026, i'r pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn amlinellu cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb, y setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol a sefyllfa gychwynnol cyllideb y Cyngor ar gyfer 2026/27. Roedd hefyd yn crybwyll y pwysau cyllidebol y mae'n rhaid ymdrin ag o yng nghyllideb 2026/27, y risgiau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod 2026/27, cynnydd yn y Dreth Gyngor er mwyn cael cyllideb sy'n cydbwyso a'r goblygiadau ar gyfer y Cynllun Ariannol Tymor Canol.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer, yr adroddiad gan ddweud fod gosod y gyllideb bob blwyddyn dal yn heriol gan fod setliad y llywodraeth leol yn cael ei gyflwyno'n flynyddol er bod galw ers peth amser am setliad tair mlynedd er mwyn gallu cynllunio'n well. Er bod balansau ac arian wrth gefn y Cyngor mewn sefyllfa iach ar hyn o bryd, roedd y Cynghorydd Robin Williams yn pwysleisio'r angen am ddoethineb parhaus a chynllunio ymlaen llaw. Dywedodd wrth y pwyllgor mai'r gofyniad cyllidebol ar gyfer 2026/27 yw £207.023m, wedi ei ariannu drwy'r Grant Cymorth Refeniw, cyfranddaliad Ynys Môn yn y gronfa ardrethi annomestig a'r Dreth Gyngor. Tynnodd sylw at y prif bwysau ariannol sy'n cynnwys chwyddiant a thâl staff, gyda dyfarniadau cyflog ar gyfer staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu ar gyfer 2026/27 dal i'w cadarnhau. Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor Gwaith yn cynnig cynnydd yn y Dreth Gyngor o 4.8%, ynghyd â 0.3% ar gyfer Ardoll y Gwasanaeth Tân, sy'n gyfanswm o 5.1%, gan olygu fod y gost i eiddo Band D yn £1,792.98. Cynigir hefyd bod y premiwm o 100% ar dai gwag ac ail dai yn parhau, a bod £1.685m yn cael ei rhyddhau o falansau cyffredinol ac arian wrth gefn wedi ei glustnodi y Cyngor er mwyn cael cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 ei fod wedi derbyn ffigwr terfynol y setliad y noson flaenorol ac roedd £5,692 yn uwch na'r swm a nodwyd yn yr adroddiad. Bydd yr adroddiad yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newid hwn. Tynnodd sylw at y prif grantiau refeniw oedd wedi'u cynnwys yn nhabl 2 yr adroddiad ar sail Cymru gyfan, sy'n cael eu dyrannu y tu allan i'r setliad, ac amlygodd y goblygiadau ar gyfer gwasanaethau a chyllidebau pe byddai unrhyw rai o'r grantiau hyn yn rhewi neu'n lleihau. Cyfeiriodd at y prif newidiadau rhwng cyllideb derfynol 2025/26 a chyllideb gychwynnol 2026/27, fel yr amlinellir yn adran 4 yr adroddiad, ac eglurodd beth oedd eu heffaith gadarnhaol neu negyddol ar y gyllideb. Mae'r rhain yn cynnwys chwyddiant mewn cyflogau staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu, cyfradd cyfraniad y cyflogwr i'r gronfa bensiwn, effaith y Cyflog Byw Cenedlaethol ar gostau gofal preswyl, nyrsio a gartref, newidiadau mewn niferoedd disgyblion, pwysau demograffeg yn y gwasanaethau oedolion a phlant a'r Ardoll Gwasanaeth Tân. Ar y cyfan, mae'r rhain a newidiadau eraill wedi arwain at gynnydd o £11.330m yn y gyllideb refeniw net ddigyfnewid ar gyfer 2026/27, o gymharu â chynnydd o £5.777m yn y setliad. Mae hyn yn gadael gwarged yn y gyllideb o £4.634m cyn unrhyw

gynnydd yn y Dreth Gyngor. Os am gau'r bwlch drwy ddefnyddio'r Dreth Gyngor yn unig, byddai angen cynnydd o 8%. Felly, y cynnig yw mynd i'r afael â'r gwarged drwy gyfuniad o gynyddu'r Dreth Gyngor a defnyddio balansau cyffredinol ac arian wrth gefn.

Fel rhan o'r broses datblygu cyllideb, cwblhawyd adolygiad manwl ar yr holl gyllidebau er mwyn adnabod cyllidebau nad oes eu hangen mwyach, cyllidebau sy'n rhy uchel a chyllidebau incwm y gellir eu cynyddu. Mae adroddiad 4 yn yr adroddiad yn crynhoi'r arbedion sy'n weddill, sy'n £976k. Gwahoddwyd gwasanaethau i gyflwyno cynigion ar gyfer cyllid ychwanegol i fodloni bwysau newydd neu sydd eisoes yn bodoli ar y gwasanaeth, a chynigir bod y cynigion a restrir yn adran 7 yn cael eu cynnwys yn y cynnig cychwynnol ar gyfer y gyllideb ar gyfer 2026/27.

Rhoddodd y Swyddog Adran 151 drosolwg o'r sefyllfa gyllidebol a ragwelir ar gyfer 2027/28, gan nodi bod y model ariannol presennol yn awgrymu y bydd y gyllideb refeniw net ar gyfer 2027/28 yn cynyddu oddeutu £6.2m (3%) tra bo'r CAC ond yn cynyddu 0.6% (£0.9), yn seiliedig ar ffigyrau o Ganolfan Llywodraethiant Cymru. Heb ddefnyddio arian wrth gefn, byddai'n rhaid cynyddu'r Dreth Gyngor o 8.7% er mwyn pontio'r bwlch. Ychwanegodd y Swyddog Adran 151, er bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn ddigon cryf i allu defnyddio arian wrth gefn i gydbwyso cyllideb 2026/27, mae wedi cynghori'r Pwyllgor Gwaith na ellir defnyddio'r arian wrth gefn yn unig i leihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor oherwydd i wneud hynny byddai angen defnyddio swm sylweddol, ac nid yw hynny'n bosibl o ystyried y rhagolygon ar gyfer 2027/28.

Gwnaeth y Cynghorydd Geraint Bebb, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg, gyfeirio at gasgliadau'r Panel yn ei gyfarfod ar 8 Ionawr 2026, lle gafodd y cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb refeniw drafft 2026/27 eu hystyried. Ar ôl adolygu'r dogfennau a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, a derbyn ymatebion i'r materion a godwyd, penderfynodd y Panel gefnogi ac argymell y cynigion fel y'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, gydag eithriad y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor gyda'r panel yn argymell na ddylai fod mwy na 4.9% yn cynnwys Ardoll y Gwasanaeth Tân.

- Wrth graffu ar y cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb refeniw drafft ar gyfer 2026/27, gwnaeth aelodau drafod y cynnydd arfaethedig o 5.1% yn y Dreth Gyngor. Mynegwyd pryderon am ei fforddiadwyedd i breswylwyr o ystyried y costau byw parhaus. Roedd un aelod yn teimlo na ddylai fynd y tu hwnt i chwyddiant gyda targed o oddeutu 3% yn cael ei osod ar ddechrau'r flwyddyn ac i weithio at hynny. Gofynnwyd a ellid cyfaddawdu rhwng cynnig y Pwyllgor Gwaith o 5.1% a'r argymhelliad o 4.9% y Panel Sgriwtini Adnoddau.
- Gofynnwyd gwestiynau am y premiwm ar ail dai a thai gwag, yn cynnwys swm y refeniw a gynhyrchwyd, sut mae'n cael ei ddefnyddio ac a yw'n hyfyw parhau i ddyrannu £1m o'r incwm ychwanegol i gefnogi pobl ifanc lleol i brynu eu cartrefi eu hunain ar yr Ynys. Gofynnod aelod a fyddai'n well defnyddio'r cyllid i leihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer yr holl drigolion.
- Cafodd yr aelodau drafodaeth am bwysigrwydd y grantiau refeniw a restrwyd yn Nhabl 2 yr adroddiad i gyllideb y Cyngor, a sut mae'r grantiau hyn yn cael eu dyrannu.
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oedd y £423k ychwanegol a ddarparwyd yn ddigonol er mwyn adlewyrchu'r nifer cynyddol o ddisgyblion sy'n cael eu hasesu fel bod ag anghenion dysgu ychwanegol. Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynghylch y fformiwla a ddefnyddir i ddosbarthu cyllid ADY i ysgolion cynradd.
- Ystyriodd yr aelodau effaith y cynigion cyllidebol ar wasanaethau anstatudol y Cyngor.
- Nodwyd y rhagwelir y bydd balansau cyffredinol heb eu dyrannu'r Cyngor yn sefyll ar £17.2m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gan dybio y bydd y tanwariant o £1.5m a ragwelir ar gyllideb 2025/26 yn cael ei wireddu. Nodwyd hefyd fod y Pwyllgor Gwaith wedi gosod

balans cyffredinol gofynnol o 5% o'r gyllideb refeniw net sy'n cyfateb i £10.4m yn seiliedig ar y gyllideb refeniw net sefydlog ar gyfer 2026/27. Gofynnodd yr aelodau am bwrpas a chanfyddiad y cyhoedd o'r £6.8m sy'n weddill.

- Gofynnodd yr aelodau am effaith chwyddiant ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn a sut y byddai unrhyw bwysau chwyddiant yn ystod y flwyddyn yn cael eu rheoli.
- Nodwyd y cynigion gwasanaeth ar gyfer risgiau a phwysau presennol a/neu sy'n dod i'r amlwg a restrir yn adran 7 o'r adroddiad. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y defnydd arfaethedig o'r cais am gyllid o £364,200 ar gyfer seiberddiogelwch.
- Nododd yr aelodau flaenoriaeth y Pwyllgor Gwaith i gadw cyfleusterau cyhoeddus ym Menllech a Bae Trearddur ar agor drwy gydol y flwyddyn a ariannwyd yn 2025/26 trwy danwariant mewn gwasanaethau eraill. Byddai parhau i wneud hyn yn gofyn am gyllid ychwanegol o £25,000. Codwyd cwestiynau ynghylch y rhesymeg dros y dull hwn ac a fyddai cyllid yn cael ei ddefnyddio'n well ar gyfer agor cyfleusterau mewn ardaloedd sydd heb unrhyw ddarpariaeth ar hyn o bryd, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf mewn ardaloedd twristaidd poblogaidd.
- Codwyd cwestiwn ynghylch a ellid adolygu lwfansau aelodau.
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y cynnydd o 55% yn y gyllideb Gorfforaethol a Democrataidd a ddangosir yn Atodiad 2 yr adroddiad.
- Nodwyd yr angen am amlosgfa i wasanaethu'r ynys. Cyflwynwyd ystadegau i gefnogi'r angen a hyfywedd cyfleuster o'r fath a gwnaed cais i ymchwilio ymhellach i hyn.
- Awgrymodd aelod y byddai adroddiad mwy manwl o gyfarfod cyllideb y Panel Sgriwtini Adnoddau o gymorth i'r pwyllgor gyda'i drafodaethau cyllideb ei hun.

Aeth yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i'r afael â'r materion a godwyd fel a ganlyn –

- Bod dyletswyddau statudol y Swyddog Adran 151 yn cynnwys sicrhau bod y gyllideb yn adlewyrchu costau darparu gwasanaethau a ragwelir yn y flwyddyn i ddod. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2025 yn rhagweld cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor yn ôl yr angen i gydbwyso'r gyllideb dros y tair blynedd nesaf. Mae'n fwyfwy anodd gosod y gyllideb oherwydd bod gwybodaeth wedi'i diwygio'n sylweddol, neu wybodaeth hwyr yn dod gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd nad yw holl gostau'r Cyngor yn dilyn chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), a bod newidiadau mewn cyflog staff a'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn gallu arwain at costau sylweddol uwch. Mae'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gael i gefnogi'r rheiny sydd angen cymorth i dalu eu Treth Gyngor.

  Pwysleisiwyd bod cynigion cychwynnol. Bydd unrhyw argymhellion gan y pwyllgor hwn yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith ar 27 Ionawr, ac ar ôl eu cymeradwyo, bydd cynigion cyllidebol drafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, cyn dod yn ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 18 Chwefror. Bydd cynigion terfynol yn cael eu gwneud gan y Pwyllgor Gwaith ar 24 Chwefror i'w cymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 5 Mawrth 2026.

- Er nad oes gofynion statudol i ddefnyddio'r premiwm tai gwag ac ail dau at ddibenion tai lleol, mae Llywodraeth Cymru'n annog hynny'n fawr. Rhagwelir incwm o £4.3m, o'r premiwm ar gyfer 2025/2026, gydag £1m yn cael ei glustnodi i gefnogi prynwyr tai tro cyntaf. Pan gafodd ei gyflwyno, gwnaeth cyfran o'r premiwm ariannu staff Treth Gyngor a Thai ychwanegol (£200k), ac yn 2022/23 gwnaeth gefnogi swydd yn y maes Datblygu Economaidd. Mae'r £3m sy'n weddill yn mynd i'r Gronfa Gyffredinol er mwyn cefnogi gwasanaethau'r Cyngor, yn cynnwys gwasanaeth lefel uwch ar gyfer yr elfennau hynny sy'n cael eu heffeithio gan nifer yr ail gartrefi ar yr ynys.

- Mae'r prif grantiau refeniw a restrir yn Nhabl 2 yr adroddiad yn cael eu dyrannu yn ôl fformiwla ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ac mae cyfraniad Ynys Môn oddeutu 2.5%. Mae mwyafrif y grantiau'n cael eu dyrannu'n flynyddol ac yn cael eu defnyddio i gefnogi gwasanaethau craidd. Os bydd y grantiau'n cael eu rhewi neu ei lleihau, byddai'r Cyngor yn ei chael hi'n anodd atal y gweithgareddau mae'n ei gynnig, gan greu pwysau ariannol ychwanegol i'r Cyngor wrth i gostau gynyddu.
- Mae cyllid yn cael ei ddyrannu'n flynyddol i Ganolfan Addysg y Bont, yn seiliedig ar niferoedd ac anghenion disgyblion, sy'n cael eu hasesu. Mae cyllid ADY ar gyfer ysgolion cynradd yn cael ei ddarparu drwy'r gyllideb benodol i ysgolion. Mae'r fformiwla ar gyfer dyrannu cyllid yn ystyried anghenion bob plentyn sydd wedi'i asesu, a'r gost i fodloni'r gofynion hynny. Mae'r gyllideb ADY uwchradd yn cael ei gadw'n ganolog gan y Gwasanaeth Dysgu, ac ar hyn o bryd mae'n cydymffurfio gyda gofynion statudol.
- Nid yw'r £976k o arbedion sydd wedi eu hamlygu yn dilyn adolygiad ar yr holl gyllidebau'n cynrychioli toriadau i'r gwasanaeth. Nid yw'r gyllideb ddrafft yn cynnwys cynigion i leihau gwasanaethau fydd yn cael eu cynnal ar yr un lefelau â 2025/26, gyda chyllidebau'n cael eu haddasu i adlewyrchu angen.
- Mae balans y gronfa gyffredinol sy'n weddill o £6.8m ar gael i'r Cyngor ar gyfer gwariant annisgwyl (e.e. difrod ar ôl storm neu waith adnewyddu mawr), i dalu am unrhyw ddiffyg neu orwariant yn y gyllideb, i helpu i gydbwyso cyllideb 2027/28 os oes angen, a chefnogi gwariant cyfalaf os bydd y grant cyfalaf cyffredinol wedi aros yr un fath am flynyddoedd. Strategaeth y Cyngor hyd yma yw defnyddio'r arian wrth gefn yn rhesymol i osgoi gwneud toriadau sylweddol i wasanaethau neu gynyddu'r Dreth Gyngor yn sylweddol.
- Mae'r gyllideb yn cynnwys darpariaeth ar gyfer chwyddiant yn seiliedig ar lefelau wedi'u hasesu. Yn ogystal, mae arwain wrth gefn wedi ei glustnodi ar gael i liniaru effaith unrhyw gynnydd sydyn yn ystod y flwyddyn. Er y byddai hyn yn cael ei gynnwys yng nghyllideb 2027/28, byddai dal yn creu pwysau cynyddol o ran costau ar gyfer y Cyngor.
- Mae'r cynnig o £364k ar gyfer cyllid seiberddiogelwch yn amcangyfrifiad dechreuol a bydd yn cael ei adolygu eto yn erbyn yr angen sydd wedi ei adnabod.
- Bydd angen cyllid refeniw a chyfalaf er mwyn sefydlu cyfleustodau cyhoeddus newydd. Gofynnwyd eisoes i gynghorau tref a chymuned a hoffent dderbyn y gyfrifoldeb i gadw cyfleusterau ar agor, ac efallai yr hoffent ailystyried hyn neu chwilio am grantiau ar gyfer gwaith adnewyddu neu gyfleusterau newydd.
- Nid yw lwfansau aelodau'n cael eu gosod gan gynghorau lleol, yn hytrach, maent yn cael eu gosod gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ond mae eu swyddogaethau bellach wedi'u trosglwyddo i'r Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Mae'r Comisiwn yn adolygu lwfansau Aelodau ar hyn o bryd. Mae Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor yn ystyried ceisiadau ar gyfer taliadau cydnabyddiaeth blynyddol.
- Mae cyfradd cyfraniad y cyflogwr i Gynllun Pensiwn yr Awdurdod Lleol yn cael ei rannu yn gyfradd sylfaenol, sy'n ariannu budd-daliadau yn y dyfodol ar gyfer aelodau actif ac sy'n cael ei godi yng nghyllidebau gwasanaethau, a'r cyfradd eilradd sy'n addasu sut yr ariennir y costau sy'n gysylltiedig â budd-daliadau ar gyfer aelodau actif ac anactif a enillwyd hyd at y dyddiad gwerthuso, ac sy'n cael ei gynnwys yn y gyllideb Gorfforaethol a Democrataidd. Mewn perthynas ag Ynys Môn, mae'r gyfradd sylfaenol wedi disgyn, gan leihau cyfraniad y cyflogwr oddeutu £2.3m bob blwyddyn (cyn y dyfarniad cyflog) tra bo'r gyfradd uwchradd wedi codi, gan gynyddu costau oddeutu £1.1m sydd wedi arwain at y cynnydd yn llinell y gyllideb Gorfforaethol a Democrataidd.
- Mae'r Pwyllgor Gwaith yn agored i gynigion am fuddsoddiad, yn cynnwys amlosgfa, yn dibynnu ar hyfywedd. Fodd bynnag, amlinellodd y Swyddog Adran 151 y goblygiadau o fenthyca wrth sefydlu cyfleuster o'r fath, fyddai oddeutu £70k y flwyddyn o gostau refeniw

bob blwyddyn ar gyfer bob £1m a fenthycir dros gyfnod bywyd yr ased fyddai oddeutu 50 mlynedd yn ogystal â staff, cynnal a chadw, ynni a chostau. Pe byddai lefelau incwm yn disgyn, byddai'r costau'n parhau gan greu risg ariannol. Byddai'n rhaid adolygu cynnig o'r fath yn fanwl, a byddai'n rhaid cael grant cyfalaf sylweddol er mwyn gwneud y prosiect yn hyfyw, fel arall mae'r risg yn llawer rhy uchel.

- Mae aelodaeth y Panel Sgriwtini Adnoddau yn gytbwys yn wleidyddol, a gall aelodau'r Panel adrodd yn ôl i aelodau eu grŵp am drafodaethau'r panel. Mae Cadeirydd y Panel yn rhannu diweddariadau ar lafar gyda'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am gynnydd y Panel.

Yn dilyn trafodaethau, cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig i gyflwyno cynigion cyllideb drafft cychwynnol y Pwyllgor Gwaith, fel y'u cyflwynwyd gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer yn cael eu cefnogi a'r hargymell i'r Pwyllgor Gwaith. Cynigiwyd diwygiad i ailystyried codi'r Dreth Gyngor a'i ostwng i 3%, ond ni chafodd ei eilio.

**Ar ôl craffu'r cynigion cychwynnol ar gyfer y Gyllideb Refeniw drafft 2026/27, ac ystyried y materion a godwyd yn ystod y drafodaeth a'r ymatebion a ddarparwyd gan Swyddogion a'r Aelod Portffolio, penderfynwyd cefnogi ac argymell y cynigion cychwynnol ar gyfer y Gyllideb Refeniw drafft 2026/27 yn cynnwys yr isod, i'r Pwyllgor Gwaith at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus -**

- **Cyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2026/27 o £207.023m.**
- **Cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor o 4.8%, ynghyd â 0.3% ar gyfer Ardoll y Gwasanaeth Tân, sy'n gyfanswm o 5.1%, gan olygu fod y gost i eiddo Band D yn £1,792.98.**
- **I gadw'r premiwm ar gartrefi gwag ac ail gartrefi yn 100%.**
- **Bod £1.685m yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol y Cyngor a'r arian wrth gefn a glustnodwyd er mwyn cyd-bwyso cyllideb refeniw 2026/27.**

*(Pleidleisiodd y Cynghorydd R. Llewelyn Jones yn erbyn)*

## 5 ADRODDIAD AR GYNNYDD Y PANEL SGRIWTINI ADNODDAU

Cyflwynodd y Cynghorydd Geraint Bebb, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Adnoddau, adroddiad ar waith y Panel rhwng Gorffennaf 2025 ac Ionawr 2026. Yn ystod y cyfnod hwn, adolygodd y Panel sefyllfa'r gyllideb gyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer chwarter 4 2024/25 a chwarter 1 a 2 2025/26, gan roi sylw penodol i orwariant yn y Gwasanaethau Plant a Busnes y Cyngor. Gwahoddwyd Uwch Swyddogion i gyfarfod y panel ar 6 Tachwedd 2025 i roi rhagor o wybodaeth am beth oedd yn achosi'r gorwariant yn y meysydd hyn. Cafodd y Panel drosolwg hefyd o'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r gwasanaethau a'r mesurau lliniaru sy'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r gorwariant.

**Penderfynwyd nodi'r diweddariad ar gynnydd y Panel Sgriwtini Adnoddau.**

## 6 CYNLLUN TUAG AT SERO NET 2026-2031

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Newid Hinsawdd i'w ystyried gan y pwyllgor, oedd yn ymgorffori'r Cynllun Strategol Tuag at Sero Net ar gyfer y cyfnod o 2026 i 2031.

Cyflwynodd y Cynghorydd Ieuan Williams, Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd, yr adroddiad gan nodi bod y Cynllun yn adeiladu ar y cynnydd a'r gwersi a ddysgwyd o'r Cynllun Strategol Tuag at Sero Net 2022-2025 blaenorol fel yr amlinellwyd yn yr Adroddiad Terfynol. Mae'r cynllun newydd yn nodi sut fydd y Cyngor yn parhau â'i daith tuag at ddod yn sefydliad sero net drwy leihau allyriadau carbon, amsugno mwy o garbon a chryfhau gwydnwch y sefydliad tuag at hinsawdd sy'n newid. Mae'r cynllun yn nodi chwe

maes blaenoriaeth allweddol sy'n cynnwys allyriadau asedau a thai, allyriadau trafnidiaeth y Cyngor, allyriadau'r gadwyn gyflenwi, defnydd tir, adferiad natur a bioamrywiaeth, datblygu sefydliadol, a phrosiectau strategol a gwydnwch hinsawdd. Bydd cynllun gweithredu blynyddol yn cael ei ddatblygu a'i adolygu bob chwarter gan y Grŵp Llywio Sero Net fydd yn adrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth yn ôl yr angen. Bydd adroddiad cynnydd blynyddol hefyd yn cael ei baratoi a bydd camau gweithredu allweddol dan amcan strategol newid hinsawdd Cynllun y Cyngor yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Rhaglen Gwella a Moderneiddio.

Tynnodd y Cynghorydd Ieuan Williams sylw at y ffaith bod y Cynllun Strategol yn cydnabod nad yw targed y Cyngor i ddod yn sefydliad net sero erbyn 2030 yn gyraeddadwy gyda'r adnoddau presennol, yr amser sydd ar gael na maint y gwaith datgarboneiddio sydd ei angen. Felly mae'r Cynllun Strategol yn cynnig dilyn targed carbon sero net Cymru erbyn 2050 a osodwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Wrth graffu ar y Cynllun Strategol Tuag at Sero Net 2026 i 2031, cododd y pwyllgor y materion canlynol –

- Gwerth gosod pympiau gwres ffynhonnell aer mewn adeiladau hŷn. Gofynnodd yr aelodau a oes gan y Cyngor dystiolaeth sy'n dangos gwerth am arian.
- Y trefniadau ar gyfer chael gwared ar, neu ailgylchu paneli solar ar ddiwedd eu hoes weithredol. Gofynnodd yr aelodau a ddylai'r Cyngor ddatblygu strategaeth waredu ffurfiol yn hytrach na dibynnu ar ddull ad hoc.
- Y cynnydd yn allyriadau trafnidiaeth a chadwyn gyflenwi'r Cyngor fel y dangosir yn Atodiad 2 i'r cynllun strategol. Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch y rhesymau dros y cynnydd a sut y dylid dehongli'r data o ystyried bod y fethodoleg adrodd wedi newid.
- Y sylwa roddir i addysg yn y cynllun strategol, gyda'r Aelodau'n awgrymu y dylai addysg fod yn rhan bwysicach o'r cynllun.
- Uwchraddio stoc tai'r Cyngor. Er nodi bod 93 o dai cyngor wedi cael eu huwchraddio, gofynnodd yr Aelodau sut mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r dasg sylweddol o uwchraddio gweddill ei stoc tai a sut y gallai effeithio ar denantiaid.
- Trefniadau ailgylchu batris. Nododd yr aelodau fod casglu batris wedi'i dynnu o'r gwasanaeth ailgylchu a mannau ailgylchu batris bach mewn ardaloedd eraill ond rhaid oedd mynegi pryderon ynghylch y diffyg darpariaeth ar gyfer ailgylchu batris mawr a'r risg bosibl o dipio anghyfreithlon.
- Yr angen am fuddsoddiad pellach mewn systemau casglu data allyriadau fel y'i nodwyd yn Adroddiad Pwynt Terfynol Cynllun Strategol Tuag at Sero Net 2022-2025. Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch y goblygiadau cost, y math o ddata i'w gasglu a sut y byddai'n cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o adrodd manylion cywir a gwneud penderfyniadau gwybodus.
- Model gweithredu'r Cyngor ar gyfer gosod gorsafoedd gwefru cerbydau trydan cyhoeddus.

Aeth yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd a'r Swyddogion i'r afael â'r materion a godwyd fel a ganlyn –

- Mae pympiau gwres ffynhonnell aer yn ddyfeisiau diweddar, felly nid oes digon o ddata ar hyn o bryd i asesu gwerth am arian. Dylai asesiad mwy dibynadwy fod yn bosibl ymhen blwyddyn.
- Bydd y strategaeth honno ar gyfer cael gwared ar baneli solar diwedd eu hoes yn cael ei harchwilio. Mae hon yn her fyd-eang wrth fabwysiadu technolegau ynni gwyrdd. Nododd

Pennaeth y Gwasanaeth Tai fod gan rai eiddo'r Cyngor baneli solar sydd bron yn ugain mlwydd oed. Er bod ychydig o baneli unigol wedi cael eu disodli oherwydd difrod gan y gwynt, nid yw'r data sydd ar gael yn dangos unrhyw ddirywiad mewn perfformiad na chynhyrchu trydan. Mae'r pwynt ugain mlynedd yn fwy o adlewyrchiad o dybiaethau enillion ar fuddsoddiad nag oes weithredol y paneli.

- Mae'r gronfa ddata a ddefnyddir i gyfrifo allyriadau trafnidiaeth wedi'i datblygu a'i mireinio dros y pum mlynedd diwethaf, yn ogystal â phrosesau casglu data. O ganlyniad, y ffigurau diweddaraf yw'r rhai mwyaf cywir. Cyfrifir allyriadau'r Gadwyn Gyflenwi yn seiliedig ar faint mae'r Cyngor yn ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol ac ar y math o nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu caffael. Felly mae gwariant cynyddol yn 2024/25 wedi arwain at allyriadau uwch.
- Mae addysg yn cael sylw dan flaenoriaeth Datblygu Sefydliadol y strategaeth sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ymwybyddiaeth, sgiliau a gwybodaeth am newid hinsawdd ar draws y Cyngor trwy fuddsoddi mewn hyfforddiant, arweinyddiaeth a'r gallu i newid ymddygiad. Cytunodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd i adolygu'r geiriad i wneud yr elfen addysgol yn gliriach.
- Mae safonau a disgwyliadau ar gyfer datgarboneiddio stoc tai'r Cyngor ar wahân i Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023 y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'w bodloni. Bydd rhaid cael cyllideb benodol i ddatgarboneiddio yn llawn, gan gynnwys adolygu lefelau rhent gosodedig Llywodraeth Cymru a chapasiti benthyca'r Cyfrif Refeniw Tai. Yn ogystal, mae gallu ledled y sector i gyflawni'r newidiadau yn hanfodol. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai fod y rhan fwyaf o waith ôl-osod yn allanol, sy'n golygu y dylai tenantiaid allu aros yn eu cartrefi tra bod gwelliannau'n cael eu gwneud.
- Bydd y mater o ailgylchu batris yn cael ei drafod gyda'r Gwasanaeth Rheoli Gwastraff i benderfynu a ddylid ailystyried y polisi neu a ddylai, yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus presennol, ddatgan yn glir nad yw'r Cyngor yn ailgylchu batris ond y gall gyfeirio trigolion at sefydliadau sy'n gwneud hynny.
- Mae nifer o ffynonellau data yn bwydo'r dangosfwrdd sy'n parhau i ddatblygu, gan gynnwys gwybodaeth am ddefnydd ynni, gwres a thrydan, cadwyni cyflenwi a thrafnidiaeth. Wrth i'r gwaith o gasglu data wella, bydd yn nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer datgarboneiddio yn well ac yn cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Ystyrir gwelliant parhaus mewn prosesau casglu data yn daith ac yn amcan allweddol.
- Gosodwyd rhai gorsafoedd gwefru cerbydau trydan cyhoeddus sawl blwyddyn yn ôl, gyda'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt ac yn cadw unrhyw elw. Mae'r Cyngor bellach yn tendro i gwmnïau allanol fuddsoddi mewn gorsafoedd gwefru newydd gyda'r nod nid yn unig o gynhyrchu refeniw ond hefyd o annog mwy o ddefnydd o gerbydau trydan. Y disgwyl yw y bydd mwy o gwmnïau preifat yn dod i mewn i'r farchnad wrth i'r defnydd o gerbydau trydan dyfu.

**Yn dilyn trafodaeth, ac ar ôl ystyried y materion a godwyd a'r ymatebion a ddarparwyd, penderfynwyd argymell fod y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ac yn cymeradwyo'r Cynllun Strategol Tuag at Sero Net 2026-2031.**

**6 BLAEN RAGLEN WAITH 2025/2026**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth oedd yn cynnwys y blaen raglen waith ar gyfer 2025/26 i'w ystyried gan y pwyllgor.

Amlygodd y Pennaeth Democratiaeth yr eitem ychwanegol – Cynllun Rheoli Strategol ar gyfer Tyddynnod – ar gyfer cyfarfod nesaf y pwyllgor ar 18 Chwefror 2026.

**Penderfynwyd -**

- **Cytuno ar y fersiwn gyfredol o'r Blaen Raglen Waith ar gyfer 2025/26 gyda'r eitem ychwanegol ar gyfer y cyfarfod ar 18 Chwefror 2026.**
- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r Blaen Raglen Waith.**

**Cynghorydd Jeff Evans**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 18 Chwefror 2026 |
| **Pwnc:** | Sefydlu Cyllideb 2026/27 (cyllideb refeniw drafft terfynol) |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Jeff Evans |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Cynghorydd Robin Williams | Aelod portffolio ar gyfer Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Marc Jones | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog 151 |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

| |
|---|
| Mae'n gyfrifoldeb ar y Pwyllgor, yn unol â'i Gylch Gorchwyl, i gynorthwyo'r Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith i ddadansoddi ei gyllideb ac i roi sicrwydd ynglŷn â pherfformiad a darpariaeth gwasanaethau yn unol a'r gyllideb. |

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☐Er sicrwydd
☒Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

| |
|---|
| Argymhelliad: Cytuno ar ymateb ffurfiol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar gyllideb refeniw ddrafft terfynol y Cyngor ar gyfer 2026/27 (gan ddefnyddio'r themau sgriwtini allweddol yn adran 5 isod) |

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

| |
|---|
| Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor a'r blaenoriaethau strategol. Bydd ystyriaeth y Pwyllgor o'r cynigion cyllidebol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys sut mae'r cynigion yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ar Gynllun y Cyngor yn ogystal ag unrhyw risgiau penodol. |

## 5. Themâu sgriwtini allweddol



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

Cynigir y cwestiynau allweddol canlynol fel sail ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor o gynigion cyllidebol 2026/27:

1. Beth ydy barn terfynol y Pwyllgor ynglŷn a'r graddau mae'r cynigion yn ymateb yn ddigonol i'r pwysau a'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau?
2. I ba raddau mae'r cynigion wedi ystyried sylwadau fforymau'r Cyngor yn dilyn ymgynghori?
3. I ba raddau mae'r Pwyllgor yn cefnogi codiad o 5.1% yn y Dreth Gyngor er mwyn gwireddu cynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2026/27?
4. Pa gamau y dylai'r Pwyllgor Gwaith eu cymryd i lenwi unrhyw fwlch ariannol a ragwelir yn 2027/28 a 2028/29 a thrwy hynny lleihau'r risg ariannol i'r Cyngor?

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**CYD-DESTUN**

1.1 Mae'r gwaith o graffu ar y broses gosod cyllideb wedi datblygu ac aeddfedu dros y blynyddoedd diwethaf, gan osod y seiliau ar gyfer proses well a mwy systematig sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac arfer dda. Mewn gwirionedd, mae'r broses yn caniatáu ar gyfer dull mwy systematig o graffu ariannol, fel bloc adeiladu hanfodol ar gyfer rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn.

1.2 Bydd Aelodau'n ymwybodol bod cyllid yn hanfodol i'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu a bod goblygiadau pellgyrhaeddol i'r materion ariannol sy'n ein hwynebu fel awdurdod lleol – o ran y gwasanaethau sy'n cael eu derbyn gan ein dinasyddion a hefyd lefel y Dreth Gyngor neu'r ffioedd a'r taliadau a godir. Yn anochel, bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ofyn cwestiynau heriol ynghylch pa wasanaethau i'w cynnig i'r dyfodol a pha wasanaethau i fuddsoddi ynghyd a hefyd i ba raddau y mae'r dulliau cyfredol o ddarparu gwasanaethau yn parhau i fod yn briodol. Ystyriaeth arall hefyd yw'r ffordd orau o reoli disgwyliadau pobl leol wrth wneud y newidiadau angenrheidiol. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae angen rhoi sicrwydd i'r Aelodau felly bod y Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau, yn enwedig adnoddau cyllidol.

1.3 Wrth ystyried eu hymateb i'r cynigion cyllidebol cychwynnol, bydd angen i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried y cynigion o ran sefyllfa ariannol tymor hwy y Cyngor (ein Cynllun Ariannol Tymor Canol) ac amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor fel y nodir nhw yng Nghynllun y Cyngor.

**2. GOSOD CYLLIDEB Y CYNGOR AR GYFER 2026/27**

2.1 Ynghlwm mae copi o adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adain 151 ar y cynigion terfynol ar gyfer cyllideb 2026/27 a fydd gerbron cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Chwefror, 2026.

Bydd yr argymhellion terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 5 Mawrth, 2026

**3. SGRIWTINI ARIANNOL – GOSOD CYLLIDEB 2026/27**

3.1 Mae craffu ariannol yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'n ymwneud â sicrhau craffu effeithiol o ran cynllunio, cyflawni a dilyn i fyny'r penderfyniadau allweddol hynny sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. Dylai sgriwtini felly:

- Ddarparu her effeithiol
- Dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**4. PANEL SGRIWTINI ADNODDAU**

4.1 Mae Panel Sgriwtini Adnoddau wedi'i sefydlu i sicrhau'r canlyniadau allweddol canlynol:

- Datblygu model o weithio ar faterion cyllid sy'n canolbwyntio ar ffurfio grwpiau llai fel y gall Aelodau chwarae mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd yn y pwnc ac er mwyn annog presenoldeb da a gwaith tîm.
- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau sydd â'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau ariannol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

4.2 Rhoddodd y Panel ystyriaeth i fanylion diweddaraf y cynigion cyllidebol cychwynnol yn ei gyfarfod diwethaf (12 Chwefror, 2026). Bydd crynodeb o drafodaethau'r Panel yn cael ei gyflwyno ar lafar yn y cyfarfod gan y Cyng Geraint Bebb, Cadeirydd y Panel.

**5. Y BROSES AR GYFER YMGYNGHORI**

5.1 Roedd ymgynghori ar y cynigion cychwynnol gyda Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned, Fforwm Pobl Hyn a Fforwm Cyllid Ysgolion Ynys Mon.

**6.MATERION SGRIWTINI ALLWEDDOL**

6.1 Mae proses gosod cyllideb 2026/27 yn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ystyried a herio goblygiadau'r gyllideb ddrafft. Derbyniwyd mewnbwn hefyd trwy'r Panel Sgriwtini Adnoddau sydd wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r cynigion cyllidebol drafft terfynol. Yn y rhan hon o'r broses, gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ar ymateb ffurfiol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar gynigion drafft terfynol y Cyngor ar gyfer cyllideb refeniw 2026/27 (gan ddefnyddio'r themau sgriwtini allweddol ym mharagraff 5 uchod).

6.2 Yng ngoleuni'r broses gosod cyllideb ar gyfer 2026/27 hyd yma, cynigir y dylai'r Pwyllgor:

i. Ystyried y cynigion cyllidebol a chynnig sylwadau gall y Pwyllgor Gwaith eu hystyried cyn cytuno ar ei gynigion ar 24 Chwefror, 2026.

ii. Archwilio effeithiau tebygol y cynigion ar ddinasyddion.

iii. Dod i farn am lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2026/27.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2026/27

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2026/27

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2026/27.

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2026/27.

## 8. Goblygiadau ariannol

Mae'r adroddiad hwn yn trafod y broses ar gyfer gosod cyllideb y Cyngor ar gyfer 2026/27, sy'n cynnwys ystyriaeth o'r cynigion drafft cychwynnol ar gyfer y cyllidebau refeniw.

## 9. Atodiadau

Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) ar y cyllidebau refeniw arfaethedig ar gyfer 2026/27 (isod).

## 10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth Adnoddau / Swyddog 151

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **24 CHWEFROR 2026** |
| **PWNC:** | **CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2026/27** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **CYNG ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.llyw.cymru |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

## A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

### 1. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2026/27

#### 1.1 Pwrpas

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gytuno ar nifer o faterion allweddol mewn perthynas â chyllideb 2026/27. Yn dilyn hynny, gellir cyflwyno'r argymhellion terfynol i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2026. Dyma'r materion y mae angen cytuno arnynt:-

- Cyllideb Refeniw'r Cyngor a'r Dreth Gyngor sy'n deillio o hynny ar gyfer 2026/27;
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a ddiweddarwyd;
- Defnyddio unrhyw gyllid unwaith ac am byth i gefnogi'r gyllideb.

#### 1.2 Crynodeb

Dengys y papur hwn gynigion manwl y gyllideb refeniw ar gyfer 2026/27 y mae angen eu hystyried a chytuno'n derfynol arnynt, a'r effaith ddilynol ar gyllideb refeniw Cyngor Sir Ynys Môn. Materion i'r Cyngor gytuno arnynt yw'r rhain, a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion terfynol yn eu cylch i'r Cyngor.

Mae'r papur hefyd yn diweddaru'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac mae'n gosod cyd-destun ar gyfer gwaith ar gyllidebau'r Cyngor mewn blynyddoedd i ddod. Serch hynny, dylid nodi y caiff adroddiad pellach ar Gynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn, ac efallai y bydd gwybodaeth ychwanegol am yr economi a'r setliad arfaethedig i lywodraeth leol yn y dyfodol yn fwy eglur bryd hynny.

### 2. ARGYMHELLION AR GYFER CYLLIDEB REFENIW 2026/27 A'R DRETH GYNGOR

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith :-

- Argymell bod y Cyngor llawn yn derbyn y gyllideb refeniw ddrafft arfaethedig, a chynnydd o 5.1% yn y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D, gan olygu fod y gost yn 2026/27 yn £1,792.98, gan nodi y cyflwynir cynnig ffurfiol, fydd yn cynnwys praeseptau Heddlu Gogledd Cymru a Chynghorau Tref / Cymuned, i'r Cyngor ar 5 Mawrth 2026;
- Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor gadw o leiaf £10.4m o falansau cyffredinol;
- Nodi sylwadau'r Swyddog Adran 151 ynglŷn â chadernid yr amcangyfrifon, fel y nodir yn Adran 5 o Atodiad 1;
- Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor;
- Cytuno y gellir defnyddio cyllid o'r gyllideb wrth gefn gyffredinol i gwrdd ag unrhyw bwysau annisgwyl ar gyllidebau seiliedig ar alw yn ystod y flwyddyn ariannol;

- Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os bydd y gyllideb wrth gefn gyffredinol yn cael ei hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn;
- Dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 yr hawl i ryddhau cyllid o hyd at £50k o'r gyllideb wrth gefn gyffredinol ar gyfer unrhyw eitem unigol. Ni ddylid caniatáu unrhyw eitem gwerth dros £50k oni bai bod y Pwyllgor Gwaith wedi rhoi ei ganiatâd ymlaen llaw;
- Cadarnhau bod lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi a thai gwag yn aros ar 100%.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd nifer o opsiynau yn dilyn cyhoeddi'r gyllideb arfaethedig cychwynnol. Mae'r gyllideb arfaethedig derfynol yn ystyried y setliad terfynol i lywodraeth leol, safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori a barn y Pwyllgor Sgriwtini.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi ei gyllideb arfaethedig derfynol cyn i'r Cyngor ei ystyried.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi. Bydd y Cyngor llawn yn penderfynu'n derfynol ar y gyllideb refeniw ar gyfer 2026/27 yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2026.

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol

**DD – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys? | Wrth lunio'r gyllideb arfaethedig, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried ei ddyletswyddau statudol a'r amcanion a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol. |
| 2 | A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Mae manylion unrhyw gynigion i wneud arbedion yn cael eu nodi yn yr adroddiad. |
| 3 | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy. | Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda chynghorau eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i bwyso ar Lywodraeth Cymru am y setliad ariannol gorau posibl. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Cynhaliwyd trafodaethau ar y gyllideb arfaethedig yn y fforymau a ganlyn hefyd:-<br><br>Fforwm Cyllid Ysgolion;<br>Fforwm Pobl Hŷn;<br>Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Bydd unrhyw gynigion a gynhwysir yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2026/27 yn ystyried yr effaith ar unrhyw grwpiau a warchodir. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Bydd y gyllideb yn golygu bod trethdalwyr Ynys Môn yn talu mwy o Dreth Gyngor. Mae'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gymwys am gymorth trwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) a dylai hynny olygu na fydd unrhyw effaith ariannol ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, neu bydd yr effaith ariannol yn fychan iawn. |

| | | |
|---|---|---|
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Ni nodwyd unrhyw effaith. |
| **E -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Mae'r Prif Weithredwr a'r TA wedi bod yn rhan o'r broses gosod y gyllideb o'r cychwyn cyntaf, ac maent yn cytuno â'r adroddiad ac yn cefnogi'r gyllideb arfaethedig derfynol. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA ac, yn sgil hynny, mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | - |
| **5** | **Eiddo** | - |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | - |
| **7** | **Sgriwtini** | Cafodd y gyllideb arfaethedig derfynol ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini yn ei gyfarfod 18 Chwefror 2026. Cyflwynir adroddiad llafar ar ganlyniadau'r cyfarfod hwn i'r Pwyllgor Gwaith. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Mae cyllideb y Cyngor yn berthnasol i bob Aelod ac ymgynghorwyd â nhw trwy gydol y broses gosod y gyllideb. |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Gweler Adran 2 yn yr adroddiad. |

**F - Atodiadau**

- Atodiad 1 – Adroddiad manwl ar y Gyllideb Arfaethedig
- Atodiad 2 – Crynodeb o'r Gyllideb Refeniw Arfaethedig 2026/27 fesul Gwasanaeth

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Arfaethedig Cychwynnol 2026/27 – Pwyllgor Gwaith – 27 Ionawr 2026
- Cyllideb Arfaethedig Cychwynnol 2026/27 – Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – 21 Ionawr 2026
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2026/27 – 2028/29 – Pwyllgor Gwaith – 23 Medi 2025

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

**1.1.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gyllideb refeniw arfaethedig 2026/27. Mae'n un o gyfres o adroddiadau sy'n cyflwyno darlun cyffredinol o sefyllfa ariannol y Cyngor ac mae'n sicrhau fod cyllid y Cyngor yn cael ei ddyrannu i gwrdd â'i flaenoriaethau. Mae'r adroddiadau eraill yn y gyfres yn ymwneud â Rhaglen Gyfalaf y Cyngor a'r Strategaeth Gyfalaf, Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor a Ffioedd a Thaliadau.

**1.2.** Mae'r gyllideb refeniw a'r angen parhaus i ganfod arbedion refeniw yn cael eu llywio gan y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC), a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2024, a gellir ei grynhoi fel a ganlyn:-

**Tabl 1**
**Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2026/27 - 2028/29**

| | 2026/27 £'m | 2027/28 £'m | 2028/29 £'m |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net a ddygwyd ymlaen | 195.443 | 208.076 | 205.961 |
| Pwysau ar y Gyllideb a Chwyddiant | 12.634 | 5.138 | 4.263 |
| Arbedion a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol | 0.000 | (7.253) | (1.295) |
| **Cyllideb Ddisymyd Ddiwygiedig** | **208.076** | **205.961** | **208.929** |
| Cyllid Allanol Cyfun (CAC)(gan dybio cynnydd o 3.7% yn 2026/27 a 0.6% yn 2027/28 a 2028/29) | (140.867) | (141.712) | (142.576) |
| Y Dreth Gyngor (gan dybio cynnydd o 5% yn 2026/27 a 2027/28 a 3% yn 2028/29) | (59.956) | (62.954) | (64.843) |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(200.823)** | **(204.666)** | **(207.419)** |
| | | | |
| **Gofynion Cyllido Ychwanegol / Arbedion sydd angen eu gwneud** | **7.253** | **1.295** | **1.510** |
| **Prif Ragdybiaethau** | | | |
| Dyfarniadau Cyflog - Staff nad ydynt yn Athrawon | 3.6% | 2.0% | 2.0% |
| Dyfarniadau Cyflog - Athrawon (o fis Medi 2026) | 4.8% | 2.5% | 2.0% |
| Chwyddiant Cyffredinol | 3.6% | 2.0% | 2.0% |

**1.3.** Roedd y ffigyrau a nodwyd yn y CATC yn seiliedig ar ragdybiaethau a gwybodaeth oedd ar gael pan luniwyd y CATC. Yn hytrach na darparu asesiad manwl gywir o'r gofyn cyllidebol, pwrpas y CATC yw darparu asesiad lefel uchel o'r bwlch posib yn y gyllideb.

**1.4.** Cwblhawyd nifer o elfennau ar ôl cyhoeddi'r CATC ac mae hynny wedi caniatáu mwy o sicrwydd wrth gyfrifo'r gyllideb ddisymyd. Nid yw chwyddiant yn cael gymaint o effaith gan ei fod wedi gostwng, ac mae'n haws amcangyfrif lefel chwyddiant ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**1.5.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) ei setliad dros dro ym mis Tachwedd 2025, a derbyniodd Ynys Môn gynnydd o 2.3% yn y CAC (ar ôl caniatáu am grantiau a drosglwyddwyd i mewn i'r setliad). Ychwanegwyd swm pellach o £112.8m at y cyllid ar gyfer llywodraeth leol ym mis Rhagfyr 2025, ac roedd cynnydd o 4.16% yn y CAC wedi'i addasu ar gyfer Ynys Môn. Mae hyn yn uwch na'r amcangyfrif oedd wedi'i gynnwys yn y CATC.

**1.6.** Er hynny, er gwaetha'r newidiadau hyn a'r ffaith fod y bwlch cyllido'n is na'r rhagolwg yn y CATC, mae'r sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn heriol yn 2026/27 a'r ddwy flynedd ddilynol, ac mae disgwyl i gostau gynyddu oherwydd chwyddiant a chynnydd yn y galw, ond mae'n annhebygol iawn y bydd y cyllid gan LIC yn ddigon i gwrdd â chynnydd yn yr holl gostau.

**2.1.** **Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG GYCHWYNNOL**Yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2026, trafododd y Pwyllgor Gwaith ei gyllideb arfaethedig gwreiddiol a'r setliad terfynol a gyhoeddwyd gan LlC ar 20 Ionawr 2026.

**2.2.** Roedd y setliad terfynol yn uwch na'r rhagolygon yn y CATC, gyda'r Cyngor yn derbyn £144.584m, sef cynnydd o £8.698m (6.40%) mewn termau ariannol. Er hynny, ar ôl caniatáu ar gyfer grantiau sy'n trosglwyddo i'r setliad ac effaith newid yn sylfaen Dreth y Cyngor, y cynnydd wedi'i addasu oedd £5.777m (4.16%).

**2.3.** Argymhellodd y Pwyllgor Gwaith gyllideb o £207.029m ar gyfer 2026/27 ac, ar sail CAC Allanol Cyfun terfynol o £144.584m, byddai angen cynnydd o 5.1% yn y Dreth Gyngor, yn ogystal â defnyddio £1.685m o falansau cyffredinol y Cyngor, i gydbwyso'r gyllideb.

**2.4.** Wrth osod y gyllideb arfaethedig, roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod bod angen gwarchod gwasanaethau rheng flaen a chynyddu cyllidebau er mwyn darparu ar gyfer cynnydd yn y galw am wasanaethau Oedolion a Phlant, yn ogystal â sicrhau fod ysgolion yn derbyn y cyllid sydd ei angen arnynt i gwrdd â chynnydd mewn costau oherwydd chwyddiant. Roedd y cynnig hefyd yn buddsoddi £1.226m mewn gwasanaethau llai sy'n profi anawsterau wrth gynnal y gofynion statudol, yn ogystal â mynd i'r afael ag unrhyw risgiau i'r Cyngor sy'n dod i'r amlwg.

**2.5.** Er nad yw'r Asesiad Gwario Safonol (AGS) wedi'i fwriadu fel mesur o lefel ddisgwyliedig cyllideb refeniw net y Cyngor, mae'n rhoi rhyw syniad p'un a yw lefel cyllideb y Cyngor yn rhesymol i'r Cyngor. Mae'r AGS ar gyfer 2026/27 yn £201.479m ac mae'r gyllideb arfaethedig, felly, yn 102.8% o'r AGS, sef yr un lefel â chyllideb 2025/26.

**3.1.** **PWYLLGOR SGRIWTINI**Oherwydd yr oedi cyn derbyn y setliad dros dro a'r setliad terfynol, bu'n rhaid cwtogi amserlen y gyllideb ar gyfer 2026/27 er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu gosod y Dreth Gyngor o fewn yr amserlen a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 1992 (Adran 30(6)). Bu i'r Panel Sgriwtini Cyllid hefyd archwilio cynigion buddsoddi gwasanaethau yn fanwl yn ei gyfarfod ar 8 Ionawr 2026, a chyflwynwyd sylwadau'r Panel i gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 21 Ionawr 2026. Yn y cyfarfod hwnnw, penderfynodd y Pwyllgor gefnogi cyllideb arfaethedig cychwynnol y Pwyllgor Gwaith.

**3.2.** Yn ei gyfarfod ar 18 Chwefror 2026, bu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried y gyllideb arfaethedig terfynol ymhellach, a chyflwynir adroddiad llafar ar drafodaethau'r Pwyllgor i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Gwaith.

**Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG TERFYNOL**

**4.1.** Nid oes unrhyw faterion wedi dod i'r amlwg ers cyhoeddi'r gyllideb arfaethedig cychwynnol sy'n golygu bod rhaid addasu'r gyllideb wariant net, ac mae cyfanswm yn parhau i fod yn £207.029m.

**4.2.** Roedd y setliad terfynol yn cynnwys swm cychwynnol o £5,962 yn uwch na lefel y setliad dros dro, yn ogystal â'r cyllid ychwanegol. Gan mai swm bychan yn unig yw hwn, mae'r un swm wedi'i ychwanegu at y gyllideb wrth gefn gyffredinol er mwyn sicrhau fod y gyllideb yn parhau i gydbwyso.

**4.3.** Bydd arian wrth gefn sylweddol yn cael ei ddefnyddio i gydbwyso cyllideb 2026/27, ac mae cyfanswm o £12.35m wedi cael ei ddefnyddio i gydbwyso'r gyllideb yn ystod y 3 blynedd ariannol diwethaf. Yn seiliedig ar y rhagolygon presennol, efallai y bydd yn bosib defnyddio arian wrth gefn eto yn 2027/28 i gyfrannu at y cyllid cyffredinol. Dim ond gohirio'r angen i ostwng cyllideb refeniw net y Cyngor mae defnyddio arian wrth gefn yn ei wneud, ac nid yw defnyddio arian wrth gefn yn ateb parhaol i'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

**5.1.** **CADERNID YR AMCANGYFRIFON**O dan Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar gadernid amcangyfrifon y gyllideb a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn ariannol arfaethedig.

**5.2.** Mae amcangyfrifon yn y gyllideb yn seiliedig ar ragdybiaethau ynglŷn â gwariant ac incwm yn y dyfodol ac mae'r rhagdybiaethau'n cynnwys elfen o risg. Gellir lliniaru effaith y risg hwn drwy lunio cynlluniau a chyllidebau wrth gefn a chreu cronfeydd wrth gefn ariannol.

**5.3.** Nid yw cadernid yr amcangyfrifon yn y gyllideb yn cyfeirio'n unig at p'un a ydynt wedi cael eu cyfrifo'n gywir. Mewn gwirionedd, mae nifer o gyllidebau yn seiliedig ar amcangyfrifon neu ragolygon, ac efallai bod elfen o risg ynghylch a fydd cynlluniau'n cael eu cyflawni neu

dargedau'n cael eu cyrraedd. Mae gwahanol risgiau allai effeithio ar y gyllideb yn cael eu hystyried yn eu tro isod:-

- **Risg Chwyddiant Tâl** – Mae risg chwyddiant yn isel pan fydd lefelau chwyddiant yn isel a'r newid cyffredinol yn y raddfa chwyddiant yn fychan, a dyna fu'r achos ers nifer o flynyddoedd. Nid oes cynnig tâl wedi cael ei wneud ar gyfer staff NJC ar gyfer 2026/27, ac nid yw LIC wedi dweud eto beth fydd y dyfarniad cyflog ar gyfer Athrawon o Fedi 2026, felly, mae cryn ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chwyddiant tâl a, chan fod y bil cyflogau yn fwy na £100m, gallai camgymeriad o 1% yn y rhagdybiaeth ar gyfer chwyddiant tâl arwain at ddiffyg o £1m yn 2026/27. Mae'r risg yn cael ei liniaru gan fod y Cyngor yn dal cronfa wrth gefn glustnodedig i gyllido unrhyw bwysau oherwydd chwyddiant. Byddai'r arian yn cael ei ryddhau i gyllido unrhyw anghenion ychwanegol yn y gyllideb gyflogau, a byddai'r gyllideb hirdymor yn cael ei chywiro yn 2027/28.

- **Risg Chwyddiant Prisiau –** Mae'r mesur chwyddiant cyffredinol (y Mynegai Prisiau Defnyddwyr - MPD) wedi gostwng yn ôl i lefelau mwy arferol o thua 3%, ac mae disgwyl iddo ostwng yn ystod 2026, i gyfradd targed Banc Lloegr, sef 2%. Er hynny, gallai perfformiad yr economi yn ystod y misoedd nesaf effeithio ar y rhagolygon p'un a welir cynnydd pellach mewn trethi neu dorri gwariant cyhoeddus, a ph'un a fydd prisiau ynni byd-eang yn codi. Gallai'r rhagolygon fod Banc Lloegr am dorri'r gyfradd sylfaenol hefyd arwain at gynnydd mewn chwyddiant.

  Mae'r MPD yn fesur cyffredinol o chwyddiant, a gallai meysydd gwariant penodol brofi chwyddiant uwch neu is na'r MPD. Beth bynnag fydd yn digwydd i chwyddiant, nid oes disgwyl iddo godi'n sylweddol, a ni ddylai amrywio mwy nag 1% o gymharu â'r ffigwr a ddefnyddiwyd wrth lunio'r gyllideb. Oherwydd hyn, dim ond bychan fydd yr effaith ariannol yn 2026/27 a gellir ei gyllido o Gronfa Wrth Gefn Chwyddiant y Cyngor.

- **Risg Cyfraddau Llog** – Mae cyfraddau llog yn effeithio ar gyllideb refeniw un flwyddyn unigol yn sgil y llog a enillir – h.y. mae cynnydd yn y gyfradd log yn fuddiol. Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yr Awdurdod yn nodi bod rhaid buddsoddi ar sail diogelwch a hylifedd y buddsoddiad yn y lle cyntaf, ac nid yw enillion ar fuddsoddiadau'n gymaint o flaenoriaeth. Nid yw'r gyllideb, felly, yn ddibynnol ar enillion uchel ar fuddsoddiadau. Mae cyfraddau llog wedi aros yn uchel, ac mae'r Cyngor wedi derbyn enillion o dros 4% ar fuddsoddiadau. Wrth osod y gyllideb, mae amcangyfrif o'r llog y mae'r Cyngor yn ei dderbyn wedi'i gynnwys yn y gyllideb, ond mae risg na fydd y gyllideb yn cael ei gwireddu os yw cyfraddau llog yn dechrau gostwng yn gyflym, neu os yw'r cyllid sydd ar gael i'w fuddsoddi yn is na'r disgwyl. Mae'r mwyafrif o'r llog sy'n cael ei dalu gan y Cyngor yn gysylltiedig â benthyciadau cyfradd sefydlog ac ni fyddant yn newid os bydd cyfraddau llog yn codi. Ystyrir, felly, bod y risg cyfraddau llog yn isel ac, fel yn y gorffennol, mae hwn yn risg sy'n digolledu am risg chwyddiant, oherwydd os yw un yn cynyddu, mae'r llall yn debygol o gynyddu hefyd.

- **Risg Grantiau –** Dyma risgiau sy'n gysylltiedig â nifer fawr o grantiau penodol a ddyfernir gan LIC, neu gyrff eraill, sy'n darparu dros £30m o gyllid ychwanegol. Mae'r setliad terfynol yn dangos cynnydd o 2%, mewn termau cyffredinol, yn y cyllid grant ar gyfer Cymru gyfan, ond gallai grantiau unigol weld cynnydd mwy neu lai na'r ffigwr hwn. Nid yw lefel penodol y cyllid ar gyfer Ynys Môn yn eglur eto ar gyfer yr holl grantiau. Er mai'r ymateb cyntaf yw dweud bod rhaid i'r gwariant cysylltiedig ddod i ben hefyd pan fydd grant yn dod i ben, mae risg na fydd hyn bob amser yn bosib. Efallai na fydd hyn

yn bosib pan fydd telerau contractau'n golygu na ellir torri gwariant mor gyflym â'r incwm, neu gallai olygu talu costau diswyddo nad ydynt yn cael eu cyllido. Efallai na fydd yn bosib os yw'r Cyngor yn penderfynu bod rhaid parhau â'r gwariant gan fod y gweithgaredd a gyllidir o bwys mawr er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Er mwyn lliniaru'r risg hwn, rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn meddu ar y wybodaeth orau ar gyfer bob grant, ond ni ellir diystyru'n llwyr newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn.

- **Risgiau Incwm –** Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd cyffredinol o 3% mewn ffioedd, ac mae nifer o wasanaethau wedi rhagdybio cynnydd o hyd at 3%. Mae rhai cyllidebau wedi cael eu hail-ddatgan hefyd er mwyn adlewyrchu lefelau casglu incwm hanesyddol. Os yw elastigedd y galw am Wasanaethau'r Cyngor yn golygu bod y galw'n gostwng, ac nad yw targedau incwm yn cael eu cyflawni, gallai hynny olygu bod cyllidebau net yn gorwario. Gallai'r argyfwng costau byw gael effaith ar yr incwm a gynhyrchir gan wasanaethau megis hamdden, meysydd parcio, cynllunio a rheoliadau adeiladu, oherwydd gallai defnyddwyr ddewis gwario llai ar y gwasanaethau hyn nad ydynt yn hanfodol. Bydd angen monitro'r cyllidebau net yn ofalus ac, os bydd rhaid, cwtogi gwariant i gyd-fynd â'r gostyngiad mewn incwm.

- **Risg yn gysylltiedig â'r Galw –** Gall nifer o wasanaethau weld newid yn y galw am eu gwasanaethau. Gellir rhagdybio rhai a'u cynnwys wrth osod y gyllideb, e.e. newid mewn niferoedd disgyblion. Mae eraill yn anoddach eu darogan, a gall cynnydd bychan mewn niferoedd gael effaith sylweddol ar gostau. Mae cyllideb 2026/27 yn seiliedig ar y galw presennol am wasanaethau ym maes gofal cymdeithasol, anghenion dysgu ychwanegol ac atal digartrefedd, er bod risg y gallai'r galw barhau i gynyddu yn 2026/27 a'i fod yn uwch na'r ddarpariaeth yn y gyllideb. Byddai hyn yn golygu fod y gwasanaethau hynny sy'n cael eu heffeithio yn gorwario, a byddai'n rhaid cyllido'r gorwariant o arian wrth gefn a balansau cyffredinol y Cyngor.

- **Risg Optimistiaeth –** Yn y gorffennol, mae'n debyg na'r risg mwyaf o dan yr amgylchiadau presennol yw bod yr Awdurdod, Aelodau a Swyddogion yn rhy optimistaidd ynglŷn â'r arbedion a wneir, neu na fydd y galw am wasanaethau, a gofal cymdeithasol yn benodol, yn cynyddu'n sylweddol. Mae'r gyllideb ar gyfer 2026/27 yn cynnwys dros £0.9m o addasiadau er mwyn adlewyrchu patrymau gwariant neu incwm hanesyddol. Mae risg na fydd y newidiadau sy'n cael eu gwneud yn cael eu hadlewyrchu yn yr incwm a gwariant gwirioneddol yn 2026/27 ond, unwaith eto, mae'r risg yn isel a byddai'n cael ei gyllido o'r balansau cyffredinol pe byddai'r risg yn cael ei wireddu.

- **Y risg o fod yn rhy ofalus –** Mae'r risg hwn yn cyferbynnu â'r risg optimistiaeth: y perygl ein bod yn rhy ofalus wrth lunio ein cyllidebau a'u bod felly'n uwch na'r gofyn, a byddai hynny'n arwain at osod Dreth Gyngor sy'n uwch na'r gofyn, rhywbeth y mae Aelodau'n awyddus ei osgoi. Mae'r Swyddog Adran 151 yn fodlon â'r broses gosod cyllideb a bod y gyllideb a osodwyd yn asesiad teg o'r adnoddau sydd eu hangen ar bob gwasanaeth, ar sail y ffactorau perthnasol sy'n bodoli ar hyn o bryd.

- **Premiwm y Dreth Gyngor –** Pan osodir sylfaen y dreth, cydnabyddir y gall nifer y tai gwag ac ail gartrefi newid yn ystod y flwyddyn ac, o ganlyniad, dim ond 80% o'r eiddo cymwys sy'n cael eu cynnwys yn sylfaen y dreth. Mae hyn yn gwarchod cyllideb y Cyngor petai'r niferoedd yn gostwng yn sylweddol. Er hynny, dylid nodi bod nifer y tai gwag a ddefnyddiwyd i gyfrifo sylfaen y dreth wedi codi o 544 eiddo ym mis Hydref 2024 i 568 eiddo ym mis Hydref 2025. Roedd nifer yr ail gartrefi wedi codi o 2,443 eiddo i 2,616 eiddo yn ystod yr un cyfnod.

Mae sawl ffactor yn dylanwadu ar nifer yr ail gartrefi, ac mae'r niferoedd wedi cynyddu yn ystod 2025 wrth i'r Swyddfa Brisio drosglwyddo eiddo hunanarlwyo o'r gofrestr Trethi Annomestig yn ôl i'r gofrestr Dreth Gyngor, a hynny oherwydd nad yw'r eiddo wedi cael ei osod am ddigon o nosweithiau i gwrdd â gofynion y trothwy uwch. Mae risg sylweddol y gallai eiddo ddychwelyd i'r gofrestr Trethi Annomestig yn 2026/27 wrth i berchnogion gyflwyno apeliadau llwyddiannus yn erbyn y penderfyniad gwreiddiol, neu eu bod bellach yn gosod yr eiddo am y nifer penodedig o nosweithiau. Er mwyn

lliniaru'r risg, mae £900k yn cael ei gadw mewn cronfa wrth gefn glustnodedig er mwyn cyllido costau unrhyw ad-daliadau ac fel mesur lliniaru os bydd yr incwm yn gostwng yn 2026/27.

Dyluniwyd y premiwm i annog perchnogion ail gartrefi i werthu neu osod eu heiddo, ond gallai hefyd annog mwy o berchnogion i beidio â thalu neu osgoi talu trwy drosglwyddo i drethi busnes neu ddefnyddio dulliau eraill i osgoi talu. Er mwyn lliniaru'r risg, cyflogir staff ychwanegol i adnabod achosion o osgoi talu trethi ac, yn sgil hynny, sicrhau fod llai o bremiwm yn cael ei golli. Gan fod y Pwyllgor Gwaith wedi ymrwymo i ddefnyddio'r cyfan o'r premiwm ychwanegol i fynd i'r afael â phroblemau a achosir gan niferoedd uchel o ail gartrefi ar Ynys Môn, byddai unrhyw ostyngiad sylweddol yn yr incwm yn arwain at gwtogi'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y cynlluniau hyn yn y dyfodol.

**Incwm y Dreth Gyngor –** Mae incwm y Dreth Gyngor yn seiliedig ar gyfrifiad sail y dreth ym mis Tachwedd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae sail y dreth yn newid yn gyson yn ystod y flwyddyn, wrth i eiddo newydd gael eu hychwanegu ac wrth ganiatáu eithriadau a disgowntiau person sengl. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng y swm gwirioneddol a gesglir a'r gyllideb.

Gallai'r argyfwng costau byw effeithio ar raddfa gasglu'r Cyngor hefyd, wrth i fwy o deuluoedd wynebu problemau ariannol oherwydd bod prisiau'n codi. Gallai'r cynnydd arfaethedig yn lefel y Dreth Gyngor hefyd effeithio ar y cyfraddau casglu. Gallai hyn arwain at golled ariannol yn 2026/27, neu yn y dyfodol, pan fydd rhaid, yn y pendraw, ddileu dyledion nad oes modd eu casglu.

**5.4.** Ar ôl ystyried yr holl risgiau a nodir uchod, a'r camau lliniaru, barn y Swyddog Adran 151 yw bod y cyllidebau'n gadarn a chyraeddadwy, ac mae lefel iach balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig presennol y Cyngor yn ddigonol i liniaru'r risgiau a nodwyd.

## 6. CRONFEYDD CYFFREDINOL A PHENODOL

**6.1.** Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o ragdybiaethau ynglŷn â lefelau incwm a gwariant tebygol yn ystod y blynyddoedd nesaf. Yn ddieithriad, felly, mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o risgiau ariannol. Cyfeirir atynt ym mharagraff 5, uchod.

**6.2.** Mae'n rhaid i'r Swyddog Adran 151 adolygu unrhyw gyllidebau neu gronfeydd wrth gefn yn eu cyfanrwydd, ar y cyd â'r gyllideb sylfaenol a'r risgiau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Dylai'r adolygiad hefyd ystyried y tymor canol, lle bo angen, ac ystyried datblygiadau allweddol a allai gael effaith ar yr angen a'r defnydd a wneir o adnoddau unwaith ac am byth.

**6.3.** Mae'r agwedd mewn perthynas â rheoli risgiau cyllidebol a diogelu iechyd ariannol y Cyngor yn gadarn ar hyn o bryd. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd angen diogelu cyllid unwaith ac am byth yn ddigonol er mwyn cyllido newidiadau strategol / trawsnewidiol yn y dyfodol, yn hytrach na chyllido gorwariant sylweddol ar y gyllideb sylfaenol.

**6.4.** Ystyriwyd yr angen i gadw'r gostyngiad uniongyrchol mewn gwariant, a'r effaith yn sgil hynny ar wasanaethau, cyn ised â phosib. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso hyn yn erbyn yr angen i sicrhau sefydlogrwydd ariannol y Cyngor yn y tymor canol a'r tymor hir, a dylid gwneud arbedion yn raddol ac mewn ffordd strwythuredig yn y blynyddoedd nesaf. Mae rhywfaint o risg bob amser hefyd y ceir gwariant neu orwariant annisgwyl, oherwydd pwysau mwy cyffredinol ar gyllidebau gwasanaeth, ac mae'n rhaid i'r cronfeydd wrth gefn hefyd fod yn ddigon i ymdopi â'r pwysau hwn.

**6.5.** Ar 1 Ebrill 2025, roedd gan y Cyngor £15.71m yn ei gronfeydd wrth gefn cyffredinol (ar ôl caniatáu am y £2.46m a ddefnyddiwyd i gydbwyso cyllideb 2025/26), ac mae hyn yn cyfateb i 8.0% o gyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2025/26, neu 9.1% o beidio â chynnwys cyllideb datganoledig i ysgolion. Ni wnaed unrhyw ddyraniadau o'r gronfa wrth gefn gyffredinol yn ystod y flwyddyn a rhagwelir tanwariant o £3.23m yn y gyllideb ar gyfer 2025/26. Mae'r amcangyfrif o'r balans diwygiedig felly yn £18.94m, neu 9.7% o gyllideb refeniw net 2025/26.

**6.6.** Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2025/26, roedd gan ysgolion falansau gwerth £5.07m, ond rhagwelir iddynt ostwng i £2.82m erbyn diwedd 2025/26. Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r rhan fwyaf o'u balansau i gyllido cyllideb 2026/27.

**6.7.** Mater i'r Cyngor ei benderfynu yw lefel y balansau cyffredinol, yn seiliedig ar argymhelliad Swyddog Adran 151 y Cyngor, ond, fel rheol gyffredinol, ystyrir bod 5% o'r gyllideb refeniw net yn lefel dderbyniol. Mae barn yn amrywio ynglŷn â p'un a ddylai'r gyllideb refeniw net eithrio'r gyllideb datganoledig ysgolion, gan fod ysgolion yn dal eu balansau eu hunain i gwrdd â chostau annisgwyl. Ar sail y sefyllfa ariannol bresennol, mae cryn hyder y bydd lefel y balansau cyffredinol yn fwy na 5% o'r gyllideb refeniw net ar ddechrau blwyddyn ariannol 2026/27.

**6.8.** Ar ôl ystyried lefel balansau cyffredinol y Cyngor, balansau ysgolion, cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chyllidebau wrth gefn, mae'r Swyddog Adran 151 yn fodlon bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i wrthsefyll unrhyw anawsterau a all godi yn ystod 2026/27 os na fydd digon o gyllid yn y gyllideb refeniw arfaethedig i gwrdd â chostau gwirioneddol y Cyngor yn 2026/27.

## 7. Y DRETH GYNGOR

**7.1.** Yn 2025/26, roedd y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D yn £1,705.95, ac yn yr 16eg safle o blith yr 22 Awdurdod yng Nghymru. Mae'n is na chyfartaledd Cymru, sef £1,784. Yr hyn sy'n bwysicach i Ynys Môn yw'r gymhariaeth â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru. Dangosir hyn yn Nhabl 2, isod:-

**Tabl 2**
**Cymhariaeth o Daliadau Dreth Gyngor ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru**

| Awdurdod | Tâl Band D 2025/26 £ | Swm Uwch na / o Dan Ynys Môn £ | Canran Uwch na / o Dan Ynys Môn % |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,705 | | |
| Gwynedd | 1,907 | 202 | 11.86% |
| Conwy | 1,888 | 183 | 10.73% |
| Sir Ddinbych | 1,780 | 74 | 4.37% |
| Sir y Fflint | 1,816 | 110 | 6.46% |
| Wrecsam | 1,746 | 41 | 2.40% |

**7.2.** Y gyllideb Dreth Gyngor ar gyfer 2026/27 (cyn cynyddu'r Dreth Gyngor ond ar ôl addasu ar gyfer y newid yn Sylfaen y Dreth Gyngor a'r premiwm) yw £57.81m. Felly, mae pob 1% o gynnydd yn cynhyrchu £578k ychwanegol (ond bydd rhaid tynnu'r cynnydd fyddai ei angen yn y gyllideb ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor).

**7.3.** Ar ôl ystyried cyfanswm y setliad terfynol, sef £144.584m, y gofyn cyllidebol diwygiedig o £207.029m (gweler Atodiad 2) a defnyddio £1.685m o arian wrth gefn, byddai angen £60.760m o gyllid Dreth Gyngor. I gyllido'r gofyn cyllidebol diwygiedig, byddai angen cynnydd o 5.1% yn y Dreth Gyngor, gan olygu fod y tâl ar gyfer eiddo Band D yn codi i £1,792.98, sef cynnydd o £87.03, neu £1.67 yr wythnos.

## 8. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**8.1.** Wrth ddarparu ei wasanaethau, mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i asesu effaith penderfyniadau ariannol allweddol ar grwpiau gwarchodedig, a rhoi sylw dyledus i ganlyniad asesiadau o'r fath.

**8.2.** Ni fydd y gyllideb arfaethedig yn cael effaith ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig a nodir yn y Rheoliadau ac, o ganlyniad, ni ystyrir bod angen unrhyw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## 9. DIWEDDARU'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

**9.1.** Fel y nodwyd ym mharagraff 1, uchod, mae'r sefyllfa cyllido a chostau staffio wedi newid yn sylweddol ers i'r Cyngor gymeradwyo'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) ym mis Medi 2025.

**9.2.** Y prif faes sy'n creu ansicrwydd o ran y CATC yn y dyfodol yw chwyddiant a'i effaith ar ddyfarniadau cyflog yn y dyfodol, ac mae'r argyfwng costau byw a'i effaith ar y galw am wasanaethau'r Cyngor yn ffactor sylweddol hefyd.

**9.3.** Mae'r CATC a ddiweddarwyd ar gyfer 2027/28 a 2028/29 i'w weld yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**
**Crynodeb o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2027/28 a 2028/29**

| | **2027/28<br>£'m** | **2028/29<br>£'m** |
|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net a ddygwyd ymlaen<br>Pwysau ar y gyllideb a chwyddiant<br>Arbedion a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol | 207.029<br>5.112<br>0.000 | 212.141<br>4.242<br>(2.892) |
| **Cyllideb Ddisymyd Ddiwygiedig** | **212.141** | **213.491** |
| Cyllid Allanol Cyfun (CAC) (gan dybio cynnydd o 0.6% yn 2027/28 a 2028/29) | (145.451) | (146,324) |
| Y Dreth Gyngor (gan dybio cynnydd o 5% yn 2027/28 a 3% yn 2028/29) | (63.798) | (65.712) |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(209.249)** | **(212.036)** |
| | | |
| **Gofynion Cyllido / Arbedion Ychwanegol** | **2.892** | **1.455** |
| | | |
| **Prif Ragdybiaethau** | | |
| Dyfarniadau Cyflog - Staff nad ydynt yn Athrawon | 2.0% | 2.0% |
| Dyfarniadau Cyflog - Athrawon | 2.5% | 2.0% |
| Chwyddiant Cyffredinol | 2.0% | 2.0% |

Mae amcangyfrif y CATC uchod yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau a gallant newid wrth i ni symud tuag at 2027/28, ond mae'r cynllun yn dangos y bydd angen torri gwariant y gyllideb refeniw net yn sylweddol yn 2027/28, a bydd angen cynnydd uwch na chwyddiant yn y Dreth Gyngor hefyd. Gellir gwrthbwyso hyn yn rhannol eto trwy ddefnyddio mwy o arian wrth gefn ond, unwaith eto, nid yw hyn ond yn gohirio'r angen i dorri'r gyllideb tan 2027/28.

**9.4.** Mae sefyllfa cyllid cyfalaf hefyd yn cael effaith ar y gyllideb refeniw yn y dyfodol, gan nad yw lefel bresennol y cyllid yn ddigon i gynnal adeiladau a ffyrdd y Cyngor i'r safon bresennol, yn ogystal â buddsoddi mewn cerbydau a chaledwedd TG newydd. Bydd y diffyg cyllid cyfalaf yma yn golygu bod costau trwsio a chynnal a chadw holl asedau'r Cyngor yn cynyddu wrth i'w hoes ddefnyddiol gael ei ymestyn. Bydd rhaid ystyried buddsoddi a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau y gellir cynnal gwasanaethau, yn ogystal â lleihau'r costau ychwanegol y bydd rhaid i'r gyllideb refeniw eu hysgwyddo yn y dyfodol.

**9.5.** Gallai'r sefyllfa wella yn 2027/28 a 2028/29, gan fod disgwyl i chwyddiant ostwng a chyrraedd targed Banc Lloegr, sef 2%, gan lacio'r pwysau ar gostau. Rhagwelir hefyd y bydd twf economaidd yn gwella, a gallai olygu fod y cyllid gan LIC yn cynyddu. Fodd

bynnag, gallai llywodraeth wahanol fod mewn grym yn dilyn etholiadau'r Senedd, ac efallai na roddir yr un flaenoriaeth i lywodraeth leol.

**9.6.** Y ffactor anhysbys fydd y galw am ofal cymdeithasol a gwasanaethau digartrefedd, a gallant roi pwysau sylweddol ar gyllidebau os bydd y galw yn y meysydd hyn yn cynyddu. Bydd unrhyw gynnydd sylweddol yn y galw'n effeithio ar y rhagolygon a ddangosir yn Nhabl 3.

**9.7.** Cynllun dangosol yn unig sydd i'w weld yn Nhabl 3, ac mae'n seiliedig ar y rhagdybiaeth fod y gyllideb refeniw net ar gyfer 2026/27 yn cael ei chynyddu yn unol â chwyddiant. Fodd bynnag, nodir y gallai'r Pwyllgor Gwaith ddewis gosod cyllideb refeniw net is, ynghyd â chynnydd is yn y Dreth Gyngor. Cyflwynir CATC wedi'i ddiweddaru i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2026.

## 10. CASGLIADAU

**10.1.** Mae'n bwysig bod y gyllideb a osodir yn gyraeddadwy a'i bod yn adlewyrchu'r galwadau a wynebir gan wasanaethau ar hyn o bryd, er y nodir y byddai'r argyfwng costau byw, os yw'n parhau, yn cael effaith sylweddol ar gyllideb y Cyngor. Nid yw'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn unigryw i Fôn, mae'r 22 gyngor arall yng Nghymru'n wynebu'r un sefyllfa hefyd, yn ogystal â mwyafrif helaeth o gynghorau yn Lloegr.

**10.2.** Mae'r setliad i lywodraeth leol yn uwch na'r rhagolygon gwreiddiol ond, er hynny, nid yw'r cynnydd yn y setliad yn ddigon i gwrdd â chynnydd mewn costau sy'n deillio o ddyfarniadau cyflog, chwyddiant a mwy o alw am wasanaethau. Yn ôl y disgwyl, yr unig ddewis sydd gan y Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys, wrth gynnal gwasanaethau a darparu ar gyfer cynnydd yn y galw, yw torri'r gyllideb, ynghyd â chynyddu'r Dreth Gyngor a defnydd rheoledig o arian wrth gefn.

**10.3.** Mae sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn parhau i fod yn gymharol gryf ac mae tanwariant yn cael ei ragweld yn 2025/26. Bydd hyn yn golygu fod y balansau cyffredinol yn parhau i fod yn iach ac yn uwch na'r isafswm a argymhellir, sef 5% o wariant net. Mae defnyddio arian wrth gefn i gydbwyso cyllideb 2026/27 yn strategaeth cymharol ddiogel, ond nid yw'n strategaeth y gellir ei defnyddio yn y tymor hir. Mae'n bosib y gellir defnyddio arian wrth gefn eto i gydbwyso'r gyllideb yn 2027/28, ond bydd angen asesu hyn ymhellach yn ystod 2026, cyn gosod cyllideb 2027/28.

**10.4.** Gallai'r sefyllfa wella yn 2027/28, ond byddai'n rhaid i'r economi dyfu, fyddai wedyn yn cynyddu derbyniadau treth, a byddai angen i gyfraddau llog ostwng a chwyddiant fod yn isel. Byddai hynny'n sicrhau fod y cyllid sy'n cael ei ddarparu gan y llywodraeth o leiaf yn cynyddu ar yr un raddfa â chynnydd mewn costau. Y galw am wasanaethau yw'r elfen bwysig arall ac, os yw'r galw'n dechrau codi eto, bydd yn rhoi pwysau unwaith eto ar gyllidebau, gan olygu bod rhaid torri gwasanaethau neu fod y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn uwch na chwyddiant.

**10.5.** Felly, ym marn broffesiynol y Swyddog Adran 151, mae'r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2026/27 yn cyflawni'r amcanion canlynol:-

- Sicrhau bod adnoddau ariannol digonol yn cael eu neilltuo i bob gwasanaeth er mwyn cwrdd â'r pwysau presennol ar y gyllideb a diwallu'r galw am y swyddogaethau statudol y mae'n rhaid i'r gwasanaethau eu darparu.
- Defnyddio cyfuniad o dorri'r gyllideb, defnyddio arian wrth gefn a chynyddu'r Dreth Gyngor i osod cyllideb gytbwys.
- Gosod lefel Dreth Gyngor sy'n cymharu ag asesiad Llywodraeth Cymru o lefel Dreth Gyngor Ynys Môn, ac sy'n cyd-fynd â'r Dreth Gyngor a osodwyd gan awdurdodau eraill yng Nghymru sy'n debyg o ran maint a'r math o awdurdod.

## ARGYMHELLION

**11.1.** Argymell bod y Cyngor llawn yn derbyn y gyllideb refeniw ddrafft arfaethedig a'i fod yn cynyddu'r Dreth Gyngor ar eiddo Band D gan 5.1%, gan olygu fod y gost ar gyfer 2026/27 yn £1,792.98.

## Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG DERFYNOL 2026/27 FESUL GWASANAETH

| | Cyllideb Arfaethedig Derfynol 2026/27 £'m |
|---|---|
| Addysg a Diwylliant | 73.378 |
| Gwasanaethau Oedolion | 45.377 |
| Gwasanaethau Plant | 18.606 |
| Gwasanaethau Tai | 2.098 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 21.419 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 6.172 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 8.822 |
| Adnoddau | 4.248 |
| Busnes y Cyngor | 2.380 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 0.878 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **183.378** |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 3.487 |
| Ailgodi tâl ar y CRT | (0.865) |
| Cefnogaeth ar gyfer Cynlluniau Cymorth Lleol i Brynu Tai | 1.050 |
| Ardollau | 5.450 |
| Cyllido Cyfalaf | 5.396 |
| Budd-daliadau a Roddir | 0.110 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol | 0.108 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 7.716 |
| **Cyfanswm Cyllidebau a Ddyrannwyd** | **205.830** |
| Cyllidebau wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 1.199 |
| **Cyfanswm Cyllideb 2026/27** | **207.029** |
| **Cyllidir Gan** | |
| Grant Cynnal Refeniw | 120.504 |
| Trethi Annomestig | 24.081 |
| Y Dreth Gyngor (yn cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor) | 60.759 |
| Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor | 1.685 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **207.029** |

This page is intentionally left blank

22/11/2024

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 18 Chwefror 2026 |
| **Pwnc:** | Gosod Cyllideb 2026/27 (cyfalaf) |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Jeff Evans |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Cynghorydd Robin Williams | Aelod portffolio ar gyfer Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Marc Jones | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151 |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Mae'n gyfrifoldeb ar y Pwyllgor, yn unol â'i Gylch Gorchwyl, i gynorthwyo'r Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith i ddadansoddi ei gyllideb ac i roi sicrwydd ynglŷn â pherfformiad a darpariaeth gwasanaethau yn unol a'r gyllideb.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☐Er sicrwydd
☒Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion): Cytuno ar ymateb ffurfiol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar gynigion terfynol y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2026/27 (gan ddefnyddio'r themau sgriwtini allweddol yn adran 5 isod) a gan gymryd i ystyriaeth sylwadau'r Panel Sgrwtini Adnoddau.

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor a'r blaenoriaethau strategol. Bydd ystyriaeth y Pwyllgor o'r cynigion cyllidebol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys sut mae'r cynigion yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ar Gynllun y Cyngor yn ogystal ag unrhyw risgiau penodol.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. I ba raddau mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r rhaglen gyfalaf arfaethedig a'r cynlluniau a gynigir o ystyried y cyllid cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael yn y Gronfa Gyffredinol?

2. Sut mae'r cynigion yn galluogi cyflawni blaenoriaethau tymor canol y Cyngor fel sydd wedi eu nodi yng Nghynllun y Cyngor, yn ogystal a chydbwyso pwysau tymor byr?

3. Ydi'r cynigion yn addas o ystyried egwyddorion Strategaeth Gyfalaf y Cyngor?

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**CYD-DESTUN**

1.1 Mae'r gwaith o graffu ar y broses gosod cyllideb wedi datblygu ac aeddfedu dros y blynyddoedd diwethaf, gan osod y seiliau ar gyfer proses well a mwy systematig sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac arfer dda. Mewn gwirionedd, mae'r broses yn caniatáu ar gyfer dull mwy systematig o graffu ariannol, fel bloc adeiladu hanfodol ar gyfer rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn.

1.2 Bydd Aelodau'n ymwybodol bod cyllid yn hanfodol i'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu a bod goblygiadau pellgyrhaeddol i'r materion ariannol sy'n ein hwynebu fel awdurdod lleol – o ran y gwasanaethau sy'n cael eu derbyn gan ein dinasyddion a hefyd lefel y Dreth Gyngor neu'r ffioedd a'r taliadau a godir. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae angen rhoi sicrwydd i'r Aelodau felly bod y Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau, yn enwedig adnoddau cyllidol.

1.3 Wrth ystyried eu hymateb i'r cynigion cyfalaf, bydd angen i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried y cynigion o ran sefyllfa ariannol tymor hwy y Cyngor ac amcanion a blaenoriaethau Strategaeth Gyfalaf y Cyngor.

**2. GOSOD CYLLIDEB Y CYNGOR AR GYFER 2026/27**

2.1 Ynghlwm mae copi o adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adain 151 ar y cynigion cyllideb cyfalaf 2026/27 a fydd gerbron cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Chwefror, 2026.

Bydd yr argymhellion terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 5 Mawrth, 2026

**3. SGRIWTINI ARIANNOL – GOSOD CYLLIDEB 2026/27**

3.1 Mae craffu ariannol yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'n ymwneud â sicrhau craffu effeithiol o ran cynllunio, cyflawni a dilyn i fyny'r penderfyniadau allweddol hynny sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. Dylai sgriwtini felly:

- Ddarparu her effeithiol
- Dal y rheini sy’n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo’r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**4. PANEL SGRIWTINI ADNODDAU**

4.1 Mae Panel Sgriwtini Adnoddau wedi'i sefydlu i sicrhau'r canlyniadau allweddol canlynol:

- Datblygu model o weithio ar faterion cyllid sy'n canolbwyntio ar ffurfio grwpiau llai fel y gall Aelodau chwarae mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd yn y pwnc ac er mwyn annog presenoldeb da a gwaith tîm.
- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau sydd â'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau ariannol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

4.2 Rhoddodd y Panel ystyriaeth i fanylion diweddaraf y cynigion cyfalaf yn ei gyfarfod diwethaf (12 Chwefror, 2026). Bydd crynodeb o drafodaethau’r Panel yn cael ei gyflwyno ar lafar yn y cyfarfod gan y Cyng Geraint Bebb, Cadeirydd y Panel.

**5. Y BROSES AR GYFER YMGYNGHORI**

5.1 Bydd ymgynghori ar y cynigion cychwynnol gyda Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned, Fforwm Pobl Hyn a Fforwm Cyllid Ysgolion Ynys Mon.

**6.MATERION SGRIWTINI ALLWEDDOL**

6.1 Mae proses gosod cyllideb 2026/27 yn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ystyried a herio goblygiadau'r gyllideb ddrafft. Derbyniwyd mewnbwn hefyd trwy'r Panel Sgriwtini Adnoddau sydd wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r cynigion cyllidebol drafft cychwynnol. Yn y rhan hon o'r broses, gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ar ymateb ffurfiol i'w gyflwyno i’r Pwyllgor Gwaith ar gynigion drafft y Cyngor ar gyfer cyllideb cyfalaf 2026/27 (gan ddefnyddio'r themau sgriwtini allweddol ym mharagraff 5 uchod).

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu’r gyllideb am 2025/26.

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy’n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu’r gyllideb am 2025/26.

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb am 2025/26. |

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

| |
|---|
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb am 2025/26. |

## 8. Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| Mae'r adroddiad hwn yn trafod y broses ar gyfer gosod cyllideb cyfalaf y Cyngor ar gyfer 2026/27. |

## 9. Atodiadau

| |
|---|
| ATODIAD 1: adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) ar y cyllidebau cyfalaf.<br>ATODIAD 2: Strategaeth Gyfalaf y Cyngor |

## 10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth Adnoddau / Swyddog 151 |

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **24 CHWEFROR 2026** |
| **Pwnc:** | **CYLLIDEB GYFALAF 2026/27** |
| **Deilydd Portffolio:** | **CYNG ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**<br>01248 762601<br>rmjfi@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gynnig cyllideb gyfalaf ar gyfer 2026/27, a bydd yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2026.

**ARGYMHELLION**

Argymell y rhaglen gyfalaf ganlynol ar gyfer 2026/27 i'r Cyngor llawn:-

| | **Cyf** | **£'000** |
|---|---|---|
| Cynlluniau 2025/26 a Ddygwyd Ymlaen – Cronfa Gyffredinol | Para 4.1 | 8,394 |
| Adnewyddu Asedau / Prynu Asedau Newydd | Para 4.2 a 4.3 | 6,937 |
| Isadeiledd Gwastraff | Para 6.1 | 3,806 |
| Pier a Phontynau Porthaethwy | Para 6.2 | 225 |
| Adnewyddu Canolfan Hamdden Plas Arthur | Para 6.3 | 1,650 |
| Balchder Bro | Para 6.4 | 1,500 |
| Cyfrif Refeniw Tai | Para 7 | 31,572 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2026/27** | | **54,084** |
| | | |
| **Cyllidir Gan:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 2,761 |
| Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol | | 5,047 |
| Cymunedau Dysgu – Benthyca Digefnogaeth | | 0 |
| Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | | 271 |
| Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig | | 3,452 |
| Grantiau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru | | 10,044 |
| Benthyca Digefnogaeth - Cronfa Gyffredinol | | 937 |
| Gwarged Cyfrif Refeniw'r CRT | | 5,418 |
| Grantiau Allanol y CRT | | 17,291 |
| Benthyca Digefnogaeth y CRT | | 8,863 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2026/27** | | **54,084** |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?** | | |
|---|---|---|
| Bydd nifer o gynlluniau ychwanegol yn cael eu hystyried yn y rhaglen gyfalaf, a'r prif ystyriaethau o ran cyllido fydd fforddiadwyedd a manteisio i'r eithaf ar gyllid grant allanol. | | |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | | |
| Mae cynnig y gyllideb gyfalaf yn fater a neilltuwyd i'r Pwyllgor Gwaith. | | |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi | | |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Amherthnasol | | |
| **DD – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** | | |
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys? | Mae'r gyllideb gyfalaf yn sicrhau cyllid er mwyn cynnal asedau'r Cyngor, ac mae'n ffurfio rhan o'r strategaeth i wireddu'r amcanion a nodir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. |
| **2** | A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Bydd parhau i gynnal a chadw asedau'r Cyngor yn atal costau uwch yn y dyfodol |
| **3** | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy | Mae prosiectau cyfalaf yn gysylltiedig â'r rhaglen Cymunedau Dysgu a'r CRT yn cyd-fynd â blaenoriaethau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Fel rhan o'r broses ymgynghori ar Gynllun Corfforaethol y Cyngor 2023 – 2028, gofynnwyd nifer o gwestiynau i ddinasyddion yn ymwneud â gwariant cyfalaf a'u blaenoriaethau. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae'r gyllideb gyfalaf yn sicrhau cyllid er mwyn cynnal asedau'r Cyngor, ac mae'n ffurfio rhan o'r strategaeth i wireddu'r amcanion a nodir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl. |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Ni nodwyd unrhyw effeithiau posibl. |
| **E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad ac mae'r sylwadau wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| **2** | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Awdur yr adroddiad. |
| **3** | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor yn aelod o'r TA. |
| **4** | Adnoddau Dynol (AD) | Dim effaith uniongyrchol ar AD. |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | Eiddo | Lluniwyd y rhaglen gyfalaf mewn trafodaeth â'r Prif Swyddog Eiddo ac Asedau a'r Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo. |
| **6** | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Mae sylwadau'r Pennaeth TGCh wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad. |
| **7** | Sgriwtini | I'w gadarnhau |
| **8** | Aelodau Lleol | Mae'r cynigion yn berthnasol i'r holl Aelodau. |
| **9** | Unrhyw gyrff allanol / eraill | Amherthnasol |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 – Adroddiad ar Gyllideb Gyfalaf 2026/27
Atodiad 2 – Cyllideb Gyfalaf Arfaethedig Derfynol 2026/27

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Adroddiad ar y Strategaeth Gyfalaf 2026 - 2031 - Pwyllgor Gwaith, 27 Ionawr 2026
Cyllideb Gyfalaf 2025/26 – Cyngor llawn 6 Mawrth 2025
Adroddiadau Monitro Cyfalaf Chwarterol 2025/26 – Pwyllgor Gwaith - 23 Medi 2025, 25 Tachwedd 2025, 24 Chwefror 2026

**ATODIAD 1**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2026/27, sydd wedi'i chynnwys isod, yn ystyried yr egwyddorion yn y Strategaeth Gyfalaf 2025 – 2030 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2025. Diweddarwyd y Strategaeth Gyfalaf i adlewyrchu'r gyllideb gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2026/27, ond nid yw egwyddorion y strategaeth wedi newid.

## 2. EGWYDDORION Y STRATEGAETH GYFALAF

**2.1.** Mae'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2025/26 wedi cael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn, a chafodd ei diweddaru ar gyfer y cyfnod 2026/31 i adlewyrchu'r lefelau cyllido newydd, unrhyw newidiadau ym mlaenoriaethau'r Cyngor ac unrhyw newidiadau a nodwyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2026/27, fydd yn cael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2026.

**2.2.** Mae'r Strategaeth Gyfalaf gyfredol yn nodi'r egwyddorion canlynol ar gyfer y Cyngor wrth lunio ei raglen gyfalaf:-

- Bob blwyddyn, bydd y cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu er mwyn sicrhau buddsoddiad mewn asedau presennol i'w diogelu ar gyfer y dyfodol.
- Bydd y Cyngor yn defnyddio cyllid cyfalaf allanol pryd bynnag y bo'n bosibl a fforddiadwy.
- Bydd cyllid cyfalaf hefyd yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer asedau sydd eu hangen ar y Cyngor i'w helpu i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.
- Mae'r Cyngor yn dal i fod wedi ymrwymo i'r Rhaglen Cymunedau Dysgu, a bydd yn parhau i ddefnyddio cyllid allanol Cymunedau Dysgu yn llawn.

**2.3.** Mae'r strategaeth yn cynnwys ychydig mwy o wybodaeth ynghylch sut y byddai'r egwyddorion hyn yn cael eu cyflawni, ac mae'n cynnwys y pwyntiau allweddol canlynol:-

- Mae'r rhaglen Cymunedau Dysgu yn cael ei hystyried ar wahân i weddill y rhaglen gyfalaf gyffredinol.
- Mae prynu asedau newydd i gymryd lle asedau presennol ac asedau sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes yn fuddiol o ran lleihau costau refeniw, a bydd y rhaglen gyfalaf yn dyrannu cyllid er mwyn prynu neu wella offer TG presennol, cerbydau ac adeiladu'r Cyngor.
- Mae'n ofyniad statudol i gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl, a bydd y rhaglen gyfalaf yn dyrannu cyllid yn flynyddol er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad hwn.
- Bydd swm yn cael ei ddyrannu'n flynyddol er mwyn cyllido gwaith gwella ffyrdd. Bydd y swm yn ddibynnol ar y swm sydd ei angen i gyflawni isafswm gwerth unrhyw gontract, y lefel o gyllid allanol a mewnol sydd ar gael ac asesiad o gyflwr ffyrdd yr Awdurdod.
- Bydd prosiectau sydd angen cyllid cyfatebol yn cael eu hasesu fesul achos, a bydd unrhyw benderfyniad i ddyrannu cyllid yn seiliedig ar sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, unrhyw oblygiadau refeniw parhaus a'r gymhareb rhwng cyllid y Cyngor a chyllid allanol.
- Ni fydd y Cyngor yn ymgymryd â phrosiectau sy'n cael eu cyllido gan fenthyca digefnogaeth oni bai bod y gostyngiad mewn costau refeniw, neu'r incwm ychwanegol a gynhyrchir, yn ddigon i dalu am unrhyw gostau cyllido cyfalaf ychwanegol.

**2.4.** Mae'r Strategaeth Gyfalaf hefyd yn egluro sut y dylid asesu unrhyw fid newydd, fel a ganlyn:-

- I ba raddau mae'r prosiect yn cyfrannu at flaenoriaethau Cynllun y Cyngor;
- A yw'r prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol;
- A fydd y prosiect yn creu arbedion refeniw;
- A fydd y prosiect yn helpu i liniaru risg corfforaethol.

## 3. CYLLIDO RHAGLEN GYFALAF 2026/27

**3.1.** Dangosir y cyllid sydd ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2026/27 yn Nhabl 1, isod. Dylid nodi fod y ffigyrau ar gyfer y Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthyca â Chefnogaeth yn seiliedig ar ffigyrau'r setliad terfynol ar gyfer Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd ar 20 Ionawr 2026.

**Tabl 1**
**Rhagolwg o'r Cyllid Cyfalaf ar gael ar gyfer 2026/27**

| Ffynonellau Cyllido | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| **Rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gyffredinol** | | |
| Cynlluniau / Cyllid a ddygwyd ymlaen o 2025/26 | 7,457 | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol 2025/26 ni ddefnyddiwyd | 426 | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol 2026/27 | 2,761 | |
| Benthyca â Chefnogaeth | 3,668 | |
| Grantiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (gwarantedig) | 5,306 | |
| Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | 48 | |
| Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig | 1,909 | |
| **Cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf Gyffredinol (Cronfa'r Cyngor)** | | **21,575** |
| **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | | |
| CRT - Gwarged yn ystod y flwyddyn | 5,418 | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru a grantiau allanol eraill | 17,291 | |
| **Cyllid ar gyfer y CRT** | | **22,709** |
| | | |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2026/27** | | **44,284** |

**3.2.** Mae'r Cyllid Cyfalaf Cyffredinol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer 2026/27 £155k (3.15%) yn uwch na'r dyraniad ar gyfer 2025/26. Er bod y cynnydd yn cael ei groesawu, nid yw'n gwneud yn iawn am y gostyngiad yng ngwerth gwirioneddol y cyllid oherwydd effaith chwyddiant.

Er bod gan y Cyngor hen adeiladau ysgol sydd eto i'w gwerthu, mae'r derbyniadau cyfalaf wedi cael eu neilltuo ar gyfer cyllido'r ysgol newydd, e.e. nid yw adeilad Ysgol Llangaffo wedi cael ei werthu eto, ond mae unrhyw dderbyniadau cyfalaf a dderbynnir yn y dyfodol yn sgil gwerthu'r adeilad ysgol wedi cael eu dyrannu er mwyn cyfrannu at gostau Ysgol Santes Dwynwen. Mae gan y Cyngor ychydig o asedau y mae'n dymuno'u gwaredu, ac mae yna falans o dderbyniadau cyfalaf sydd heb gael eu dyrannu ar gyfer unrhyw gynlluniau penodol. Ar hyn o bryd, mae £267k o dderbyniadau cyfalaf ar gael i gyllido gwariant cyfalaf yn 2026/27, neu mewn blynyddoedd i ddod.

**3.3.** Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi cadw arian mewn cronfeydd wrth Gefn clustnodedig er mwyn cyllido prosiectau unigol. Mae'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb refeniw. Defnyddiwyd £2.46m yn 2025/26 ac argymhellir defnyddio £1.685m yn 2026/27. Er hynny, mae'r balansau cyffredinol yn parhau i fod yn uwch na'r isafswm sy'n cael ei argymell, sef 5% o'r gyllideb refeniw net. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd faint o gyllid uwchlaw'r ffigwr hwn fydd ar gael nes bydd cyfrifon terfynol 2025/26 wedi cael eu cau, ond mae'n bosib y gellir rhyddhau rhywfaint o gyllid o'r balansau cyffredinol i gefnogi'r rhaglen gyfalaf yn 2026/27.

**3.4.** Mae cyllid y CRT wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau'r CRT, ac ni ellir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall. Erbyn hyn, rhagwelir y bydd balans cronfeydd wrth gefn y CRT wedi gostwng i'r isafswm ac ni fydd modd rhyddhau unrhyw gyllid pellach o'r cronfeydd wrth gefn. Mae'r gwarged a gynhyrchir gan gyfrif refeniw'r CRT yn cael ei ail-fuddsoddi yn y stoc dai drwy'r rhaglen gyfalaf, ac mae'r ffigwr uchod yn seiliedig ar amcangyfrif o'r gwarged, fel y nodir yn y Cynllun Busnes 30 mlynedd. Mae'r cyllid grant yn cynnwys Lwfans Atgyweiriadau Mawr LlC a chyllid grant ar gyfer datblygu cyfleuster gofal ychwanegol ym Mhorthaethwy.

## 4. RHAGLEN GYFALAF ARFAETHEDIG 2026/27

### 4.1. Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2025/26

Mae adroddiad monitro'r gyllideb gyfalaf ar ddiwedd chwarter 3 2025/26 yn nodi tanwariant posib o £9.849m yn y rhaglen gyfalaf, er gall y sefyllfa derfynol newid yn ystod y chwarter olaf. Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith pan fydd y sefyllfa derfynol ar gyfer 2025/26 yn hysbys, ynghyd â chais am ganiatâd i ddwyn y cyllid ymlaen o 2025/26 i 2026/27. Mae'r cynlluniau sy'n debygol o gael eu dwyn ymlaen i 2026/27 i'w gweld yn Tabl 2, isod:-

**Tabl 2**
**Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen o 2025/26**

| Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen o 2025/26 | 2026/27 £'000 |
|---|---|
| Cynnal a Chadw Ysgolion | 913 |
| Cynnal a Chadw Adeiladau Cyngor Eraill | 447 |
| Cerbydau | 120 |
| Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus | 280 |
| Uwchraddio Toiledau mewn Ysgolion Uwchradd | 43 |
| Trwsio a Chynnal a Chadw - Llyfrgell Porthaethwy | 17 |
| Trwsio a Chynnal a Chadw - Cartref Preswyl Garreglwyd | 355 |
| Trwsio a Chynnal a Chadw - Cartref Preswyl Brwynog | 12 |
| Trwsio a Chynnal a Chadw - Cartref Preswyl Plas Mona | 20 |
| Trwsio a Chynnal a Chadw - Hen Reithordy | 35 |
| Trwsio a Chynnal a Chadw - Gors Felen | 215 |
| Cynllun Buddsoddi Rheoli Gwastraff | 816 |
| Canolfan Hamdden Plas Arthur | 683 |
| Canolfan Hamdden Amlwch | 74 |
| Canolfan Hamdden David Hughes | 28 |
| Safle'r Goron, Caergybi - Ailddatblygu | 816 |
| Trawsnewid Trefi - Terfynfa Forol Amlwch | 480 |
| Trawsnewid Trefi - Grant Creu Lle | 301 |
| Caergybi: Prosiect Trawsnewid a Yrrir gan Ddiwylliant a Threftadaeth | 2,500 |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (Cyllid Cyfatebol) | 239 |

| Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen o 2025/26 | 2026/27<br>£'000 |
|---|---|
| **Cyfanswm Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen** | **8,394** |
| **Cyllidir Gan** | |
| Benthyca â Chefnogaeth - Cronfa Gyffredinol | 1,379 |
| Grantiau Llywodraeth Cymru | 1,597 |
| Grantiau Llywodraeth y DU | 2,683 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 223 |
| Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig | 1,117 |
| Grant eEPR (Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr dros Becynwaith) DEFRA | 458 |
| Benthyca Digefnogaeth | 937 |
| **Cyfanswm y Cyllid ar gyfer Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen** | **8,394** |

### 4.2. Adnewyddu Asedau / Prynu Asedau Newydd

Bob blwyddyn, mae'n rhaid buddsoddi yn asedau'r Cyngor er mwyn ymestyn eu hoes a sicrhau eu bod yn addas at eu diben, neu brynu asedau newydd i gymryd lle asedau sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes. Cynigir y symiau canlynol:-

- **Adnewyddu Ysgolion –** Mae'r gost o glirio'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn y 44 o ysgolion sy'n eiddo i'r Cyngor yn sylweddol, ac ni ellir ei gyllido'n llawn yn y tymor byr a chanolig. Efallai y bydd rhaglen moderneiddio ysgolion y Cyngor yn lleihau peth o'r gost hon, ond bydd nifer fawr o'r ysgolion presennol yn parhau i gael eu defnyddio yn y tymor hir. Dyranwyd swm o £900k.
- **Adnewyddu Adeiladau heblaw Ysgolion -** Oherwydd na fu digon o gyllid ar gael ers nifer o flynyddoedd, mae cyflwr adeiladau'r Cyngor yn parhau i ddirywio. Mae'r Tîm Gwasanaethau Eiddo wrthi'n diweddaru cost y gwaith sydd angen ei wneud. Dyranwyd £334k o'r gyllideb graidd ac efallai y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ddyrannu cyllid ychwanegol o gronfeydd wrth gefn y Cyngor, ar ôl cau'r cyfrifon a phan fydd union gost y gwaith sydd angen ei wneud yn hysbys.
- **Ail-wynebu Priffyrdd -** Mae'r Adroddiad Statws ac Opsiynau Blynyddol yn cadarnhau fod angen cyllideb flynyddol o £2.5m er mwyn cynnal amodau Sefydlogrwydd Eiddo (Ataliol) ar ein ffyrdd. Os yw'r gyllideb yn llai na'r swm gofynnol hwn, bydd y gwaith yn llai effeithlon ac ni fydd yn cynnig cystal gwerth am arian. Gallai greu costau ychwanegol i'r Awdurdod Priffyrdd, yn sgil gorfod gwario mwy ar waith brys ac mae risg hefyd y byddai'r Awdurdod yn wynebu mwy o hawliadau trydydd parti yn ei erbyn. Mae £1.7m wedi'i ddyrannu ar gyfer y gwaith hwn. Fodd bynnag, roedd y Fenter Benthyca Llywodraeth Leol yn caniatáu i'r Cyngor fenthyca swm ychwanegol o £2.153m yn 2025/26 a £1.435m yn 2026/27, gyda LIC yn cyllido'r costau benthyca. Daw hyn â chyfanswm y cyllid ar gyfer Ail-wynebu Priffyrdd yn 2026/27 i £3.135m.
- **Cerbydau –** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddod yn sefydliad carbon niwtral ac, er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw, mae'n rhaid i'r Cyngor leihau nifer y cerbydau petrol a disel a ddefnyddir. Fodd bynnag, bydd yn anodd cyflawni hyn o fewn y cyfyngiadau cyllido presennol, a bydd y Cyngor yn dibynnu ar gyllid grant ychwanegol, neu bydd rhaid newid o brynu'n uniongyrchol i brydlesu er mwyn cyflawni'r newid. Bydd rhaglen y Gwasanaeth i brynu cerbydau graeanu newydd ac uwchraddio fflyd Cludiant Cymunedol Môn yn parhau hefyd. Dyranwyd cyfanswm o £550k er mwyn prynu cerbydau newydd.

- **Asedau TG -** Mae angen buddsoddiad parhaus er mwyn cynnal isadeiledd craidd y Cyngor ac adnewyddu dyfeisiadau a ddefnyddir gan staff i gael mynediad at systemau. Nodwyd bod angen £433k er mwyn cynnal yr isadeiledd craidd a phrynu dyfeisiau bwrdd gwaith. Fodd bynnag, mae angen rhaglen o wariant ychwanegol gwerth £426k yn 2026/27 er mwyn cyllido cost isadeiledd sydd angen ei hadnewyddu ar frys.
- **Asedau TG mewn Ysgolion -** Mae buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud er mwyn uwchraddio asedau TG mewn ysgolion, gan ddefnyddio cyllid LlC (HWB). Pan fydd yr asedau hyn yn cyrraedd diwedd eu hoes, y Cyngor fydd yn gyfrifol am gyllido asedau newydd i gymryd eu lle. Er mai swm bychan yn unig o wariant sydd ei angen yn 2025/26 (£259k), mae cyllid yn cael ei ddyrannu pan fydd o ar gael er mwyn sefydlu cronfa wrth gefn i gyllido'r gwariant angenrheidiol sylweddol o dros £2m yn 2027/28. Amcangyfrifir y bydd gan y gronfa falans o £983k ar ddechrau 2026/27, a bydd swm ychwanegol o £220k yn cael ei ychwanegu at y gronfa o'r gyllideb refeniw yn 2026/27. Bydd hyn yn gadael balans o £944k ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2026/27.

**4.3. Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl**

Mae'r galw am addasiadau mawr i alluogi trigolion anabl i barhau i fyw gartref yn parhau i fod yn uchel. Mae cyllid o £500k ar gyfer addasu tai Cyngor wedi'i gynnwys yng nghyllideb cynnal a chadw wedi'i chynllunio y CRT, ond mae'n rhaid i'r Cyngor gyllido gwaith mewn cartrefi preifat hefyd. Yr un yw'r dyraniad ag yn 2026/27, sef £900k.

## 5. RHAGLEN CYMUNEDAU DYSGU

**5.1.** Mae gwaith y Cyngor i foderneiddio'r ystâd ysgolion, drwy raglen Cymunedau Dysgu LlC, yn symud i'r cam nesaf ac, o ganlyniad, nid oes unrhyw waith wedi'i gynllunio ar unrhyw ysgolion newydd yn 2026/27. Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn datblygu'r ysgol uwchradd newydd arfaethedig yng Nghaergybi, ond nid oes unrhyw wariant cyfalaf wedi'i gynllunio ar gyfer 2026/27.

## 6. PROSIECTAU ERAILL

**6.1.** Bydd angen gwariant sylweddol yn y tymor canolig i uwchraddio cyfleusterau gwastraff y Cyngor. Yn ogystal â phrynu offer newydd i gymryd lle offer sydd wedi mynd yn hen, bydd hefyd yn caniatáu i'r cyfleusterau ym Mhenhesgyn a Gwalchmai gael eu gwella er mwyn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol newydd a chaniatáu i'r Cyngor gyflawni targedau ailgylchu LlC. Mae gwaith ar y gweill i sicrhau cyllid grant gan LlC i gyllido'r mwyafrif o'r buddsoddiad. Dechreuodd y Cyngor dderbyn cyllid drwy gynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr dros Becynwaith (eEPR) Llywodraeth y DU yn 2025/26, a bydd hyn yn parhau yn 2026/27. Amcangyfrifir y bydd y Cyngor yn derbyn £2.395m o gyllid yn 2026/27. Mae'r cyllid hwn wedi'i glustnodi i gyllido buddsoddiad hanfodol yn isadeiledd gwastraff nad yw'n cael ei gyllido drwy grantiau LlC. Mae £3.806m wedi cael ei ddyrannu yng nghyllideb 2026/27 a bydd hyn yn defnyddio'r cyfan o'r cyllid eEPR. Bydd lefel y gwariant yn y dyfodol yn dibynnu ar lefel y cyllid eEPR yn y dyfodol, yn ogystal ag unrhyw grantiau y gellir eu denu gan LlC.

**6.2.** Mae angen trwsio a gwella'r pier a'r pontynau ym Mhier San Siôr, Porthaethwy. Bydd hyn yn caniatáu i'r pier a'r pontynau barhau i gael eu defnyddio. Dyranwyd £225k ar gyfer y prosiect.

**6.3.** Mae cynlluniau ar y gweill i gwblhau gwaith adnewyddu ar Ganolfan Hamdden Plas Arthur. Mae'r cynllun yn cynnwys ail-fodelu'r dderbynfa, creu man chware meddal, ystafelloedd ffitrwydd newydd ac ystafelloedd cyfarfod. Cyfanswm cost y cynllun yw £2.333m a bydd yn cael ei gyllido o'r incwm a gynhyrchwyd trwy werthu Cwrs Golff Llangefni, ad-daliad TAW a dderbyniwyd nifer o flynyddoedd yn ôl yn dilyn newid dosbarthiad TAW gwasanaethau Hamdden, cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin a chronfeydd wrth gefn y Cyngor.

**6.4.** Mae'r Cyngor wedi derbyn dyraniad o £1.5m o Gronfa Balchder Bro Llywodraeth y DU ac mae angen ei wario erbyn Mawrth 2027. Mae'n rhaid defnyddio'r cyllid i ddarparu gwelliannau tymor byr, gweladwy mewn lleoedd a mannau sy'n werthfawr i gymunedau erbyn Mawrth 2027, gan adlewyrchu balchder lleol a meithrin twf economaidd. Bydd disgresiwn llwyr gan y Cyngor i wario'r cyllid ar brosiectau a rhaglenni fydd, yn ei farn o, yn dwyn ffrwyth fwyaf cyflym. Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl i'r ymgysylltu ganolbwyntio ar y gymuned, gyda mewnbwn gan chydranddeiliaid lleol. Er mwyn cyflawni prosiectau o fewn yr amser sydd ar gael, bydd rhan o'r cyllid yn cael ei ddosbarthu i'r 40 Cyngor Tref a Chymuned, a'r gweddill yn cael ei wario ar brosiectau'r Cyngor ei hun. Mae gwaith yn mynd rhagddo i lunio rhestr derfynol o'r prosiectau fydd yn cael eu gwireddu.

## 7. CYFRIF REFENIW TAI

**7.1.** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn gyfrif sydd wedi'i hamgau ar gyfer gwariant refeniw a chyfalaf. Bydd y rhaglen arfaethedig ar gyfer 2026/27 yn parhau i fuddsoddi yn y stoc bresennol er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn parhau i gydymffurfio â safonau SATC, a bydd £15.71m yn cael ei fuddsoddi.

**7.2.** Mae gwaith cynllunio'n mynd rhagddo ar gyfer adeiladu cyfleuster gofal ychwanegol a gofal preswyl newydd ym Mhorthaethwy. Mae £14.001m o wariant wedi'i gynllunio ar gyfer 2026/27, a defnyddir cyllid grant i gyllido'r prosiect yn 2026/27, ond wedi hynny defnyddir cymysgedd o gyllid grant a benthyca digefnogaeth. Bydd costau refeniw'r benthyciad yn cael eu talu o'r incwm ychwanegol a gynhyrchir wrth osod y fflatiau gofal ychwanegol a'r ffioedd a godir ar y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer elfen breswyl y prosiect.

**7.3.** Mae'r Cyngor yn parhau i adeiladu tai newydd ar hyd yr Ynys, ac mae nifer o brosiectau wedi'u cynllunio ar gyfer 2026/27. Mae'n rhaid cynnal asesiad hyfywedd ariannol ar bob prosiect ac ni chaiff prosiect ei ychwanegu at y rhaglen oni bai bod yr asesiad yn gadarnhaol a'i fod yn cael ei awdurdodi gan y Pwyllgor Gwaith o dan y protocol awdurdodi a gytunwyd. O ganlyniad, dim ond £1.498m sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar hyn o bryd, ond gallai prosiectau ychwanegol gael eu hychwanegu yn ystod y flwyddyn, pan fydd y prosiectau hynny'n barod i gychwyn.

**7.4.** Bwriedir buddsoddi cyfanswm o £15.710m yn 2026/27 er mwyn cynnal a chadw stoc dai presennol y Cyngor. Bydd y rhaglen yn cael ei gyllido fel a ganlyn: y gwarged refeniw a gynhyrchir yn 2026/27 (£5.418m), Benthyca Digefnogaeth (£7.965m) a grantiau LIC (£2.690m).

**7.5.** Bydd y rhaglen fuddsoddi tymor hir, a sut y'i cyllidir dros y 30 mlynedd nesaf, yn cael ei nodi yng nghynllun busnes y CRT, a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith maes o law.

**7.6.** Neilltuwyd swm o £363k, wedi'i ariannu o warged yn ystod y flwyddyn, er mwyn prynu cerbydau newydd ar gyfer yr Uned Cynnal a Chadw Tai.

## 8. CRYNODEB O'R RHAGLEN GYFALAF A ARGYMHELLIR 2026/27

**8.1.** Mae Tabl 3, isod, yn crynhoi'r rhaglen gyfalaf a argymhellir ar gyfer 2026/27, ac mae dadansoddiad mwy manwl wedi'i gynnwys yn Atodiad 2:-

**Tabl 3**
**Crynodeb o'r Rhaglen Gyfalaf A Argymhellir 2026/27**

| | **Cyf** | **£'000** |
|---|---|---|
| Cynlluniau 2025/26 a Ddygwyd Ymlaen – Cronfa Gyffredinol | | 8,394 |
| Adnewyddu Asedau / Prynu Asedau Newydd | | 6,678 |
| Isadeiledd Gwastraff | | 3,806 |
| Offer TG mewn Ysgolion | | 259 |
| Pier Porthaethwy | | 225 |
| Gwaith Adnewyddu Plas Arthur - Cam 2 | | 1,650 |
| Balchder Bro | | 1,500 |
| Cyfrif Refeniw Tai | | 31,572 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf A Argymhellir 2026/27** | | **54,084** |
| **Cyllidir Gan:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 2,761 |
| Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol | | 5,047 |
| Cymunedau Dysgu – Benthyca Digefnogaeth | | 0,000 |
| Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | | 271 |
| Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig | | 3,452 |
| Grantiau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru | | 10,044 |
| Benthyca Digefnogaeth - Cronfa Gyffredinol | | 937 |
| Gwarged Cyfrif Refeniw'r CRT | | 5,418 |
| Grantiau Allanol y CRT | | 17,291 |
| Benthyca Digefnogaeth y CRT | | 8,863 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2026/27** | | **54,084** |

**ATODIAD 2**

## CYLLIDEB GYFALAF ARFAETHEDIG DERFYNOL 2026/27

| Cynllun | Cyllideb £'000 | Grantiau Allanol £'000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000 | Benthyca â Chefnogaeth £'000 | Benthyca Digefnogaeth £'000 | Gwarged y CRT £'000 | Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig £'000 | Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynlluniau ymrwymedig 2025/26 a ddygwyd ymlaen** | | | | | | | | |
| Cynnal a Chadw Ysgolion | 913 | | | 913 | | | | |
| Cynnal a Chadw Adeiladau Cyngor Eraill | 447 | | | 169 | 119 | | 159 | |
| Cerbydau | 120 | | | 120 | | | | |
| Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus | 280 | | | | | | 100 | 180 |
| Uwchraddio Toiledau mewn Ysgolion Uwchradd | 43 | | | | | | | 43 |
| Trwsio a Chynnal a Chadw - Llyfrgell Porthaethwy | 17 | | | 17 | | | | |
| Trwsio a Chynnal a Chadw - Cartref Preswyl Garreglwyd | 355 | | | | 355 | | | |
| Trwsio a Chynnal a Chadw - Cartref Preswyl Brwynog | 12 | | | 3 | 9 | | | |
| Trwsio a Chynnal a Chadw - Cartref Preswyl Plas Mona | 20 | | | 20 | | | | |
| Trwsio a Chynnal a Chadw - Hen Reithordy | 35 | | | 35 | | | | |
| Trwsio a Chynnal a Chadw - Gors Felen | 215 | | | | 215 | | | |
| Cynllun Buddsoddi Rheoli Gwastraff | 816 | 458 | | | | | 358 | |
| Canolfan Hamdden Plas Arthur | 683 | 183 | | | | | 500 | |
| Canolfan Hamdden Amlwch | 74 | | | 74 | | | | |
| Canolfan Hamdden David Hughes | 28 | | | 28 | | | | |
| Safle'r Goron, Caergybi - Ailddatblygu | 816 | 816 | | | | | | |
| Trawsnewid Trefi - Terfynfa Forol Amlwch | 480 | 480 | | | | | | |
| Trawsnewid Trefi - Grant Creu Lle | 301 | 301 | | | | | | |
| Caergybi: Prosiect Trawsnewid a yrrir gan Ddiwylliant a Threftadaeth | 2,500 | 2,500 | | | | | | |

| Cynllun | Cyllideb<br><br>£'000 | Grantiau Allanol<br><br>£'000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol<br>£'000 | Benthyca â Chefnogaeth<br><br>£'000 | Benthyca Digefnogaeth<br><br>£'000 | Gwarged y CRT<br><br>£'000 | Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig<br>£'000 | Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (Cyllid Cyfatebol) | 239 | | | | 239 | | | |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cynlluniau Ymrwymedig 2026/27** | **8,394** | **4,738** | **0** | **1,379** | **937** | **0** | **1,117** | **223** |
| | | | | | | | | |
| **Adnewyddu Asedau / Prynu Asedau Newydd** | | | | | | | | |
| Adnewyddu Adeiladau Ysgol | 900 | | | 900 | | | | |
| Adnewyddu Adeilad y Cyngor | 334 | | | 334 | | | | |
| Prynu Cerbydau Newydd | 550 | | 550 | | | | | |
| Prynu Offer TG Newydd - Cyffredinol | 859 | | | 433 | | | 426 | |
| Prynu Offer TG Newydd - Ysgolion | 259 | | | | | | 259 | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 900 | | 900 | | | | | |
| Ail-wynebu Priffyrdd | 3,135 | | 1,311 | 1,824 | | | | |
| **Cyfanswm Adnewyddu Asedau / Prynu Asedau Newydd** | **6,937** | **0** | **2,761** | **3,491** | **0** | **0** | **685** | **0** |
| | | | | | | | | |
| **Isadeiledd Gwastraff** | | | | | | | | |
| Uwchraddio Peiriannau a Chanolfannau Ailgylchu | 3,806 | 3,806 | | | | | | |
| **Cyfanswm Isadeiledd Gwastraff** | **3,806** | **3,806** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | |
| **Prosiectau Eraill** | | | | | | | | |
| Pier a Phontynau Porthaethwy | 225 | | | 177 | | | | 48 |
| Gwaith Adnewyddu Plas Arthur - Cam 2 | 1,650 | | | | | | 1,650 | |
| Balchder Bro | 1,500 | 1,500 | | | | | | |
| | **3,375** | **1,500** | **0** | **177** | **0** | **0** | **1,650** | **48** |
| | | | | | | | | |
| **CYFANSWM Y GRONFA GYFFREDINOL** | **22,512** | **10,044** | **2,761** | **5,047** | **937** | **0** | **3,452** | **271** |
| | | | | | | | | |

| Cynllun | Cyllideb<br><br>£'000 | Grantiau Allanol<br><br>£'000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol<br>£'000 | Benthyca â Chefnogaeth<br><br>£'000 | Benthyca Digefnogaeth<br><br>£'000 | Gwarged y CRT<br><br>£'000 | Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig<br>£'000 | Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfrif Refeniw Tai** | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| Rhaglen Cynnal a Chadw SATC a Gynlluniwyd | 15,710 | 2,690 | | | 7,965 | 5,055 | | |
| Cyfleuster Gofal Ychwanegol Porthaethwy | 14,001 | 14,001 | | | | | | |
| Datblygiadau Newydd | 1,498 | 600 | | | 898 | | | |
| Prynu Cerbydau Newydd | 363 | | | | | 363 | | |
| **CYFANSWM CYFRIF REFENIW TAI** | **31,572** | **17,291** | **0** | **0** | **8,863** | **5,418** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | |
| **CYFANSWM RHAGLEN GYFALAF 2026/27** | **54,084** | **27,335** | **2,761** | **5,047** | **9,800** | **5,418** | **3,452** | **271** |



Ynys Môn
THE ISLE OF Anglesey

# Strategaeth Gyfalaf
# 2026-2031

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Saesneg / This document is also available in English.

## Rhagair gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr

Mae buddsoddi Cyfalaf yn angenrheidiol ar gyfer Ynys Môn o safbwynt cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a chymunedol ond, yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n bwysig bod penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau tymor hir yn seiliedig ar wybodaeth ddeallus glir, yn mynd i'r afael â'r risgiau tymor hir mae'r Cyngor yn eu hwynebu a'u bod yn fforddiadwy yn y tymor hir.

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn gosod y gofynion buddsoddi tymor hir sy'n deillio o Gynllun y Cyngor a strategaethau cysylltiedig eraill, mae'n asesu fforddiadwyedd y cynlluniau hynny ac yn adnabod yr adnoddau cyfalaf sydd eu hangen i gyflawni'r cynlluniau hynny.



Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn ddogfen allweddol sy'n sicrhau bod penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau cyfalaf yn cael eu gwneud mewn ffordd drefnus, sy'n galluogi'r Cyngor i gyflawni ei brif amcanion, tra'n sicrhau nad yw hyfywedd tymor hir y Cyngor mewn perygl.



Cynghorydd Gary Pritchard,
Arweinydd y Cyngor



Dylan J. Williams,
Prif Weithredwr

# Pam Rydym Angen Strategaeth Gyfalaf?

- Mae Côd Darbodus CIPFA yn gosod allan gofyniad bod pob awdurdod lleol yn gorfod paratoi strategaeth gyfalaf.
- Yn ddelfrydol, dylai'r Strategaeth gwmpasu 10 i 15 mlynedd, ond nid yw'r ansicrwydd presennol ynglŷn â chyllid yn caniatáu ar gyfer datblygu cynllun mor hir-dymor.
- Mae'n sicrhau bod awdurdodau'n gwneud penderfyniadau ynghylch cyfalaf a buddsoddi sy'n rhoi ystyriaeth lawn i:-
  - Stiwardiaeth;
  - Gwerth am Arian;
  - Pwyll;
  - Cynaliadwyedd;
  - Fforddiadwyedd.
- Cyfrannu at gydymffurfiaeth gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Pwrpas y Strategaeth Gyfalaf?

- Wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddiadau tymor hir, mae'n hanfodol bod y rhai sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniadau hynny'n gallu dibynnu ar wybodaeth glir a chywir. Mae hyn yn cynnwys:-
  - Edrych ar gynlluniau gwariant cyfalaf ac unrhyw risgiau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y tymor hir;
  - Ystyried y goblygiadau cyllido tymor hir o ran fforddiadwyedd a risgiau posib;
  - Bod â throsolwg clir o drefniadau rheoli asedau'r Cyngor ac unrhyw ofynion cynnal a chadw sydd â goblygiadau o ran adnoddau a chynllunio busnes.
- Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn edrych ar yr asedau newydd, neu'r gwelliannau sydd eu hangen i asedau, megis adeiladu'r Cyngor, ysgolion, tai, cyfleusterau gofal cymdeithasol a chyfleusterau hamdden, er mwyn helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol, ynghyd â'i oblygiadau statudol niferus.
- Drwy'r strategaeth hwn, rydym yn bwriadu gwario a buddsoddi lefel briodol o gyfalaf i ddiwallu'r blaenoriaethau ac amcanion hyn, tra'n sicrhau bod ein cynlluniau yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy.

# Gwariant Cyfalaf 2021/22 – 2025/26

| | 2021/22<br>£'m | 2022/23<br>£'m | 2023/24<br>£'m | 2024/25<br>£'m | 2025/26 (Rhagolwg)<br>£'m |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynnal Asedau Presennol | 6.865 | 9.139 | 5.678 | 10.114 | 8.944 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 4.507 | 6.317 | 13.160 | 4.131 | 0.314 |
| Gwella Cyfleusterau Hamdden | 0.211 | 0.336 | 0.249 | 1.611 | 0.835 |
| Rheoli Gwastraff | 2.270 | 0.213 | 0.099 | 0.239 | 0.865 |
| Cyflawni Sero Net | 1.742 | 1.372 | 2.379 | 10.683 | 9.522 |
| Rhaglen Amddiffyn Rhag Llifogydd | 1.194 | 2.491 | 0.567 | 1.207 | 0.848 |
| Prosiectau wedi'u Cyllido gan Grantiau'r UE | 1.361 | 4.511 | 0.248 | 0.562 | 0.330 |
| Prosiectau wedi'u Cyllido gan Grantiau Llywodraeth Cymru (LlC) / y DU | 3.590 | 2.119 | 3.085 | 8.512 | 10.639 |
| Isadeiledd / Offer TG Ysgolion | 0.603 | 0.341 | 0.320 | 0.199 | 0.000 |
| Eiddo Buddsoddi | 0.253 | 0.242 | 2.835 | 0.000 | 0.814 |
| Prosiectau Eraill wedi'u Cyllido gan Grantiau | 1.140 | 2.429 | 2.148 | 0.000 | 0.000 |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 9.723 | 11.180 | 19.806 | 27.468 | 22.056 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT** | **33.457** | **40.690** | **50.574** | **64.726** | **55.167** |

Tudalen 40

# Cynllun y Cyngor 2023-2028

Cynllun y Cyngor yw’r ddogfen allweddol sydd yn ganolog i benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud ar bob lefel; bydd yn darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; llunio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Yn ei hanfod, mae a wnelo’r cynllun â’n dymuniad i weithio gyda thrigolion Ynys Môn, cymunedau a phartneriaid i sicrhau ein bod ni’n darparu’r gwasanaethau gorau posib, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu’r meysydd allweddol y dylai’r Cyngor fod yn canolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:-**



‘Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.’

## Ein chwech amcan strategol

### Yr iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

### Gofal cymdeithasol a Lles

Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser iawn.

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Tai

Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle’n gartref.

### Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Cynllun y Cyngor 2023-2028

# Cynllun y Cyngor 2023-28

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn seiliedig ar werthoedd craidd y sefydliad, sy’n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.

[Cynllun y Cyngor 2023-2028]

## Gwerthoedd

### Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill waeth beth yw ein gwahaniaethau.

### Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonnau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

### Cydweithio

Rydym yn gweithio’n well fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn.

### Hyrwyddo’r Cyngor a’r Ynys


Rydym yn creu ymdeimlad o falchder wrth weithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o’r Cyngor i'r Cyngor a'r Ynys.

# Cylch Strategol


Mae’r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd mewn lle er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau ac amcanion.

Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni’r amcanion strategol a’r gweledigaeth.

[Cynllun y Cyngor 2023-2028]



# Y berthynas rhwng Cynlluniau a Strategaethau'r Cyngor




Tudalen 44

# Cynllun y Cyngor a Chynlluniau Gweithredol Allweddol

- **Mae'r strategaethau a chynlluniau allweddol isod yn bwysig ac yn cydberthyn er mwyn helpu i adnabod y lefel fforddiadwy o refeniw ac adnoddau cyfalaf sydd ei angen er mwyn cyflawni prif flaenoriaethau Cynllun y Cyngor a chynlluniau gweithredol allweddol. Yn ogystal, mae'r rhain yn darparu fframwaith ar gyfer rheolaeth ariannol gadarn o adnoddau'r Cyngor.**

## Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC)

Caiff ei adolygu'n rheolaidd er mwyn helpu gosod allan y gofyniad tebygol o ran adnoddau ar gyfer y tair blynedd nesaf, a sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwyso'r gofyniad hwn. Mae hyn yn cynnwys effaith materion refeniw a chyfalaf ar Gronfa'r Cyngor.

## Strategaeth Gyfalaf

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn gosod allan y prif flaenoriaethau ynghylch sut y dylid gwario cyllid cyfalaf er mwyn helpu i gyflawni Cynllun y Cyngor 2023/28. Mae'n cydnabod fod gwariant cyfalaf yn arwain at gostau cyllido cyfalaf refeniw ac mae'n rhaid sicrhau eu bod yn fforddiadwy. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn effeithio ar y CATC, y DSRhT, y Gyllideb Refeniw Flynyddol a'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol, ac mae hefyd yn cael ei dylanwadu ganddynt.

## Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT)

Mae'n gosod y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf a'r Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn. Maent yn darparu'r fframwaith a'r rheolyddion sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i dalu costau refeniw a chyfalaf cyflenwyr, bod arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, a'i fod ar gael, a sicrhau nad yw benthyca er mwyn cyllido gwariant cyfalaf yn mynd y tu hwnt i lefel fforddiadwy.

Mae'r **Gyllideb Refeniw Flynyddol** yn cael ei chefnogi gan CATC, y Strategaeth Gyfalaf a'r DSRhT - Bob blwyddyn, mae'r costau cyllido cyfalaf refeniw yn cael eu hadolygu a'u diwygio fel rhan o'r gwaith o osod cyllideb refeniw. Ar brydiau, defnyddir cyfraniadau refeniw i gyllido costau cyfalaf.


**Y Rhaglen Gyfalaf Flynyddol** - Mae'r lefel o wariant a benthyca cyfalaf yn effeithio ar y gyllideb refeniw oherwydd costau cyllido cyfalaf ac unrhyw gostau refeniw parhaus, megis cynnal a chadw.

# Prif feysydd blaenoriaeth

Mae cyflawni'r flaenoriaeth strategol, ynghyd â'r meysydd blaenoriaeth allweddol, yn gosod mandad clir ac uchelgeisiol.

Rydym am wneud yn siŵr:-

- Bod gennym ddigon o gyllid i fuddsoddi yn y blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf;
- Ein bod ni'n gallu cynnal ein hasedau cyfalaf a pharhau i ddarparu gwasanaethau;
- Bod strategaeth y Cyngor yn ddigon hyblyg i gwrdd ag unrhyw anghenion sy'n ymgodi a chymryd mantais o unrhyw gyfleoedd cyllido pan fyddant yn codi.



# Egwyddorion ac Amcanion i Gefnogi'r Gwaith o Gyflawni Prif Amcanion

- Rhaid i brosiectau cyfalaf fod yn gysylltiedig ag asedau a fydd yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol, sydd wedi'u hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor, ynghyd â'i strategaethau gweithredol allweddol a chyfrifoldebau statudol.
- Pob blwyddyn wrth adolygu'r strategaeth hwn a datblygu'r Rhaglen Gyfalaf blynyddol, rhaid i'r Cyngor ystyried stiwardiaeth, gwerth am arian, pwyll, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.
- Bydd y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cael ei flaenoriaethu o fewn y Rhaglen Gyfalaf.
- Bydd Derbyniadau Cyfalaf o Werthiant Ysgolion Dros Ben yn cael eu defnyddio fel cyllid ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (fel nodir yn yr Achos Busnes Derfynol) neu fel cyllid cyfalaf cyffredinol.
- Gellir ail-fuddsoddi derbyniadau yn yr ystâd yn dilyn gwerthu mân-ddaliadau'r Cyngor, os ydi'r blaenoriaethau gwario eraill yn caniatáu hynny.
- Bydd swm blynyddol yn cael ei ddyrannu i gynnal a chadw neu ddisodli asedau presennol y Cyngor - Adeiladau'r Cyngor, Offer TG, Cerbydau, Rhwydwaith Ffyrdd.
- Bydd y Cyngor yn anelu i ddefnyddio cyllid cyfalaf i drawsnewid a moderneiddio'r gwasanaethau a ddarperir.
- Bydd unrhyw brosiect newydd sydd angen cyllid cyfatebol i ddenu cyllid grant yn cael ei asesu ar sail achos fesul achos gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151. Bydd yr asesiad yn ystyried y lefel o gyllid grant, a yw'r prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, y goblygiadau ar gyfer y gyllideb refeniw a lefel y cyllid cyfatebol ar gyfer cyllid grant.
- Rhaid i brosiectau cyfalaf roi sylw i'r targedau carbon sero net a rhaid defnyddio dewisiadau amgen glân lle, yn draddodiadol, defnyddiwyd offer / cyfleusterau / asedau oedd yn cynhyrchu carbon.
- Bydd y Cyngor yn parhau i weithio hefo'i bartneriaid strategol ac mae wedi ymrwymo i weithio fel rhan o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gyflwyno prosiectau cyfalaf ar draws Gogledd Cymru.
- Bydd Benthyca Digefnogaeth yn cael ei ystyried os bydd y gofynion cyllido cyfalaf blynyddol yn fforddiadwy ac yn cynnal lefel dderbyniol o gostau cyllido cyfalaf yn erbyn gwariant refeniw net.
- Gweithredir benthyciadau allanol yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor er mwyn cynnal balansau arian parod digonol, ac er mwyn lleihau ffioedd cyllido cyfalaf.

# Ffynonellau Cyllid y Rhaglen Gyfalaf

| Math o Gyllid | Ffynhonnell | Cyfyngiadau Defnydd | Goblygiadau Refeniw | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | Llywodraeth Cymru | Dim | Dim | |
| Benthyca â Chefnogaeth | BBGC | Dim | Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) (seiliedig ar oes ased) a Llog (penodedig am gyfnod y benthyciad) | Costau refeniw wedi'u cyllido gan Lywodraeth Cymru (LIC) drwy'r setliad. |
| Benthyca Digefnogaeth | BBGC | Rhaid bodloni gofynion y Côd Darbodus | DRI (seiliedig ar oes ased) a Llog (penodedig am gyfnod y benthyciad) | Gan fod costau llawn yn disgyn ar y Cyngor, mae'n rhaid i unrhyw brosiect sy'n cael ei cyllido drwy fenthyciad digefnogaeth, fel arfer, greu incwm ychwanegol neu arbedion refeniw i fodloni'r DRI a ffioedd llog. |
| Cymunedau Dysgu (Grantiau a Benthyca) | Llywodraeth Cymru a BBGC | Yn unol â'r achos busnes a gymeradwyir | DRI (seiliedig ar oes ased) a Llog (penodedig am gyfnod y benthyciad) | Mae LIC yn cyllido 65% (67% drwy fenthyca â chefnogaeth a 33% drwy grant). Mae'r Cyngor yn cyllido 35% drwy fenthyca digefnogaeth a derbyniadau cyfalaf. |
| Cymunedau Dysgu (Model Buddsoddi ar y Cyd - MIM) | Llywodraeth Cymru | Yn unol â'r achos busnes a gymeradwyir | Telir ffi refeniw blynyddol i Gwmni MIM am 25 mlynedd | 92% o'r gost refeniw wedi'i cyllido gan LIC, gyda'r 8% sy'n weddill yn disgyn fel cost refeniw'r Cyngor. |
| Cyllid Grant Penodol | Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Cyllidwyr Eraill | Yn unol â'r amodau grant | Dim | Efallai y bydd cyllid grant angen lefel o gyllid cyfatebol. |
| Derbyniadau Cyfalaf | Gwerthiant Asedau'r Cyngor | Dim | Dim | Rhaid defnyddio derbyniadau cyfalaf er mwyn cyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu benthyciadau presennol. |
| Arian Wrth Gefn y Cyngor | Cyngor | Dim | Dim | |
| Cyfraniadau o'r gyllideb refeniw | Cyngor | Dim | Dim | |
| Arian Wrth Gefn y CRT | Cyngor | Gwariant Cyfalaf y CRT yn unig | Dim | |

# Asedau Presennol y Cyngor

| Math o Ased | Nifer | Math o Ased | Nifer | Math o Ased | Nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd | 38 | Clybiau Ieuenctid | 1 | Ffordd Cerbydau | 1,188 km |
| Ysgolion Uwchradd | 5 | Unedau Busnes | 68 | Troedffordd | 661 km |
| Canolfan Addysg y Bont | 1 | Safleoedd Manwerthu | 20 | Llwybr Beicio | 211 km |
| Swyddfeydd | 2 | Canolfannau Cymunedol | 8 | Strwythurau | 539 |
| Amgueddfeydd ac Archifau | 2 | Sefydliadau Addysgol Eraill | 3 | Goleuadau | 20,014 goleuadau |
| Llyfrgelloedd | 7 | Eiddo Amrywiol | 8 | Draeniad | 28,064 |
| Cartrefi Gofal Preswyl | 5 | Porthladdoedd a Phierau | 7 | Arwyddion heb eu goleuo | 7,629 |
| Cartrefi Gofal Plant (Cartrefi Clyd) | 3 | Angorfeydd | 468 | Asedau Priffyrdd Arall | 9,239 |
| Canolfannau Gofal Dydd | 4 | Stoc Dai | 3,979 uned | | |
| Canolfannau Hamdden | 4 | Tir Meddianedig | Amryw | | |
| Cyfleusterau Cyhoeddus | 22 | Parciau a Mannau Agored | 47 | | |
| Mân-ddaliadau | 75 | Cerbydau | 200 | | |

# Cynnal Asedau Presennol

- Sicrhau bod ysgolion yn cyfarfod a gofynion addysgol y dyfodol - £180m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Swyddfeydd y Cyngor - £2.5m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Canolfannau Hamdden - £8m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Adeiladau Gofal Cymdeithasol - £3.5m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Unedau Busnes - £0.5m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Mân-ddaliadau - £2.3m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd - £0.5m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Cyfleusterau Cyhoeddus - £1.4m
- Gofyniad Cynnal a Chadw Ffyrdd Blynyddol - £2m - £2.5m i gynnal cyflyrau presennol ffyrdd
- Offer TG – Disodli caledwedd presennol bob 3 i 10 mlynedd
- Cerbydau – Disodli cerbydau presennol bob 5 – 7 mlynedd – angen symud at ffynhonnell tanwydd sy'n garbon niwtral
- Grant Cyfleusterau Anabl – Gofyniad cyllidebol gwerth isafswm £900k bob blwyddyn

# Cynnal Asedau Presennol

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae cynnal a chadw asedau presennol mewn cyflwr sy'n sicrhau eu bod yn weithredol yn allweddol i sicrhau y gellir barhau i ddarparu gwasanaethau.
- Byddai buddsoddi / diweddaru a disodli asedau presennol a dechrau cael gwared ar yr ôl groniad cynnal a chadw angen gwariant cyfalaf sy'n fwy na £10m bob blwyddyn. Mae hyn y tu hwnt i'r lefel bresennol o gyllido a bydd angen blaenoriaethu buddsoddi.
- Mae buddsoddi yn asedau TG yn caniatau'r Cyngor gynnal ei galedwedd TG, sy'n cefnogi darpariaeth gwasanaethau rheng flaen.





## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Pob blwyddyn, bydd cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu i sicrhau ein bod ni'n buddsoddi yn ein hasedau presennol er mwyn eu hamddiffyn ar gyfer y dyfodol.
- Bydd asedau sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn cael eu blaenoriaethu wrth ddyrannu cyllid cyfalaf.
- Bydd swm blynyddol yn cael ei ddyrannu ar gyfer cynnal a chadw neu ddisodli asedau'r Cyngor – Adeiladau'r Cyngor, Offer TG , Cerbydau.
- Y strategaeth gyfredol yw i ddefnyddio'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthyca â Chefnogaeth.
- Bydd rhaid cael benthyca digefnogaeth sylweddol i gyllido'r gweddill, a bydd hyn yn ei dro'n arwain at DRI a thaliadau llog gwerth tua £750k y flwyddyn.
- Yn y tymor hwy, byddwn yn asesu ein hasedau a gadwyd yn unol â'n hanghenion gwasanaeth yn y dyfodol.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Anelu i gyllido ar y lefel ganlynol:-
  - Adeiladau Addysg - £1.0m
  - Adeiladau Arall y Cyngor - £0.6m
  - Cynnal a Chadw Priffyrdd - £2.0m
  - Cerbydau - £0.5m
  - Offer TG - £0.5m
  - Grant Cyfleusterau Anabl - £0.9m
- Mae'r lefelau cyllid hyn yn ddibynnol ar y cyllid fydd ar gael a blaenoriaethau cyllido eraill, ond maent yn nodi'r gofyniad isaf.
- Daw hyn i £5.5m, gyda'r cyllideb ychwanegol yn cael ei gyllido drwy fenthyca digefnogaeth, derbyniadau cyfalaf a chyfraniadau o'r cyllidebau refeniw.
- Bydd y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar gyllid cyfalaf allanol lle bynnag y bo modd a phan fo hynny'n fforddiadwy.

# Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae'n raglen sylweddol a fydd yn arwain at defnyddio'r cyllid cyfalaf Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i wella ysgolion neu adeiladu adeiladau newydd yn y tymor hir.
- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r Rhaglen o hyd a bydd yn parhau i ddefnyddio cyllid allanol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i'r eithaf.

Tudalen 52



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wrthi'n llunio'r rhaglen amlinellol strategaethol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, sy'n nodi blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor am y 9 mlynedd nesaf.
- Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar wella / disodli y 5 ysgol uwchradd y Cyngor.
- Bydd cyllid yn parhau ar ffurf cymysgedd o grantiau gan LIC a benthyca â chefnogaeth (65% o'r gost) a benthyca digefnogaeth a derbyniadau cyfalaf (35% o'r gost).

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Byddwn yn defnyddio'r Derbyniadau Cyfalaf yn dilyn gwerthu ysgolion nad ydym eu hangen mwyach i gyllido'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
- Y gost o adeiladu ysgol uwchradd newydd yw oddeutu £70m, ac mae hyn yn debygol o ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r cyllid sydd ar gael gan LlC.
- Bydd y Cyngor yn parhau i edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio Model Buddsoddi ar y Cyd (MIM) LlC i gyllido'r gost o ddisodli un adeilad ysgol.
- Mae unrhyw gynllun newydd yn annhebygol o ddechrau tan 2027/28.

# Gwelliannau i Gyfleusterau Hamdden

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae Canolfannau Hamdden yn darparu gwasanaeth bwysig i drigolion Môn, sy'n cyfrannu tuag at eu iechyd a'u lles.
- Mae 3 allan o 4 Canolfan Hamdden y Cyngor oddeutu 50 oed, ac mae angen buddsoddiad sylweddol i gynnal a chadw'r adeiladau a diweddaru'r cyfleusterau.
- Byddai'r gost amcangyfrifiadol oddeutu £40m i £50m, a ni all y Cyngor ei gyllido ar ei ben ei hun.



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Bydd y Cyngor yn parhau i gynnal a chadw'r adeiladau fel y gallant barhau i weithredu dros y tymor byr i ganolig, gyda'r nod o barhau i weithredu'r 4 ganolfan.
- Bydd y Cyngor yn asesu dyfodol tymor hir y 4 canolfan, a bydd y penderfyniad yn gysylltiedig ag anghenion cymunedau, y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a'r cyllid sydd ar gael.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Y strategaeth tymor hir yw gweithio er mwyn cael cyllid grant i wneud gwaith adnewyddu neu ail-adeiladu y canolfannau.
- Mae'r Cyngor eisoes wedi dechrau uwchraddio Canolfan Hamdden Plas Arthur, gan ddefnyddio £1.5m o arian wrth gefn clustnodedig (a gynhyrchwyd o ad-daliad TAW a gwerthu Cwrs Golff Llangefni) i'w defnyddio fel cyllid cyfatebol ar gyfer cyllid grant allanol.

MÔN ACTIF



# Rheoli Gwastraff



## Pam fod hyn yn bwysig?

- Rhaid i'r Cyngor gynnal gwasanaethau 'busnes fel arfer' diogel a chydymffurfio â newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol / cwrdd â thargedau, e.e. y targed i ailgylchu 70% o wastraff cartref.
- Mae'r buddsoddiad cyfalaf dros y 6 mlynedd nesaf oddeutu £45.1m, yn cynnwys:-
    - Adnewyddu asedau busnes fel arfer, gan gynnwys amnewid fflyd - £11.0m;
    - Newidiadau i'r gwasanaeth ailgylchu / casglu gwastraff i gwrdd â thargedau - £21.3m (gyda buddsoddidad pellach mewn fflyd ychwanegol);
    - Newidiadau isadeiledd i gefnogi newidiadau gwasanaeth i gwrdd â thargedau statudol - £4.7m;
    - Datgarboneiddoi'r fflyd ac offer - £8.0m.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Mae Cynllun Strategol y Cyngor, sydd newydd ei fabwysiadu, ar gyfer Adnoddau ac Ailgylchu yn nodi pedwar blaenoriaeth allweddol i sicrhau bod gwasanaethau 'busnes fel arfer' yn cael eu cynnal a'u gwella i gwrdd â gofynion cyfreithiol / targedau'r dyfodol. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda nifer o chydranddeiliaid i wella ei gyfraddau ailgylchu i gwrdd â thargedau statudol, ond bydd rhaid buddsoddi yn ein canolfannau hailgylchu, offer, peiriannau a cherbydau cyfredol er mwyn cyflawni hyn.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Mae'r Cyngor yn disgwyl derbyn tua £8m gan DEFRA trwy'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pecynnu (pEPR), a bydd hyn yn cael ei ddefnyddio fel cyllid uniongyrchol neu fel cyllid cyfatebol i unrhyw gyllid grant a allai gael ei sicrhau.
- Bydd rhaid cynnal unrhyw gyllid ychwanegol trwy fenthyca digefnogaeth.

# Cyflawni Sero Net

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae LIC wedi gosod targed i'r Cyngor fod yn sero net erbyn 2030.
- Mae'r Cyngor wedi adnabod nad yw'n bosib cyflawni'r targed yma o ystyried yr adnoddau sydd ar gael a'r amser sydd ar ôl.
- Rhaid i brosiectau cyfalaf ystyried targedau carbon sero net.

Tudalen 55




## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Er mwyn cyflawni'r targed o sero net, bydd angen buddsoddi'n sylweddol yn:-
  - Adeiladau'r Cyngor - er mwyn lleihau'r defnydd o ynni ac i newid i ffynonellau ynni sy'n garbon niwtral;
  - Cerbydau - troi oddi wrth gerbydau petrol a disel;
  - Tai Cyngor – trosi pob eiddo i fod yn garbon niwtral lle bo'n bosibl / hyfyw;
  - Teithio cynaliadwy;
  - Datblygu isadeiledd gwefru cerbydau trydan;
  - Gwella bioamrywiaeth ar dir y Cyngor;
  - Sicrhau bod yr holl adeiladau newydd wedi'u dylunio i fod yn garbon niwtral.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol, ac nid oes gan y Cyngor unrhyw gyllid craidd ar gyfer cyflawni'r amcan hwn.
- Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu prosiectau a gwneud bid am gyllid grant a all ddarparu prosiectau pan dderbynnir y cyllid grant.
- Bydd y Cyfrif Refeniw Tai yn darparu cyllid er mwyn symud tuag at ddarparu stoc dai'r Cyngor sy'n carbon niwtral.

# Rhaglen Amddiffyn Rhag Llifogydd

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae'r Cyngor wedi adnabod nifer o ardaloedd lle mae angen gwella amddiffyn rhag llifogydd.

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Ar hyn o bryd, mae LlC yn cyllido 85% o'r gost cyfalaf ar gyfer gwaith amddiffyn rhag llifogydd drwy grantiau. Darperir y 15% sy'n weddill gan y Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd angen buddsoddi oddeutu £2m bob blwyddyn mewn gwaith amddiffyn rhag llifogydd yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Golyga hyn y bydd yn rhaid i'r Cyngor ddarparu cyllid cyfatebol o £300k bob blwyddyn.
- Oherwydd y cyllid grant sylweddol a ellir ei ddenu drwy ddyrannu cyllid cyfatebol, bydd y strategaeth yn parhau i flaenoriaethu'r broses o ddyrannu cyllid cyfatebol o fewn y rhaglen gyfalaf.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Blaenoriaethu darparu cyllid cyfatebol er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyllid grant a ddarperir gan LlC.
- Blaenoriaethu gwariant ar gynlluniau sy'n amddiffyn y nifer uchaf o eiddo ar gyfer pob punt sy'n cael ei gwario .

# Cyllid Grant gan Lywodraeth y DU

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Sicrhau bod Ynys Môn yn dal i elwa o'r cyllid grant sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sydd wedi cymryd lle cyllid grant yr UE.
- Sicrhau ein bod ni'n parhau i fuddsoddi mewn prosiectau sy'n darparu buddion i drigolion a chymunedau Ynys Môn.

Tudalen 57



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Mae Llywodraeth y DU wedi disodli'r cyllid grant blaenorol gan yr UE gyda chyllid grant lleol a rhanbarthol ychwanegol – sef, ar hyn o bryd, y Gronfa Ffyniant Bro, y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chynllun Twf Gogledd Cymru.
- Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid rhanbarthol a lleol i wneud bid am gyllid er mwyn cwblhau prosiectau sy'n gwella'r isadeiledd leol a'r economi leol.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Asesir y broses o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor fel cyllid cyfatebol ar sail achos fesul achos, gan ystyried pwysigrwydd y prosiect ar gyfer Ynys Môn a Gogledd Cymru, y buddion posibl sy'n deillio o gwblhau'r prosiect a'r cydbwysedd rhwng cyllid cyfatebol a chyllid grant.
- Oni bai am yr ymrwymiadau presennol, nid oes unrhyw ymrwymiadau cyllid cyfatebol newydd wedi'u gwneud ar gyfer y cyfnod rhwng 2026 a 2030.



# Isadeiledd ac Offer TG mewn Ysgolion

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae'r ffordd y mae ysgolion yn darparu addysg wedi newid, ac mae TG yn chwarae mwy o ran yn y ddarpariaeth addysg ac o ran rheoli ysgolion.
- Mae buddsoddi mewn isadeiledd ac offer TG ar gyfer disgyblion yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn parhau i wella a moderneiddio'r ddarpariaeth addysg.





## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Mae'r Cyngor wedi derbyn cyllid gan LlC drwy gynllun Grant HWB. Mae hyn wedi caniatau diweddaru isadeiledd TG mewn ysgolion a phrynu dyfeisiau ar gyfer disgyblion unigol.
- Mae amod y grant HWB yn gofyn fod y Cyngor yn ymrwymo i ddisodli'r offer a brynwyd drwy'r grant pan ddaw i ddiwedd ei oes defnyddiol. Bydd angen oddeutu £4.6m o wariant erbyn 2030/31 i wneud hyn, a bydd angen buddsoddiad sylweddol pellach yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.
- Mae'r Cyngor hefo £0.9m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig er mwyn cyllido peth o'r gost, a bwriadwyd gwneud cyfraniad blynyddol o £220k o'r gyllideb refeniw bob blwyddyn er mwyn cynyddu lefel y gronfa wrth gefn yma.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Datblygu cytundeb lefel gwasanaeth gweithredol rhwng chydranddeiliaid i gyllido'r buddsoddiad angenrheidiol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.
- Edrych ar opsiynau amgen i gyllido'r buddsoddiad angenrheidiol.



# Eiddo Buddsoddi

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae gan y Cyngor nifer o eiddo sy’n cael eu gosod ar sail fasnachol ac sy’n cynhyrchu incwm blynyddol ar gyfer y Cyngor. Maent yn cynnwys unedau diwydiannol, swyddfeydd, unedau manwerthu a mân-ddaliadau.
- Mae’r eiddo yma’n darparu llety gwerthfawr i gefnogi busnesau lleol ac maent yn ein galluogi i barhau i fuddsoddi yn yr economi leol.

Tudalen 59



## Beth fyddwn ni’n ei wneud?

- Mae’r Cyngor wedi dilyn strategaeth o ddatblygu unedau newydd drwy gyllid grant, yn bennaf gan yr UE a LlC. Mae enghreifftiau diweddar o ddatblygiadau yn cynnwys unedau newydd ym Mhenrhos, Caergybi, ac unedau yn Ystâd Ddiwydiannol Bryn Cefni.
- Ceisio datblygu unedau newydd yng Ngogledd Ynys Môn a Llangefni, gydag amcangyfrif o fuddsoddiad o £12m, ond nid yw cyllid wedi'i sicrhau eto.
- Rhwng 2010 a 2015, cafwyd gwared ar nifer o fân-ddaliadau, ac fe unwyd tir er mwyn creu unedau mwy o ran maint a hyfywedd. Ail-fuddsoddwyd y derbyniadau cyfalaf o werthiant yr eiddo hyn er mwyn diweddaru’r eiddo a oedd yn weddill. Fodd bynnag, nid yw’r ffynhonnell hon o gyllid ar gael bellach.

## Sut fyddwn ni’n gwneud hyn?

- Mae Cynllun Rheoli Asedau’r Cyngor yn nodi’n bwriad ar gyfer ein gwahanol ystadau a math o asedau, a bydd hyn yn cael ei fwydo i mewn i’r gyllideb gyfalaf.
- Byddai’n rhaid i’r Cyngor ddefnyddio ei gyllid cyfalaf craidd er mwyn buddsoddi yn yr eiddo hyn, yn ogystal ag unrhyw gyllid grant daw ar gael neu fenthyca digefnogaeth.

# Tai Cymdeithasol a Fforddiadwy

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae'r Cyngor yn darparu tai ar gyfer oddeutu 4,000 o denantiaid ar hyn o bryd, ac mae'n darparu llety fforddiadwy i drigolion mwyaf bregus Ynys Môn.
- Mae'r galw am lety rhent isel, fforddiadwy o safon ar Ynys Môn yn parhau i gynyddu. Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i fuddsoddi yn ei stoc dai presennol a chynyddu'r stoc hwnnw er mwyn parhau i gwrdd â'r galw cynyddol.

Tudalen 60



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Parhau i ddatblygu, neu ail-brynu, 45 uned bob blwyddyn ac, yn ogystal, buddsoddi yn y ddarpariaeth gofal ychwanegol newydd, gydag uned 40 gwely a gynllunir i'w agor yn 2030/31.
- Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i fuddsoddi yn ei stoc bresennol er mwyn sicrhau bod eiddo'n parhau i gynnal safon SATC, a bod unrhyw waith i ddiweddaru eiddo nad ydynt wedi'u diweddaru hyd yma yn digwydd pan fydd yr eiddo ar gael.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Defnyddio asedau ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) i gyllido'r buddsoddiad sydd ei angen.
- Mae'r CRT yn gyfrif sydd wedi'i glustnodi. Cyllidir gwariant cyfalaf drwy'r warged blynyddol a gyflawnir drwy'r cyfrif refeniw, y grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr a dderbynnir gan LIC, balansau cronfeydd wrth gefn presennol y CRT a drwy fenthyca digefnogaeth.
- Mae'n rhaid i unrhyw ddatblygiad newydd gwblhau 3 prif brawf ariannol cyn ei roi ar waith. Mae hyn yn sicrhau fod unrhyw fenthyciad yn fforddiadwy a bod modd ei gyllido drwy incwm rhentu yn y dyfodol.
- Mae Cynllun Busnes 30 mlynedd y CRT yn amcanu y bydd £67m yn cael ei fuddsoddi yn y stoc bresennol a bydd £60m yn cael ei fuddsoddi yn natblygiad eiddo newydd yn ystod y 5 mlynedd nesaf.
- Mae'r Cynllun Busnes wedi gosod cap ar fenthyca, sef 6.5 gwaith swm yr incwm rhent.

# Crynodeb o Wariant Cyfalaf 2026/27 hyd at 2030/31

| | Achos Sylfaen £'m | Uchelgeisiol £'m | Delfrydol £'m |
|---|---|---|---|
| Cynnal a Chadw Asedau Presennol | 32.45 | 41.06 | 59.20 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 0.00 | 96.70 | 96.70 |
| Gwelliannau i Gyfleusterau Hamdden | 2.15 | 18.15 | 22.15 |
| Rheoli Gwastraff | 8.69 | 15.43 | 44.22 |
| Cyflawni Sero Net | 0.00 | 4.00 | 10.00 |
| Rhaglen Amddiffyn rhag Llifogydd | 0.03 | 4.03 | 8.03 |
| Isadeiledd / Offer TG mewn Ysgolion | 2.08 | 3.02 | 3.63 |
| Eiddo Buddsoddi | 12.65 | 12.65 | 18.65 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 101.27 | 159.53 | 164.59 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT** | **159.32** | **354.57** | **427.17** |



- Mae'r Achos Sylfaen yn defnyddio'r cyllid sydd wedi'i sicrhau y gwyddys amdano. Mae'r senario Delfrydol yn cyfeirio at y buddsoddiad sydd ei angen er mwyn cyflawni holl amcanion y Cyngor, a dwyn ynghyd yr holl asedau presennol i gyflwr derbyniol.
- Mae'r senario Uchelgeisiol yn defnyddio lefel o fenthyca digefnogaeth a all fod yn fforddiadwy os, a phryd, fydd sefyllfa cyllideb refeniw'r Cyngor yn gwella.
- Gall cyllid grant, pan fydd wedi'i sicrhau, ganiatáu i'r Cyngor ddisodli benthyciadau â grantiau a chaniatáu iddo symud o'r Achos Sylfaen i'r Uchelgeisiol ar gost refeniw is, neu ganiatáu iddo symud o'r senario Uchelgeisiol i'r un Delfrydol.
- Mae'n bosib y bydd cyllid grant arall hefyd ar gael ar gyfer prosiectau eraill, a byddant yn cael eu cynnwys yn y gyllideb gyfalaf pan fydd y cyllid hwnnw wedi cael ei sicrhau ac, felly, maent wedi'u hepgor o'r tabl hwn.

# Crynodeb ar Gyllido Gwariant Cyfalaf 2026/27 hyd at 2030/31

| | Achos Sylfaen £'m | Uchelgeisiol £'m | Delfrydol £'m |
|---|---|---|---|
| Benthyca â Chefnogaeth | 12.21 | 12.21 | 12.21 |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 13.96 | 13.96 | 13.96 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Benthyca â Chefnogaeth | 0.00 | 8.19 | 8.19 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Benthyca Digefnogaeth | 0.00 | 4.03 | 4.03 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Grant Llywodraeth Cymru | 0.00 | 6.58 | 6.58 |
| Cyllid Model Buddsoddi ar y Cyd (MIM) | 0.00 | 77.90 | 77.90 |
| Grantiau Eraill gan Lywodraeth Cymru | 12.65 | 31.28 | 68.57 |
| Grantiau Ail-gylchu Gwastraff | 7.70 | 7.70 | 7.70 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 0.00 | 0.80 | 0.80 |
| Cronfeydd wrth gefn Clustnodedig | 4.85 | 4.98 | 5.04 |
| Cyfranid Refeniw – Gronfa Cyffredinol | 6.08 | 7.29 | 7.88 |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr y CRT | 13.46 | 13.46 | 13.46 |
| Grantiau Eraill y CRT | 26.07 | 46.70 | 48.16 |
| Cronfeydd Wrth Gefn a Gwarged Blynyddol y CRT | 34.15 | 25.48 | 25.48 |
| Benthyca Digefnogaeth – Cronfa Gyffredinol | 0.60 | 20.12 | 49.71 |
| Benthyca Digefnogaeth – CRT | 27.59 | 73.89 | 77.50 |
| **CYFANSWM Y CYLLID** | **159.32** | **354.57** | **427.17** |

# Effaith Gwariant Cyfalaf ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) a Benthyca Allanol

| | Achos Sylfaen | | Uchelgeisiol | | Delfrydol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | GCC £'m | Benthyca £'m | GCC £'m | Benthyca £'m | GCC £'m | Benthyca £'m |
| 2026/27 | 161.31 | 124.24 | 161.31 | 124.24 | 161.31 | 124.24 |
| 2027/28 | 180.69 | 144.92 | 182.90 | 147.17 | 184.24 | 148.54 |
| 2028/29 | 200.87 | 165.91 | 206.93 | 172.12 | 216.53 | 181.90 |
| 2029/30 | 210.93 | 175.22 | 225.03 | 194.37 | 241.59 | 211.40 |
| 2030/31 | 222.91 | 182.84 | 248.50 | 220.17 | 273.50 | 246.11 |

- Mae effaith yr uchod ar derfyn awdurdodedig a ffin weithredol y Cyngor wedi'i nodi yn Natganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor.

# Goblygiadau Refeniw o Wariant Cyfalaf – Cronfa Gyffredinol

| | | Achos Sylfaen | | Uchelgeisiol | | Delfrydol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwariant Refeniw Net (GRN) Amcangyfrifedig £'m | DRI a Llog £'m | DRI a Llog i GRN % | DRI a Llog £'m | DRI a Llog i GRN % | DRI a Llog £'m | DRI a Llog i GRN % |
| 2026/27 | 207.02 | 6.55 | 3.17% | 6.55 | 3.17% | 6.55 | 3.17% |
| 2027/28 | 212.20 | 6.74 | 3.18% | 6.90 | 3.25% | 7.02 | 3.31% |
| 2028/29 | 216.44 | 6.89 | 3.18% | 7.30 | 3.37% | 7.82 | 3.61% |
| 2029/30 | 220.77 | 6.95 | 3.15% | 7.87 | 3.56% | 8.82 | 3.99% |
| 2030/31 | 225.19 | 7.09 | 3.15% | 8.70 | 3.86% | 10.16 | 4.51% |

- Tybir y bydd y gwariant refeniw net yn cynyddu 2.5% bob blwyddyn o 2027/28, gan ddisgyn i 2% erbyn 2028/29.
- Mae'r DRI yn cael ei gyfrifo ar sail Polisi DRI cyfredol y Cyngor – gweler y Datganiad Strategaeth Rheoli 'r Trysorlys
- Ni fyddai'r costau DRI a Llog ychwanegol yn cael eu cyllido drwy CAC a byddai angen cynnydd yn y Dreth Gyngor i'w gyllido.
- Gan ystyried fod y Cyngor wedi mabwysiadu'r dull blwydd-dal i gyfrifo'r ffi DRI, mae'r ffi DRI yn cynyddu'n flynyddol, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar y Dreth Gyngor i gyllido'r costau refeniw blynyddol ychwanegol.

# Goblygiadau Refeniw o Wariant Cyfalaf – Cyfrif Refeniw Tai

| | Achos Sylfaen | | | Uchelgeisiol | | | Delfrydol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif Incwm Rhent Net (IRhN) £'m | DRI & Llog £'m | DRI & Llog i IRhN % | Amcangyfrif IRhN £'m | DRI & Llog £'m | DRI & Llog i IRhN % | Amcangyfrif IRhN £'m | DRI & Llog £'m | DRI & Llog i IRhN % |
| 2026/27 | 24.06 | 2.38 | 9.88% | 24.06 | 2.38 | 9.88% | 24.04 | 2.38 | 9.88% |
| 2027/28 | 25.22 | 3.58 | 14.17% | 25.22 | 3.58 | 14.17% | 25.30 | 3.55 | 14.04% |
| 2028/29 | 26.75 | 4.78 | 17.68% | 27.02 | 4.78 | 17.68% | 27.11 | 4.88 | 18.00% |
| 2029/30 | 27.31 | 5.28 | 19.35% | 27.86 | 5.49 | 19.70% | 27.97 | 5.63 | 20.12% |
| 2030/31 | 28.41 | 5.75 | 20.24% | 29.27 | 6.23 | 21.28% | 29.38 | 6.39 | 21.74% |

- Mae'r incwm rhent net yn unol â'r Cynllun Busnes CRT.
- Mae'r DRI yn cael ei gyfrifo ar sail Polisi DRI cyfredol y Cyngor – gweler y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- Gan ystyried fod y Cyngor wedi mabwysiadu'r dull blwydd-dal i gyfrifo'r ffi DRI, mae'r ffi DRI yn cynyddu'n flynyddol, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar y Dreth Gyngor i gyllido'r costau refeniw blynyddol ychwanegol.

# Blaenoriaethu Gwariant Cyfalaf a Gosod Cyllidebau Cyfalaf Blynyddol

- Bydd cyllidebau blynyddol yn cael eu gosod i gynnal asedau presennol, a bydd y gyllideb yn ddibynnol ar y cyllid sydd ar gael drwy'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthyca â Chefnogaeth.
- Bydd y gwasanaethau'n cael eu gwahodd i gyflwyno bid am gyllid ar gyfer prosiectau un tro. Bydd y bidiau'n cael eu hasesu o ran:-
  - Y modd y maent yn cyfrannu at yr amcanion yng Nghynllun y Cyngor;
  - A ydynt yn cyfrannu at liniaru unrhyw un o risgiau corfforaethol y Cyngor;
  - Effaith y prosiect ar fuddsoddi cyfalaf yn y dyfodol;
  - Effaith y prosiect ar gostau refeniw yn y dyfodol, h.y. fydd costau refeniw'n cynyddu ta'n gostwng;
  - A fydd y prosiect yn cael ei gyllido'n rhannol drwy gyllid grant ac, os felly, faint.
- Mae'r cyllidebau Cyfalaf ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu a'r Cyfrif Refeniw Tai yn cael eu llunio y tu allan i'r broses hon.

# Monitro a Rheoli Gwariant a Benthyca Cyfalaf

Mae Gwariant Cyfalaf a'r benthyciadau perthnasol yn cael eu monitro a'u rheoli gan y Cyngor, fel a ganlyn:-

- Y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Benthyca Darbodus - yn cael eu sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn cael eu cynnig gan y Pwyllgor Gwaith a'u cymeradwyo gan y Cyngor llawn;
- Cyflwynir adroddiadau rheoli'r trysorlys blynyddol a bob hanner blwyddyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn;
- Cyflwynir adroddiadau Monitro Gwariant Cyfalaf Chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith a'r Panel Sgriwtini Cyllid;
- Cynigir Cyllideb Cyfalaf Blynyddol gan y Pwyllgor Gwaith ac fe'i cymeradwyir gan y Cyngor llawn.



Mae'r cyfrifoldeb ar gyfer y swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys o fewn y Cyngor yn eistedd gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, a gefnogir gan weithwyr cyllid proffesiynol, cymwys a phrofiadol, gan gynnwys y Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg, Rheolwr Cyllid a Chyfrifydd Cyfalaf.

Mae'r Cyngor hefyd yn cyflogi MUFG Corporate Markets Treasury Limited i ddarparu cyngor arbenigol ar reoli'r trysorlys.

Mae Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ar reoli'r trysorlys sy'n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau.

# Strategaeth Buddsoddi Rheoli'r Trysorlys

- Mae Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor wedi ei nodi yn y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Blynyddol, ond fe'i crynhoir fel a ganlyn:-
  - Mae arian dros ben yn cael ei fuddsoddi gyda sefydliadau ariannol sydd â'r statws credyd uchaf, fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.
  - Mae buddsoddiadau'n cael eu gwneud drwy sicrhau'r egwyddorion diogelwch, hylifedd ac elw, yn y drefn honno. Nid yw buddsoddiadau'n cael eu gwneud er mwyn sicrhau'r elw mwyaf yn unig. Adroddir ar fuddsoddiadau'n chwarterol drwy'r adroddiadau diweddaru Rheoli'r Trysorlys.
  - Ni fydd buddsoddiadau ariannol yn cael eu cyllido drwy fenthyca ychwanegol.
  - Bydd y Cyngor yn cadw isafswm balansau arian parod sy'n cyfateb i'r lefel gytunedig o falansau cyffredinol, sydd ar hyn o bryd yn 5% o gyllideb gwariant refeniw net y Cyngor, sy'n £10.35m ar gyfer 2026/27.
  - Mae gan y Cyngor nifer o fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai rheoli'r trysorlys ar ffurf eiddo buddsoddi (eiddo manwerthu, swyddfeydd ac unedau masnachol) sy'n cynhyrchu incwm rhent blynyddol, er nad yw'r incwm a gynhyrchir yn sylweddol yn nhermau incwm blynyddol cyffredinol y Cyngor. Nid oes bwriad i werthu'r eiddo hyn yn y dyfodol agos.
  - Bydd y Cyngor yn cymryd mantais o unrhyw gyllid grant sydd ar gael iddo er mwyn datblygu mwy o eiddo buddsoddi, ond ni chymerir unrhyw fenthyca sylweddol ychwanegol er mwyn datblygu rhagor o unedau.

# Risgiau o ran Cyflawni'r Strategaeth Gyfalaf a'r Gyllideb Cyfalaf

Tudalen 69



# Crynodeb o’r Canfyddiadau



- Mae gofyniad cyfalaf y Cyngor i foderneiddio a diweddaru asedau presennol ac i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol yn fwy na £425m dros y 5 mlynedd nesaf, ac mae gallu’r Cyngor i gyflawni wedi’i gyfyngu oherwydd diffyg cyllid sydd heb ei neilltuo gan lywodraeth ganolog.
- Mae gallu’r Cyngor i ymgymryd â benthyca digefnogaeth, yn unol â gofynion y Côd Darbodus, wedi’i gyfyngu ar sail fforddiadwyedd, gan y byddai’n gosod cost annerbyniol ar dreth dalwyr yn y dyfodol.
- Mae’r isafswm cyllid sydd ar gael drwy fenthyca â chefnogaeth a’r grant cyfalaf cyffredinol yn annigonol er mwyn cyllido’r isafswm sydd ei angen i gynnal asedau presennol y Cyngor i lefel sy’n galluogi’r asedau hynny i gael eu gweithredu’n ddiogel ac effeithiol.
- Er mwyn cyflawni ei amcanion corfforaethol, mae’n rhaid i’r Cyngor sicrhau cyllid grant ychwanegol, ond efallai na fydd hyn yn ddigonol er mwyn galluogi’r Cyngor i symud ymlaen tuag at gyflawni ei amcanion.
- Er mwyn symud o’r sefyllfa isaf, mae’n rhaid i’r Cyngor ystyried ymgymryd â benthyca digefnogaeth cyfyngedig, ond mae’n rhaid i hyn fod ar lefel fforddiadwy, gan ystyried yr heriau ariannol presennol sy’n wynebu’r Cyngor.
- Efallai y bydd ffactorau allanol, megis deddfwriaeth newydd neu addasedig, lefelau perfformiad newydd neu’r angen i osgoi methiannau gwasanaeth, yn dwysau’r angen i symud o’r sefyllfa isaf yn gynt na’r hyn a ystyrir yn ddymunol neu fforddiadwy.
- Gellir osgoi buddsoddiad cyfalaf ychwanegol drwy resymoli asedau ac ymestyn bywyd asedau presennol.
- Rhoddir blaenoriaeth i gyllido’r prosiectau hynny sy’n cyflawni prif flaenoriaethau’r Cyngor orau, e.e. y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
- Darperir cyllid cyfatebol lle mae’r prosiect yn cael ei gyllido’n bennaf gan grantiau allanol ac os yw’r prosiect yn unol ag amcanion corfforaethol y Cyngor.
- Bydd prosiectau’r CRT yn parhau i gael eu hasesu ar wahân i brosiectau Cronfa’r Cyngor.

# Atodiad 1 – Rhagdybiaethau Gwariant

| Categori Cyllideb Cyfalaf | Cyllidir Gan | Achos Sylfaen £'m | Uchelgeisiol £'m | Delfrydol £'m |
|---|---|---|---|---|
| Cynnal Asedau – Ysgolion | Benthyca â Chefnogaeth a Grant Cyfalaf Cyffredinol | Cyllideb Cychwynnol o £900k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £1.0m wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £1.0m wedi cynyddu gan chwyddiant |
| Cynnal Asedau – Adeiladau Eraill y Cyngor | Benthyca â Chefnogaeth a Grant Cyfalaf Cyffredinol | Cyllideb Cychwynnol o £334k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £600k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £900k wedi cynyddu gan chwyddiant |
| Cynnal Asedau - Cerbydau | Benthyca â Chefnogaeth a Grant Cyfalaf Cyffredinol | Cyllideb Cychwynnol o £350k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £550k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £550k wedi cynyddu gan chwyddiant |
| Cynnal Asedau – Offer T.G. | Benthyca â Chefnogaeth a Grant Cyfalaf Cyffredinol | Cyllideb Cychwynnol o £433k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £433k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £500k wedi cynyddu gan chwyddiant |
| Cynnal a Chadw Ffyrdd | Benthyca â Chefnogaeth a Grant Cyfalaf Cyffredinol | Cyllideb Cychwynnol o £1.7m wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £2.0m wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £2.5m wedi cynyddu gan chwyddiant |
| Grantiau a Benthyciadau Tai | Premium y Dreth Gyngor | Cyllideb Cychwynnol o £1.0m wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £1.0m wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £1.0m wedi cynyddu gan chwyddiant |
| Grantiau Cyfleusterau Anabl | Benthyca â Chefnogaeth a Grant Cyfalaf Cyffredinol | Cyllideb Cychwynnol o £900k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £900k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £1.0m wedi cynyddu gan chwyddiant |
| Rhaglen Moderneiddio Ysgolion | Grantiau LlC a Benthyca â Chefnogaeth, Benthyca Digefnogaeth, Cyllid Model Buddsoddi ar y Cyd (MIM) | Dim cynlluniau | Ysgol Uwchradd Newydd yng Nghaergybi, Adnewyddu Ysgolion Cynradd ac Uwchradd (fel mae cyllid gan LlC yn caniatau) | Ysgol Uwchradd Newydd yng Nghaergybi, Adnewyddu Ysgolion Cynradd ac Uwchradd (fel mae arian gan LlC yn caniatau) |
| Amnewid Offer TG Ysgolion | Cyfraniad o'r Gyllideb Refeniw, Balansau Ysgolion a Cronfa Wrth Gefn Clustnodedig | £1.4m yn 2027/28 a £220k ym mhob blwyddyn dilynol | £3.3m erbyn 2030/31 | £4.6m erbyn 2030/31 |

Tudalen 71

# Atodiad 1 – Rhagdybiaethau Gwariant

| Categori Cyllideb Cyfalaf | Cyllidir Gan | Achos Sylfaen £'m | Uchelgeisiol £'m | Delfrydol £'m |
|---|---|---|---|---|
| Ôl-groniad cynnal a chadw – Swyddfeydd y Cyngor | Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig a Benthyca Digefnogaeth | £230k o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig yn 2026/27 | £230k o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig yn 2026/27, £250k y flwyddyn ar ôl 2026/27 | £230k o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig yn 2026/27, £250k y flwyddyn ar ôl 2026/27 |
| Ôl-groniad cynnal a chadw – Cartrefi a Chanolfanau Dydd Gwasanaethau Cymdeithasol | Benthyca Digefnogaeth | £95k o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig yn 2026/27 | £95k o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig yn 2026/27. £1.2m erbyn 2030/31 | £95k o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig yn 2026/27. £3.5m erbyn 2030/31 |
| Ôl-groniad cynnal a chadw – Llyfrgelloedd, Archifau a'r Oriel | Benthyca Digefnogaeth | £0 | £200k erbyn 2030/31 | £250k erbyn 2030/31 |
| Ôl-groniad cynnal a chadw – Ysgolion | Benthyca Digefnogaeth | £0 | £300k y flwyddyn | £2.6m y flwyddyn |
| Ôl-groniad cynnal a chadw – Unedau Diwydiannol a Busnes | Benthyca Digefnogaeth | £0 | £100k y flwyddyn am 5 mlynedd | £100k y flwyddyn am 5 mlynedd |
| Ôl-groniad cynnal a chadw – Man-ddaliadau | Gwarged Refeniw | £0 | £100k y flwyddyn | £230k y flwyddyn |
| Safle Sipsiwn a Theithwyr | 100% Grant LlC | £0 | £1.2m erbyn 2028/29 | £1.2m erbyn 2028/29 |
| Isadeiledd Trafnidiaeth Cyhoeddus | 100% Grant LlC | Dibynnol ar gyllid grant | Dibynnol ar gyllid grant | Dibynnol ar gyllid grant |
| Toiledau Cyhoeddus | Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig a Grant LlC | £280k o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig | £280k o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig | £280k o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig a £100k y flwyddyn |
| Prosiectau Carbon Net Sero | Grant LlC (90%) a Benthyca Digefnogaeth | £0 | £1.0m y flwyddyn | £2.5m y flwyddyn |

# Atodiad 1 – Rhagdybiaethau Gwariant

| Categori Cyllideb Cyfalaf | Cyllidir Gan | Achos Sylfaen £'m | Uchelgeisiol £'m | Delfrydol £'m |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun Gwella Hamdden | Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig, Cyllid Grant a Benthyca Digefnogaeth | Cwblhau adnewyddu Plas Arthur. £2.15m erbyn 2030/31 | Cwblhau adnewyddu Plas Arthur. Un Canolfan Hamdden newydd. £18.2m erbyn 2030/31 | Cwblhau adnewyddu Plas Arthur. Un Canolfan Hamdden Newydd ac adnewyddu 2 arall £22.0m erbyn 2030/31 |
| Cynllun Buddsoddi Datblygu Economaidd | Grant LlC a Benthyca Digefnogaeth | Buddsoddiad Porthladd Rhydd a prosiect Gogledd Ynys Môn | Buddsoddiad Porthladd Rhydd a prosiect Gogledd Ynys Môn | Buddsoddiad Porthladd Rhydd a prosiect Gogledd Ynys Môn ac £8.0m ar gyfer prosiectau newydd |
| Cynllun Rheoli Gwastraff | Grant DEFRA a Grant LlC (90%) | £8.7m erbyn 2029/30 | £15.4m erbyn 2030/31 | £44.2m erbyn 2030/31 |
| Cynlluniau Amddiffyn rhag Llifogydd | 85% Grant LlC a Benthyca â Chefnogaeth | £30k o gyllid cyfatebol o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig | £1.0m y flwyddyn | £2.0m y flwyddyn |
| Cynnal a Chadw Cynlluniedig CRT a SATC | Cronfa wrth Gefn CRT, Gwarged Refeniw, Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Benthyca Digefnogaeth | £67.0m erbyn 2030/31 | £67.0m erbyn 2030/31 | £67.0m erbyn 2030/31 |
| Datblygiadau Newydd CRT | Grant Tai Cymdeithasol, Grantiau LlC a Benthyca Digefnogaeth | Cynllun Gofal Ychwanegol Seiriol a Datblygiadau Ymrwymedig Eraill. £52.6m erbyn 2030/31 | Cynllun Gofal Ychwanegol Seiriol a Datblygiadau Eraill Cynlluniwyd. £90.0m erbyn 2030/31 | Cynllun Gofal Ychwanegol Seiriol a Datblygiadau Eraill Cynlluniwyd. £95.0m erbyn 2030/31 |
| Cerbydau CRT | Benthyca Digefnogaeth | Cyllideb Cychwynnol o £361k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £361k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £361k wedi cynyddu gan chwyddiant |

This page is intentionally left blank

22/11/2024

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 18 Chwefror, 2026 |
| **Pwnc:** | Cynllun Strategol Mân-ddaliadau 2026 – 2031 |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Jeff Evans |

**1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?**

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Y Cynghorydd Alun Roberts | Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac **Eiddo** |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Meilir Hughes | Prif Swyddog Eiddo ac Asedau |

**2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater**

Mae'r Cynllun Strategol Mân-ddaliadau 2026 – 2031 yn darparu'r fframwaith ar gyfer sicrhau bod dull strategol, cyfannol a chyd-gysylltiedig o reoli'r Ystâd Mân-ddaliadau, yn unol â Chynllun y Cyngor. Mae cyfnod y Cynllun presennol wedi dod i ben ac felly mae angen sefydlu cynllun newydd ar gyfer y cyfnod nesaf. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried cynnwys Cynllun Strategol 2026-2031.

**3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion**

☐Er sicrwydd
☒Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):
Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini dderbyn cynnwys y Cynllun Strategol Rheolaeth Mân-ddaliadau am y cyfnod 2026 – 2031 cyn iddo cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.

**4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?**

Bydd cymeradwyo'r Cynllun Strategol yn cyfrannu at yr amcanion canlynol;

Economi – gwella hyfywedd yr Ystâd yn y tymor hir a thrwy hynny sicrhau gallu'r Cyngor i hyrwyddo cyfleoedd amaethu a busnesau economi wledig ar yr ynys.

Newid hinsawdd - gwella argaeledd yr Ystâd ar gyfer defnyddiau amgen i gynnwys ar gyfer cyfrannu at daith y Cyngor tuag at Sero Net pe penderfyna'r Cyngor wneud hynny.



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Yr egwyddor o ymrwymo asedau ariannol werthfawr er mwyn darparu gwasannaeth an-statudol.
2. Cyfyngiadau ariannol
3. Yr amcan o hwyluso defnydd amgen o'r Ystâd i gefnogi Cynllun y Cyngor
4. Llywodraethu a throsolwg effeithiol
5. Risgiau a heriau

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**Mae angen Cynllun Strategol newydd.**
Mabwysiadwyd y polisi diweddaraf dros 15 mlynedd yn ôl, ac mae ei gyfnod gweithredol gwreiddiol wedi dod i ben.
Mae dyletswydd i gynnal dogfennau polisi cyfredol er mwyn llywodraethiant democrataidd a thryloyw. Mae angen fframwaith polisi ac arweiniad ar Swyddogion i'w grymuso i wneud penderfyniadau cyson gyda dyheadau'r Cyngor.

**Bydd mabwysiadu a chyflawni'r Cynllun Strategol yn gwella rheolaeth a hyfywedd yr Ystâd Mân-ddaliadau.**
Pwrpas y Cynllun Strategol Mân-ddaliadau yw sefydlu gweledigaeth ac egwyddorion i rymuso rheolaeth gynaliadwy o'r Ystâd. Bydd hynny yn sicrhau hyfywedd tymor hir drwy ddychwelyd buddion ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol priodol.

**Mae'r Cynllun Strategol yn adnabod yr angen, ac yn argymell cynyddu'r gyllideb Cynnal a Chadw o £100,000**
Fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Strategol sefydlwyd fod diffyg yn y trefniadau cyllidebol presennol sydd yn achosi ôl-groniad Cynnal a Chadw gynyddu yn barhaus. Trwy leihau cyfraniad net yr Ystâd i Gronfa'r Cyngor, a buddsoddi'r arian hynny mewn gwaith Cynnal a Chadw gallwn gyfarch yr ôl groniad a sicrhau Ystâd fydd mewn cyflwr y gellir bod yn falch ohoni.

**Mae'r Cynllun Strategol yn sefydlu proses er mwyn gwyntyllu cyfleon ar gyfer rhesymoli'r Ystâd.**
Sefydla'r Cynllun Strategol yr egwyddor o werthuso hyfywedd daliadau fel y dônt yn wag a phenderfynu ail-osod, ail-drefnu neu waredu daliadau ar rinweddau'r daliadau unigol ar sail achos wrth achos.
Sefydla'r Cynllun Strategol uchelgais tymor hir o gynyddu maint yr Ystâd trwy brynu tir ychwanegol wedi ei ariannu o incwm o gwerthiannau.

**Mae'r Grwp Llywio Mân-ddaliadau yn cefnogi'r Cynllun Strategol.**
Mae Grwp Llywio Mân-ddaliadau aml-bleidiol wedi ei chynnull ac allbwn cyfarfodydd y grwp honno sydd wedi gyrru cyfeiriad y Cynllun Strategol. Mae'r Grwp yn Argymell y Cynllun Strategol Drafft.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| Asesiad effaith wedi ei gynnal – dim effaith wedi ei adnabod. Cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth / manylion. |

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| Asesiad effaith wedi ei gynnal – dim effaith wedi ei adnabod. Cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth / manylion. |

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| Asesiad effaith wedi ei gynnal – dim effaith wedi ei adnabod. Cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth / manylion. |

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

| |
|---|
| Positif / Niwtral / Negyddol a sut.<br><br>Positif.<br>Mae'r ymrwymiad hir dymor i'r Ystâd yn sicrhau parhad perchnogaeth tiroedd sydd yn sinc-carbon net.<br>Bydd gweithredu'r Cynllun Strategol yn arwain wella argaeledd yr Ystâd ar gyfer defnyddiau amgen i gefnogi cyflawniad Cynllun y Cyngor pan yn addas.<br>Tra byddai angen awdurdod pellach i ymrwymo rhannau o'r Ystâd at ddibenion amgen, gall y Cyngor ddewis ymrwymo rhannau i gynlluniau sy'n cyfrannu at daith y Cyngor tuag at Sero Net. |

## 8. Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| Mae'r Cynllun Strategol yn adnabod angen, ac yn argymell cynyddu cyllideb Cynnal a Chadw o £100,000. Bydd cefnogi'r Cynllun a derbyn yr Argymhelliad yn golygu galw ychwanegol gwerth £100,000 ar gyllidebau refeniw y Cyngor. |

## 9. Atodiadau

| |
|---|
| Cynllun Strategol Rheolaeth Mân-ddaliadau |

## 10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Meilir Hughes, Prif Swyddog Eiddo ac Asedau |

Ynys Môn
THE ISLE OF Anglesey



# Cynllun Strategol Rheolaeth Mân-ddaliadau 2026 – 2031

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mae'r ddogfen yma hefyd ar Gael yn Saesneg / This document is also available in English.

# Rhagair

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn falch o’i Ystâd Mân-ddaliadau a’r cyfraniad y mae’n parhau i’w wneud i’r economi wledig, y gymuned ffermio ac amgylchedd yr Ynys.



Cynghorydd Alun Roberts
Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo



Huw Percy
Pennaeth Gwasanaeth: Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gadw ein Hystâd ac i sicrhau ei hyfywedd hirdymor fel Ystâd amaethyddol i'w gosod.

Mae rheoli'r Ystâd, a'r gofynion cystadleuol ac yn aml yn gwbl groes i'w gilydd a wneir gan wahanol randdeiliaid, yn her sylweddol, er enghraifft; bydd gofynion y tenantiaid presennol yn eithaf gwahanol i'r rhai sy'n ymgeisio am eu tenantiaeth gyntaf, ac mae'r Cynllun Strategol hwn yn ceisio cydbwyso'r gofynion hynny wrth fynd ar drywydd budd gorau'r Ystâd yn y tymor hir.

Er y sylweddolir y gallai fod rhywfaint o wrthwynebiad i elfennau, argymhellir bod y newidiadau arfaethedig yn cael eu gwneud yn raddol er mwyn mynd i'r afael â risgiau mewn da bryd. Bydd oedi wrth wneud newidiadau yn gwaethygu risgiau ac mae'n debygol o arwain at orfod cymryd camau mwy llym maes o law.

*Nid yw'r cynllun strategol hwn yn berthnasol i Ystâd Elusennol David Hughes, sydd â dogfen bolisi ar wahân sy'n adlewyrchu'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â'i hamcanion elusennol.*

# Pwrpas

“ Rheoli’r Ystâd Mân-ddaliadau yn gynaliadwy er mwyn sicrhau ei hyfywedd hirdymor drwy ddarparu dychweliad ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol priodol i adlewyrchu ei gwerth cyfalaf.”

Mae’r Cynllun Strategol Rheolaeth Mân-ddaliadau yn cael ei yrru gan Gynllun y Cyngor a'r Cynllun Strategol Cyfalaf i sicrhau bod penderfyniadau rheoli Mân-ddaliadau yn cael eu gwneud mewn ffordd gynlluniedig sy'n caniatáu i'r Cyngor gyflawni ei amcanion strategol allweddol wrth sicrhau hyfywedd hirdymor.

Mae gan y ddogfen strategol hon oes o 5 mlynedd a bydd yn darparu'r fframwaith ar gyfer sicrhau bod dull strategol, cyfannol a chydlynol o reoli Ystâd y Mân-ddaliadau, yn unol â Chynllun y Cyngor.

# Ystâd Mân-ddaliadau





| Maint y Daliadau | |
|---|---|
| Maint (erwau) | Nifer y Daliadau |
| 0-5 | 3 |
| 5-10 | 9 |
| 10-30 | 5 |
| 30-40 | 7 |
| 40-50 | 11 |
| 50-60 | 9 |
| 60-70 | 5 |
| 70-80 | 10 |
| 80-90 | 12 |
| 90-100 | 6 |
| 100-120 | 9 |
| 120-140 | 2 |
| 140-160 | 2 |
| 160-180 | 1 |

| Math o Fferm | Nifer y Daliadau |
|---|---|
| Godro | 2 |
| Cymysg | 76 |
| Tir Noeth | 13 |
| | |

| Math o Denantiaeth | |
|---|---|
| Math | Nifer y Daliadau |
| Busnes Fferm Tenantiaeth | 55 |
| Deddf Daliadau Amaethyddol ( gydol oes ) | 22 |
| Deddf Daliadau Amaethyddol (cymal ymddeol) | 13 |
| Dim Tenantiaeth | 1 |

# Cynllun y Cyngor 2023-2028 Amcanion Strategol

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolbwynt i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitor perfformiad a chynnydd.
Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda phreswylwyr, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**

Tudalen 82

'Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.'

### Yr iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

### Gofal cymdeithasol a Lles

Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser iawn.

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Tai

Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref.

### Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)

# Cynllun y Cyngor 2023-2028 -Gwerthoedd

Mae gwerthoedd craidd y sefydliad yn sylfaen i Gynllun y Cyngor 2023-28, ac maent yn cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain gweledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.



## Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill waeth beth yw ein gwahaniaethau.

## Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn.

## Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonnau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

## Hyrwyddo’r Cyngor a’r Ynys


Rydym yn creu ymdeimlad o falchder wrth weithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol i'r Cyngor a'r Ynys.

[Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)]

# Cylch strategol

Mae'r cylch strategol yn nodi'r cynlluniau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion.

Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r weledigaeth strategol.




[Council Plan 2023 to 2028 (gov.wales)](Council Plan 2023 to 2028 (gov.wales))

# Meysydd blaenoriaeth allweddol

“Rheoli’r Ystâd Mân-ddaliadau yn gynaliadwy er mwyn sicrhau ei hyfywedd hirdymor drwy ddarparu enillion ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol priodol i adlewyrchu ei gwerth cyfalaf.”

1. Ystâd gynaliadwy yn ariannol
   - wedi'i rhesymoli a'i optimeiddio'n briodol sy'n cynhyrchu enillion ariannol i adlewyrchu’r cyfalaf a fuddsoddwyd i sicrhau dyfodol hirdymor sy'n gynaliadwy yn ariannol.

2. Ystâd i fod yn falch ohoni
   - Mewn cyflwr da, yn gefnogol i’w thenantiaid ac yn gallu parhau i ddarparu cyfleoedd i bobl ffermio ar eu cyfrif eu hunain.
   - Wedi'i reoli'n dryloyw, yn ddoeth ac yn broffesiynol gydag egwyddorion gwneud penderfyniadau wedi’u gweithredu yn gyson ac yn deg.

3. Ystâd lle mae risg yn cael ei lleihau a'i rheoli
   - Wedi’u rheoli i leihau‘r risgiau wynaba’r Cyngor (yswiriedig ac eraill) a chanlyniadau eu gwireddu.

4. Ystâd sy'n cefnogi Cynllun y Cyngor
   - Ystâd sy'n cefnogi cyflawniad amcanion strategol Cynllun y Cyngor lle bo'n briodol.

# Ystâd gynaliadwy yn ariannol

## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae gwerth cyfalaf yr Ystâd yn sylweddol, a dylai gynhyrchu dychweliad ariannol i adlewyrchu'r cyfalaf a fuddsoddwyd.

Mae cadw Ystâd sy'n perfformio'n wael, ac sydd angen cymorthdal o gyllidebau canolog y Cyngor yn anghynaladwy.

Mae dyfodol Ystâd sydd wedi'i rhesymoli a'i optimeiddio'n briodol sy'n perfformio'n dda yn ariannol yn fwy diogel a chynaliadwy.

## Beth ydyn ni'n mynd i'w wneud?

- Rhesymoli'r Ystâd
- Buddsoddi yn briodol
- Uchafu Incwm Rhent a gwella prydlondeb taliadau

## Sut ydyn ni'n mynd i wneud hyn?

- Ystyried yr achos busnes dros gadw a gwaredu pan fydd daliadau'n dod yn wag.
- Ystyried ddefnyddiau amgen.
- Wrth werthu, gwneud hynny ar y farchnad agored a uchafu derbyniad cyfalaf.
- Cadw tir lle bo'n briodol, gan ei ychwanegu at ddaliadau eraill neu ei osod fel tir noeth.

- Cynhyrchu cynllun buddsoddi 10 mlynedd.
- Cynyddu'r Gyllideb CaCh flynyddol o £102,000 o 2026/27 gan gynyddu wedi hynny ar sail chwyddiant am oes y cynllun strategol.

- Adolygu'r holl renti yn unol â'r darpariaethau.
- Newid telerau rhentu i symleiddio adolygiadau rhent pan fydd cyfleoedd yn codi.
- Dal blaendaliadau wrth osod daliadau newydd.
- Mynnu taliadau amserol gan orfodi pan fo angen.
- Terfynu tenantiaethau mewn achosion o ddiffyg talu yn parhaus.

# Ystâd wedi'i rheoli'n dda y gellir bod yn falch ohoni

## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae’r Ystâd Mân-ddaliadau yn ased o werth a phroffil sylweddol o fewn y gymuned amaethyddol. Gall y berthynas rhwng y Cyngor a'i denantiaid bara degawdau.

Mae'n bwysig ein bod yn rheoli’r Ystâd yn dryloyw , yn ddoeth ac yn yn broffesiynol.

Yn ogystal â chynnig cyfleoedd prin i bobl ffermio ar eu cyfrif eu hunain, mae’r daliadau yn gartrefi i bobl, ac mae'n bwysig bod y cartrefi hynny'n addas i bwrpas.

## Beth ydyn ni'n mynd i'w wneud?

- Gwella dogfennaeth a chadw cofnodion i gryfhau ein gallu i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar set ddata gyflawn, gywir a chfredol.
- Gweithredu egwyddorion penderfynnu yn gyson gan ddefnyddio data i lywio'r penderfyniadau hynny.
- Gwella tryloywder ac atebolrwydd ar gyfer trefniadau rheoli
- Adolygu egwyddorion a trefniadau penodi tenantiaid newydd
- Buddsoddi yn briodol mewn cynnal a chadw'r daliadau, ac yn benodol anelu'n benodol at wella sgôr gyfartalog EPC yr ystâd.

## Sut ydyn ni'n mynd i wneud hyn?

- Datblygu taflenni proffil ar gyfer pob daliad yn crynhoi data allweddol a'u diweddaru'n rheolaidd.
- Cofnodi cytundebau rhwng Landlord a Thenantiaid ar gyfer y dyfodol.
- Cynnal arolygon cyflwr cynhwysfawr i sefydlu cyflwr tai ac adeiladau.
- Defnyddiwch CPM (rhaglen rheoli cyfleusterau gyfrifiadurol) i reoli adolygiadau rhent ac adnewyddiadau tenantiaethau.
- Sefydlu dangoswyr perfformiad allweddol ac adrodd yn flynyddol .

# Ystâd lle mae risg yn cael ei lleihau a'i rheoli

## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae rhai risgiau ynghlwm a perchnogaeth unrhyw eiddo. Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r Mân-ddaliadau yn uwch o'u cymharu â'r rhai sy'n gysylltiedig ag eiddo Cyngor cyn gweithredu mesurau lliniaru. Mae hyn oherwydd nad ydynt yn eiddo unffurf, annibyniaeth y tenantiaid a'r rheolaeth gyfyngedig sydd gan y Cyngor dros eu gweithredoedd.

Gan fod y Cyngor wedi ymrwymo i gadw'r Ystâd, ni ellir dileu'r risgiau. Felly, argymhellir cymryd y camau ymarferol resymol i'w rheoli.

## Beth ydyn ni'n mynd i'w wneud?

Lleihau'r risgiau canlynol:

- Atebolrwydd sifil a/neu droseddol
    - Ar gyfer materion iechyd a diogelwch ac eraill
- Cydymffurfiaeth Statudol
    - Materion Diogelwch Adeiladu
    - Deddfwriaeth Amgylcheddol
- Baich ariannol
    - Costau atgyweirio a chynnal a chadw ac atebolrwydd am atgyweiriadau costus
    - Costau yswiriant
    - Diffyg â talu rhent
- Rheolaeth Ystâd wael
    - Diffyg cydymffurfio â thelerau prydles gan y Tenant neu'r Landlord
    - Chynnal a Chadw
- Niwed i enw da
    - Fel canlyniad eilaidd i wireddu'r risgiau uchod.

## Sut ydyn ni'n mynd i wneud hyn?

Manteisio ar gyfleoedd i wneud newidiadau buddiol i gytundebau tenantiaeth pryd bynnag y bo modd e.e. wrth negodi adnewyddu tenantiaethau neu ddiwygiadau er mwyn :

- Ddiffinio dyletswyddau'r Tenant a'r Landlord yn glir
- Trosglwyddo dyletswyddau penodol i denantiaid fel sy'n briodol
- Trosglwyddo cyfrifoldeb am sicrhau bod y tŷ yn ddiogel ac yn cydymffurfio i'r Landlord (lle bo angen).
- Ymchwilio i opsiynau ar gyfer lleihau cost yswirio'r eiddo i'r Landlord.
- Lleihau hyd y tenantiaethau i roi sefyllfa negodi gryfach i'r Landlord a mwy o reolaeth dros yr eiddo.
- Cymryd agwedd risg isel at benodiadau tenantiaid
- Rhagdybio o blaid cymeradwyo ceisiadau am olyniaeth (ar delerau diwygiedig) mewn enwau ar y cyd lle mae aelodau'r teulu yn dymuno olynu yn amodol ar berfformiad boddhaol blaenorol . *

* Noder: bydd hyn yn lleihau cyfleoedd i ymgeiswyr newydd

# Ystâd sy'n cefnogi Cynllun y Cyngor

## Pam mae hyn yn bwysig?

Er bod yr Ystâd wedi'i gosod i tua 90 o aelwydydd, cynigir y dylai fod ar gael at ddefnyddiadau amgen i gefnogi cyflawni Cynllun y Cyngor lle bo'n briodol.

Gall hyn gynnwys cadw rhai daliadau neu rannau o ddaliadau mewn llaw yn hytrach na'u gosod fel y gellir eu defnyddio at ddibenion eraill. Gallai hefyd olygu gweithio ar y cyd â thenantiaid i ddatblygu cynlluniau rheoli sy'n galluogi'r tir i gael ei ddefnyddio at ddiben penodol.



## Beth ydyn ni'n mynd i'w wneud?

Ystyried ddefnyddiau amgen ar gyfer rhannau o'r Ystâd pan fydd cyfleoedd yn codi:

- Ailddefnyddio adeiladau at ddefnydd strategol.
- Ailddefnyddio tir ar gyfer datblygiad strategol.
- Ailddefnyddio tir at ddibenion a fydd yn cyfrannu at daclo newid hinsawdd .
- Ailfuddsoddi'r elw o werthu daliadau i brynnu tir newydd i'w osod fel rhan o'r Ystâd yn y tymor byr i ganolig gyda photensial strategol ar gyfer hwyluso datblygiad economaidd, tai, addysg neu ddatblygiadau eraill.

## Sut ydyn ni'n mynd i wneud hyn?

- Newid ffurf a hyd y denantiaeth, fel yr amlinellir o dan “Lleihau Risg” i roi sefyllfa negodi gryfach i’r Landlord a mwy o reolaeth dros yr eiddo.
- Ailbwrpasu daliadau dim ond ar ôl gwerthusiad a chymeradwyaeth lawn, gan roi blaenoriaeth i ddatblygu neu fynd i'r afael â newid hinsawdd. Bydd cyfleoedd priodol yn brin ond dylid manteisio arnynt pan godant.
- Creu cronfa gyfalaf wedi'i chlustnodi o elw gwerthiannau i ailfuddsoddi yn yr ystâd, gan gynnwys prynu tir amaethyddol strategol ar gyfer datblygiad yn y dyfodol. Bydd tir yn cael ei osod at ddibenion amaethyddol nes y gellir gwireddu ei botensial strategol .

# Risgiau wrth gyflawni'r Cynllun Strategol Rheolaeth Mân-ddaliadau

Tudalen 90

- Gallu mewnol i gyflawni
- Newidiadau deddfwriaethol
- Angen ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl
- Cyfyngiadau cyllidebol
- Gwrthwynebiad i newid
- Trafodaethau ehangach ynghylch pwysau ar y sector amaethyddol yn rhwystro newid
- Canfyddiad bod y newidiadau arfaethedig yn annheg
- Gallu cyfyngedig i wneud newidiadau o fewn oes tenantiaethau heb gytundeb y Tenantiaid, ynghyd â hyd hyd y tenantiaethau hynny a throsiant isel.
- Newid hinsawdd ac amlder cynyddol stormydd sy'n achosi difrod, a'r pwysau sy'n deillio o hynny ar gostau yswiriant ac argaeledd polisi.

# Llywodraethu: Monitro a gwerthuso

Byddwn yn sefydlu trefniadau cadarn i sicrhau bod y cynllun strategol yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus. Bydd y trefniadau hyn yn darparu eglurder, atebolrwydd, cydlyniant, a dull strwythuredig o fonitro cynnydd yn effeithiol.

Bydd Tîm Rheoli Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yn arwain ar ddatblygu, gweithredu a monitro'r cynllun strategol. Bydd y grŵp hwn yn adrodd yn uniongyrchol i'r Tîm Arweinyddiaeth – Cyfalaf a Digidol.



Bydd diweddariadau cynnydd rheolaidd yn cynnwys manylion y camau a gymerwyd, y canlyniadau a'r effaith a gyflawnwyd, gan amlygu llwyddiannau a heriau. Byddwn yn cynhyrchu adroddiad cynnydd blynyddol, ynghyd ag adolygiad ffurfiol o'r cynllun strategol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol.

Mae'n bwysig cydnabod y bydd cyflawni'r newidiadau hyn yn cymryd amser, yn bennaf oherwydd y sicrwydd deiliadaeth sydd gan ein tenantiaid. Bydd cynnydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, a rhaid i ni fod yn barod i fanteisio ar gyfleoedd wrth iddynt godi, fel ymddeoliadau neu newidiadau eraill.

This page is intentionally left blank

22/11/2024

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **18 Chwefror, 2026** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cynghorydd Jeff Evans** |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Amherthnasol | |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Dyfan Sion | Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2025/26

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☐ Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐ Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):
Gofynnir i'r Pwyllgor:
**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2025/26
**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Amherthnasol



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith

ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2025/26 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| Amherthnasol |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 21 Ionawr, 2026

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| Amherthnasol |

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

| |
|---|
| Amherthnasol |

## 8. Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| Amherthnasol |

## 9. Atodiadau

| |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2025/26 |

## 10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Elin Allsopp, Swyddog Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

# RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2025 → EBRILL, 2026
**[Fersiwn dyddiedig 03/02/26]**

## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd
Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Tîm Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [sgriwtiniscrutiny@ynysmon.llyw.cymru]



| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2025 ( 20/05/2025)** | **Mai, 2025 (20/05/2025)** |
| Ethol Cadeirydd: 2025/26 | Ethol Cadeirydd: 2025/26 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2025/26 | Ethol Is-gadeirydd: 2025/26 |
| | |
| **Mai, 2025 (21/05/2025)-Cyfarfod Ychwanegol** | |
| Canlyniadau'r Ymgysylltiad ar y Ddarpariaeth Addysg Ôl-16 | |
| Adeilad Ysgol Uwchradd Caergybi | |
| | |
| **Mehefin, 2025 (17/06/2025) – Ch4** | **Mehefin, 2025 (12/06/2025) – Addysg / Y Gymraeg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2024/25 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2024/25<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032: Mesur Cynnydd→2024/25 |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2025/26 | Rhaglen Ariannol Llywodraeth y DU [Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd] |
| Atgyweirio To Adeilad Canolfan Addysg y Bont: Gwersi a Ddysgwyd | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch 4 2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Dim cyfarfod wedi'i raglennu** | **Gorffennaf, 2025 (15/07/2025) - Gwasanaethau Brys** |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | Heddlu Gogledd Cymru |
| | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Medi, 2025 (17/09/2025) – Ch1** | **Medi, 2025 (16/09/2025) – Cydweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2025/26 | Grŵp Llandrillo Menai |
| Argymhellion Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini: Gosod Tai’r Cyngor – diweddariad ar gynnydd | Prifysgol Bangor |
| Aelodaeth y Panelau Sgriwtini | Aelodaeth y Panelau Sgriwtini |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Hydref, 2025 (15/10/2025)** | **Hydref, 2025 (14/10/2025) – Trosedd ac Anrhefn** |
| Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2024/25 | Menter Môn |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2024/25 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2024/25 |
| Canlyniadau’r Ymgynghoriad ar y Cynnig i Adleoli Dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i Adeilad Ysgol Newydd ar gyfer Dysgwyr 11-18 Oed | |
| Moderneiddio Cymunedau Dysgu: Achos Amlinellol Strategol (eitem eithriedig) | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Uchelgais Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol: 2024/25<br>• Adroddiad Cynnydd Ch1: 2025/26 | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Tachwedd, 2025 (18/11/2025) - Ch2** | **Tachwedd, 2025 (13/11/2025) – Addysg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2025/26 | Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd |
| Adroddiad Hunanasesiad, Perfformiad a Llesiant 2024/25 | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| | **Tachwedd, 2025 (26/11/2025) – Iechyd** |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | Archwilio Cymru: Adroddiad Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o’r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru-mesur cynnydd |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | |
| | |
| | **Rhagfyr, 2025 (10/12/2025) – Cyfarfod Arbennig** |
| | Ymgynghoriad Casglu Gwastraff ac Ailgylchu |
| | Cynllun Strategol Addysg Ddigidol |
| | |
| **Ionawr, 2026 (21/01/2026) (bore)** | **Ionawr, 2026 (20/01/2026)** |
| Sefydlu Cyllideb 2026/27 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn:<br>• Adroddiad Blynyddol 2024/25<br>• Trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu’r Cynllun Llesiant |
| Cynllun Strategol Tuag at Sero Net | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch2: 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | |
| | |
| **Chwefror, 2026 (18/02/2026) – Cyllideb 2026/27** | **Dim cyfarfod wedi’i raglennu** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2026/27 – refeniw a chyfalaf | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau | |
| Cynllun Strategol Rheoli Man-ddaliadau 2026-2031 | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | |
| | |
| **Mawrth, 2026 (18/03/2026) - Ch3** | **Mawrth, 2026 (17/03/2026)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2025/26 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2024/25 |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2026/2056 | Porthladd Rhydd Ynys Môn – mesur cynnydd |
| | Eitemau Mentrau Cronfa Ffyniant:<br>• Y Gronfa Ffyniant Gyffredin-Mesur Cynnydd<br>• Rhaglen Ariannol Llywodraeth y DU - Cronfa Ffyniant Ynys Môn-Mesur Cynnydd |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch3:2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2025/26 |
| | |
| **Ebrill, 2026- Dim cyfarfod wedi’i raglennu** | **Ebrill, 2026- Dim cyfarfod wedi’i raglennu** |
| | |
| | |

**Eitemau i’w rhaglennu**

| **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
|---|---|
| Rhaglen Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Chryfhau’r Gymraeg | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Adroddiad Cynnydd Ch4: 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/2023) |
| Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn |
| Cynllun Strategol Creu Lle | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Cynllun Strategol Cyngor sy’n wybodus am Ddata | Rhaglen Ariannol Llywodraeth y DU [Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn]- Mesur Cynnydd] (Mehefin / Gorffennaf 2026) |
| | Cyfoeth Naturiol Cymru |